Adolygiad a Gwerthusiad Pum Mlynedd o Gynllun Ymchwil Gynllunio Cymru

Adroddiad Terfynol i Lywodraeth Cynulliad Cymru

Adolygiad a Gwerthusiad Pum Mlynedd o Gynllun Ymchwil Gynllunio Cymru

Adroddiad Terfynol i Lywodraeth Cynulliad Cymru

C3086 / Mehefin 2006

ECOTEC

Friary House/
Tŷ Friary
Greyfriars Place
Cardiff CF10 3AE/
Caerdydd
Wales/Cymru

Ffôn **+44 (0)29 2036 7775**
Ffacs **+44 (0)29 2036 7789**
www.ecotec.com

Cynnwys

TUDALEN

Crynodeb Gweithredol i

Cyd-destun ii

Effeithiolrwydd y Rhaglenni Cyfredol ii

Bodloni'r Amcanion a'r Themâu Gwreiddiol iii

Llywio'r broses o Ddatblygu Polisi iv

Y Rhaglen yn y Dyfodol v

Argymhellion ar gyfer Gweithredu'r Rhaglen ar gyfer y Dyfodol vi

Datblygu Fframwaith Perthnasol vi

Rheoli a Gweinyddu'r Rhaglen vii

Rheolaeth Ariannol vii

Cyfathrebu viii

Rheoli Prosiectau Ymchwil viii

Goresgyn y Rhwystrau i Ymchwil sy'n Llywio Polisi ix

1.0 Cyflwyniad 1

1.1 Penodi ECOTEC 1

1.2 Nod ac Amcanion yr Adolygiad 1

1.2.1 Nod 1

1.2.2 Amcanion 1

1.3 Cefndir 2

1.3.1 Polisi Cynllunio Cymru 2

1.4 Rhaglen Ymchwil Cynllunio Cymru 2

1.4.1 Amcanion y Rhaglen 3

1.4.2 Themâu Ymchwil 3

1.5 Dull o Weithredu a'r Gwaith a Wnaed 5

1.5.1 Dechrau 5

1.5.2 Ymchwil Ddesg 5

1.5.3 1.1.1 Adolygu'r Rhaglen 5

1.5.4 1.1.2 Adolygu'r Prosiectau 6

1.5.5 1.1.1 Adolygu'r Amgylchedd Polisi sy'n Newid 6

1.5.6 1.1.2 Adolygu Gweinyddiaeth y Rhaglen 7

1.5.7 Ymgynghori â Rhanddeiliaid Allweddol 7

1.6 Statws yr Adroddiad 7

1.7 Strwythur yr Adroddiad 7

2.0 Cyd-destun Polisi Strategol 9

2.1 Cyflwyniad 9
2.2 Gwerthoedd Craidd 9
2.3 Cyfle Cyfartal 9
2.3.1 Datblygu Cynaliadwy 10
2.3.2 Cynhwysiant Cymdeithasol 11
2.4 Strategaethau Corfforaethol y Cynulliad 11
2.5 Cymru: Gwlad Well 11
2.5.1 Cynllun Datblygu Cynaliadwy 12
2.5.2 Pobl, Lleoedd, Dyfodol – Cynllun Gofodol Cymru 13
2.5.3 Creu'r Cysylltiadau: O Weledigaeth i Weithredu 14
2.5.4 Iaith Pawb 15
2.6 Strategaethau sy'n Benodol i Bolisïau 16
2.6.1 Cartrefi Gwell 16
2.6.2 Strategaeth Amgylcheddol 17
2.6.3 Yn Gall gyda Gwastraff 18
2.6.4 Ffermio ar gyfer y Dyfodol 18
2.6.5 Cymru - Economi sy'n Ffynnu 19
2.6.6 Dringo'n Uwch 19
2.6.7 Cynllun Datblygu Gwledig 2000-2006 20
2.6.8 Trafnidiaeth 21
2.7 Y Cyd-destun Strategol 21

3.0 Effeithiolrwydd y Rhaglen Gyfredol 23
3.1 Cyflwyniad 23
3.2 Rheoli Rhaglenni 23
3.2.1 Rheolaeth Gyffredinol 23
3.2.2 Rheolaeth Ariannol 23
3.2.3 Maint y Rhaglen 24
3.2.4 Cyfathrebu 25
3.3 Datblygu'r Rhaglen 25
3.4 Rheoli Prosiect 26
3.4.1 Comisiynu Contractau Ymchwil 26
3.4.2 Rheoli'r Prosiectau Ymchwil 27
3.4.3 Lledaenu Canlyniadau 28
3.5 Casgliadau Strategol 28

4.0 Bodloni'r Amcanion a'r Themâu Gwreiddiol 30
4.1 Cyflwyniad 30
4.2 Amcanion y Rhaglen 30

4.3 Themâu'r Rhaglen 40
4.3.1 Cynllunio Gofodol 40
4.3.2 Datblygu Cynaliadwy 41
4.3.3 Cynllunio Gwledig 41
4.4 Casgliadau Strategol 41

5.0 Llywio'r Broses o Ddatblygu Polisi 43
5.1 Cyflwyniad 43
5.2 Y Berthynas Rhwng y Cylch Polisi ac Ymchwil 43
5.3 Prydlondeb a Pherthnasedd yr Ymchwil 43
5.4 Rhyngweithio â Rhaglenni Ymchwil Mewnol ac Allanol Eraill 47
5.4.1 Rhaglenni Ymchwil Mewnol 47
5.4.2 Rhaglenni Ymchwil Allanol 48
5.5 A Ellid Cael Canlyniadau o Ffynonellau Eraill, a Hynny Mewn Ffordd Fwy Effeithiol 50
5.6 Rhwystrau i'r Broses o Ddatblygu Polisi 51
5.7 Casgliadau Strategol 51

6.0 Rhaglen y Dyfodol 53
6.1 Cyflwyniad 53
6.2 Amcanion 53
6.3 Themâu Ymchwil 53
6.4 Cydgysylltu Polisi'r Cynulliad 54
6.5 Materion sy'n ymwneud â Pholisi 54
6.5.1 Tai 55
6.5.2 Yr Amgylchedd 56
6.5.3 Cynllunio Gofodol 57
6.5.4 Prosesau Cynllunio 58
6.5.5 Datblygu Economaidd 59
6.5.6 Trafnidiaeth 60
6.5.7 Gwastraff 60
6.5.8 Telegyfathrebu 60
6.5.9 Adolygu Polisi 61
6.6 Casgliadau Strategol 62

7.0 Casgliadau ac Argymhellion 64
7.1 Cyflwyniad 64
7.2 Sefyllfa'r Rhaglen yn Null Corfforaethol y Cynulliad o Ymchwilio 64
7.3 Datblygu Fframwaith Perthnasol 65

7.3.1 Blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru 66
7.3.2 Meysydd Gwario sy'n Flaenoriaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru 67
7.3.3 Amcanion Ymchwil 67
7.3.4 Themâu Ymchwil 67
7.3.4.1 *Datblygu Cynaliadwy* *67*
7.3.4.2 *Cynllunio Gofodol* *68*
7.3.4.3 *Materion Gwledig* *68*
7.3.4.4 *Materion Trefol* *68*
7.3.4.5 *Y Rhyngwyneb Gwledig : Trefol* *68*
7.3.4.6 *Adfywio* *68*
7.3.5 Meysydd Ymchwil 68
7.4 Rheoli a Gweinyddu'r Rhaglen 69
7.4.1 Rheoli'r Rhaglen 69
7.4.2 Rheolaeth Ariannol 70
7.4.3 Cyfathrebu 72
7.4.4 Goresgyn y Rhwystrau sy'n Atal yr Ymchwil Rhag Llywio Polisi 75

Tabl y ffigurau

Ffigur 1.1 Fframwaith Ymchwil yr Astudiaeth Gwmpasu 4
Ffigur 2.1 Cyd-destun Polisi'r Cynulliad 22
Ffigur 4.1 Enghraifft o'r Angen am Ymchwil a Sut y Mae Hyn yn Troi'n Bolisi – Ynni Adnewyddadwy 31
Ffigur 7.1 Matrics ar gyfer Dethol prosiectau Ymchwil 66

Tabl y tablau

Tabl 3.1 Cyfanswm y Gwariant a Gynlluniwyd a'r Gwariant Gwirioneddol yn ôl Blwyddyn 24
Tabl 4.1 Nifer y Contractau a Gwariant yn ôl Amcanion yr Astudiaeth Gwmpasu 30
Tabl 6.1 Sefyllfa Bresennol y Fframwaith Polisi 54

Crynodeb Gweithredol

Nod Rhaglen Ymchwil Gynllunio Cymru (WPRP) yw cefnogi anghenion ymchwilio'r broses o ddatblygu polisi cynllunio yng Nghymru. Mae gweithredoedd yr WPRP yn seiliedig ar Astudiaeth Gwmpasu a gwblhawyd yn 2000. Nod y Rhaglen, yn ôl yr astudiaeth yw (o'i gyfieithu):

"cefnogi amcanion y Cynulliad ar gyfer y system gynllunio drwy gynnal gwaith ymchwil a fydd yn llywio'r broses o ddatblygu polisi cynllunio cynaliadwy ac effeithiol, hwyluso canllawiau arferion da a sicrhau bod polisi cynllunio, a'i oblygiadau, yn cael ei fonitro a'i werthuso."

Yn ystod y pum mlynedd ers datblygu'r Astudiaeth Gwmpasu, mae nifer o newidiadau sefydliadol a newidiadau polisi wedi digwydd ac felly mae cyd-destun Polisi Cynllunio Cymru wedi newid hefyd. Dyma rhai o'r newidiadau hyn:

- Mae Uned Polisi Strategol y Cynulliad bellach yn gyfrifol am ymchwil i gynllunio gofodol, er mwyn cefnogi'r gwaith ar Gynllun Gofodol Cymru;
- Mae polisïau corfforaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi esblygu;
- Cynhaliwyd gwaith ymchwil sy'n ymwneud â mwynau a gwastraff gan ddefnyddio cronfeydd sydd wedi'u neilltuo gan y WPRP.

Dyma gyfle gwych i werthuso ac adolygu'r WPRP. Mae briff y cleient ar gyfer yr astudiaeth hon yn nodi'r cylch gwaith canlynol:

- Ystyried a fodlonwyd yr amcanion a nodwyd yn yr Astudiaeth Gwmpasu;
- Archwilio sut mae'r ymchwil a wnaed naill ai wedi dylanwadu ar bolisi neu wedi troi'n bolisi;
- Rhoi cyfeiriad ar gyfer y rhaglen ymchwil bum mlynedd nesaf.

Nod yr adolygiad yw:

"Gwerthuso Rhaglen Ymchwil Gynllunio Cymru yng Ngoleuni polisïau strategol y Cynulliad o roi amcanion a themâu drafft ar gyfer 2005-2011."

Mae'r astudiaeth yn seiliedig ar gyfuniad o ymchwil ddesg ac ymgynghoriadau â rhanddeiliaid. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- Adolygiad o fframwaith polisi corfforaethol y Cynulliad a'r broses o ddatblygu polisi cynllunio penodol;
- Adolygiad o reolaeth y Rhaglen a'r prosiectau ymchwil a gefnogir;

- Adolygiad desg manwl o ddetholiad o ddeg o brosiectau ymchwil a ariennir gan y Rhaglen;
- Adolygiad o'r amgylchedd polisi yn y dyfodol y bydd yn rhaid i'r WPRP ei ystyried;
- Adolygiad o drefniadau gweinyddol y Rhaglen;
- Trafodwyd y canfyddiadau interim mewn dau weithdy bord gron – un gyda swyddogion y Cynulliad a'r llall gyda rhanddeiliaid allanol.

Cyd-destun

Ers i'r Rhaglen ddechrau yn 2000, mae'r WPRP wedi'i gosod mewn cyd-destun polisi sy'n esblygu, fel y nodwyd yn adran 2. Bu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gyfrifol am broses sylweddol o ddatblygu polisïau, ar lefel gorfforaethol y Cynulliad ac ar lefel sy'n benodol i bolisi cynllunio mwynau a defnydd tir. Mae'r adolygiad yn ystyried y cyd-destun polisi sydd bellach ar waith ac y bydd yn effeithio ar weithredu'r WPRP ar gyfer y dyfodol.

Effeithiolrwydd y Rhaglenni Cyfredol

Yn adran 3, rydym wedi ystyried sut y rheolwyd yr WPRP ar lefel y Rhaglen ac yn nhermau'r cytundebau ymchwil unigol. Mae'r adolygiad hwn wedi esgor ar y casgliadau strategol canlynol:

- Roedd gan y model yr un rheolaeth swyddogol â'r cytundebau ymchwil ac felly mae'r broses o ddatblygu'r polisïau cysylltiedig yn gadarnhaol. Mae'n rhoi'r cyfle i sicrhau bod yr ymchwil yn berthnasol i'r anghenion datblygu polisi.

- Ar hyn o bryd, gweithdrefnau cyfyngedig a geir o ran rheoli'r rhaglen yn gyffredinol, a gall hyn leihau'r gallu i reoli'r Rhaglen yn strategol. Mae'r sefyllfa hon yn waeth o ganlyniad i'r rhwyg rhwng agweddau cynllunio defnydd tir a mwynau a gwastraff yr WPRP. Mae angen i'r Rhaglen gael ei datblygu ar y cyd ac adrodd ar y cynnydd, yn ogystal â hyblygrwydd o ran y gyllideb er mwyn sicrhau y ceir y budd mwyaf o'r Rhaglen bob blwyddyn.

- Mae'r Panel Defnyddwyr yn fecanwaith cadarnhaol ar gyfer datblygu'r WPRP a chynnwys rhanddeiliaid allanol. Gallai hyn chwarae rôl mwy wrth ddethol prosiectau a monitro ac adolygu'r Rhaglen. Byddai hyn yn arwain at ddefnyddio'r WPRP mewn ffordd fwy strategol.

- Dylid defnyddio'r holl ddewisiadau sydd ar gael o dan y rheolau caffael, drwy sicrhau bod y staff yn cael gwybodaeth lawn am ofynion a'r dulliau amgen o gomisiynu

contractau. Byddai hyn yn helpu i leihau'r amser y mae'r swyddogion yn ei dreulio yn gweinyddu'r gofynion caffael, ac yn rhoi mwy o gyfle i gomisiynu prosiectau ychwanegol erbyn diwedd y flwyddyn, er mwyn gwneud y defnydd mwyaf o'r gyllideb.

- Mae grwpiau llywio'r prosiect yn ffordd gadarnhaol o oruchwylio prosiect ymchwil, ac yn rhoi'r cyfle i gynnwys sefydliadau allanol perthnasol sydd â gwybodaeth arbenigol i lywio'r ymchwil.

- Caiff gweithgareddau'r Rhaglen eu lledaenu; serch hyn, mae lle i wella. Mae diffyg strwythur i wefan presennol y Cynulliad a diffyg swyddogaeth chwilio i gefnogi'r WPRP. Fodd bynnag, roedd cylchlythyr blynyddol yr WPRP yn ddull cadarnhaol o roi'r newyddion diweddaraf i sefydliadau am weithgareddau'r WPRP.

Bodloni'r Amcanion a'r Themâu Gwreiddiol

Yn adran 4, aethom at i ystyried a oedd yr ymchwil a wnaed wedi bodloni amcanion a themâu ymchwil gwreiddiol yr Astudiaeth Gwmpasu mewn gwirionedd. Mae'n bwysig pwysleisio bod yr Astudiaeth Gwmpasu wedi pennu'r paramedrau y gallai'r WPRP weithredu o'u mewn. Fodd bynnag, roedd angen i'r WPRP hefyd ddiwallu anghenion ymchwil polisïau a blaenoriaethau Gweinidogion a oedd yn dod i'r amlwg ac felly nid oeddent wedi'u cyfyngu gan argymhellion yr Astudiaeth Gwmpasu. Yma, tynnwn ynghyd y prif gasgliadau sy'n codi o adolygiad y prosiectau a gefnogir o dan WPRP o ran amcanion a themâu ymchwil yr Astudiaeth Gwmpasu.

- Caiff bron i 60% o'r prosiectau ymchwil a gefnogir eu halinio'n uniongyrchol â'r Astudiaeth Gwmpasu, gan gyfrif am ryw 76% o'r gwariant. Roedd y gweddill, sef 40% o'r prosiectau, ar gyfer cefnogi'r Grwpiau RAWP (Gweithgorau Agregau Rhanbarthol) yn bennaf, gan olygu a chasglu dogfennau polisi neu ymchwil sy'n benodol i achosion.

- Er y gellid priodoli 60% o'r prosiectau i un o amcanion unigol yr Astudiaeth Gwmpasu, fel arfer, gallant gefnogi mwy nag un o'r amcanion. Er enghraifft, mae'n bosibl mai casglu gwybodaeth a wnânt yn bennaf, ond byddai hyn naill ai'n cyfrannu at greu polisïau neu at lywio systemau y mae eu hangen i wella'r system gynllunio.

- O gymharu ag amcanion gwreiddiol yr Astudiaeth Gwmpasu, mae gwahaniaeth glir rhwng y prosiectau a gynhelir gan ymchwil gynllunio â'r rheini a gynhelir gan wastraff a 0mwynau. Mae gwastraff a mwynau wedi canolbwyntio'n bennaf ar y sail wybodaeth, tra bod cynllunio defnydd tir yn canolbwyntio ar ymchwil i gefnogi'r broses o ddatblygu polisi.

- Yn nhermau'r themâu ymchwil gwreiddiol a gynigiwyd gan yr Astudiaeth Gwmpasu, maent oll wedi'u cefnogi fel themâu. Fodd bynnag, ers hynny, mae fframwaith strategol y Cynulliad wedi newid ac wedi datblygu. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu at ddulliau o weithredu sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy corfforaethol a chynllunio gofodol. O ganlyniad, mae gweithgarwch cynllunio gofodol wedi dirywio o dan yr WPRP. Fodd bynnag, erys datblygu cynaliadwy yn thema gref.

- Mae gwastraff wedi'i gynnwys yn y Rhaglen. Fodd bynnag, mae gweithgareddau sy'n ymwneud â hyn wedi'i ariannu gan strategaeth Yn Gall gyda Gwastraff y Cynulliad, er bod yr Is-adran Gynllunio yn ymwneud â chomisiynu contractau i ddiwallu anghenion polisi cynllunio.

Llywio'r broses o Ddatblygu Polisi

Mae adran 5 wedi ystyried p'un a yw'r ymchwil a gomisiynwyd wedi llywio'r broses o ddatblygu polisi cynllunio. Rydym wedi ystyried a fu'r ymchwil yn amserol, sut y mae'r WPRP yn rhyngweithio â rhaglenni ymchwil eraill, gan gynnwys p'un a oes ffynonellau amgen i'r WPRP i gynnal yr ymchwil. Nodir ein casgliadau allweddol isod.

- Bu'r Rhaglen yn weithredol ers diwedd 2000, a bellach mae patrwm o ymchwil sy'n llywio'r broses o ddatblygu polisi yn dod i'r amlwg. Ceir rhai achosion penodol lle y cynhaliwyd y gwaith ymchwil ac mae'r polisi cysylltiedig naill ai wedi'i gyhoeddi neu wrthi'n cael ei ddatblygu. Mae'r rhain yn cynnwys TAN2 (Nodyn Cyngor Technegol) Cynllunio a Thai Fforddiadwy, TAN8 Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy, TAN 15 Datblygu a Pherygl Llifogydd a MTAN1 Agregau.

- Y patrwm hwn yw'r llinyn cyswllt rhwng datblygu'r sail dystiolaeth a pholisi ac mae hefyd yn awgrymu bod dull cylch polisi o ddatblygu polisi cynllunio ar y gweill, er ei bod yn rhy gynnar ar hyn o bryd i ddangos y cylch cyfan ar gyfer unrhyw bolisi penodol.

- Ceir rhywfaint o weithgarwch comisiynu ar y cyd ag Adrannau ac Isadrannau'r Cynulliad o fewn Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, er enghraifft y rheini sy'n ymwneud â gwastraff. Fod bynnag, teimlir y gellid atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng y meysydd polisi er mwyn sicrhau eu bod yn ategu'i gilydd.

- Ceir cysylltiadau â sefydliadau allanol i gynnal prosiectau ymchwil ar y cyd, er enghraifft Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCW) ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Ystyrir fod hwn yn ddull cadarnhaol o gomisiynu ymchwil drwy gyfuno adnoddau a sicrhau bod gwahanol sgiliau a gwybodaeth yn cyfrannu at y briffiau ymchwilio a'u rheolaeth.

- Ceir perthnasoedd cydweithio gyda'r Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG)[1]. Fodd bynnag, ers datganoli ac ad-drefnu'r swyddogaeth ymchwilio o fewn ODPM, nid yw'r cydweithio mor eang ag y bu. Gan arwain ymlaen o hyn, ceir hefyd rhywfaint o ddryswch, yn bennaf o ran y buddiannau allanol, ynghylch p'un a yw'r ymchwil a wnaed gan ODPM yn berthnasol i Gymru.

- O ystyried bod y cysylltiadau ag ODPM yn gwanhau a bod polisi nodedig i Gymru yn dod i'r amlwg, cefnogir y syniad o barhau ag ymchwil penodol i Gymru, gyda chydweithio, yn enwedig lle mae hyn yn esgor ar fuddion o ran adnoddau.

- Yn nhermau'r rhwystrau i'r gwaith ymchwil sy'n llywio'r broses o ddatblygu polisi, mae'r prif fater yn ymwneud â gallu ymarferol yr isadran Gynllunio i gomisiynu a rheoli prosiectau ymchwil a datblygu'r polisi.

Y Rhaglen yn y Dyfodol

Yn adran 6, trafodir cynnwys yr WPRP yn y dyfodol.

- Mae nifer o feysydd polisi, sy'n ymwneud yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol â pholisi cynllunio, sy'n wynebu datblygiadau dros y pum mlynedd nesaf. Bydd y datblygiadau hyn yn ddiwahân yn effeithio ar yr angen am newidiadau mewn polisi cynllunio.

- Wrth bennu cynnwys y rhaglen ymchwil yn y dyfodol, mae angen blaenoriaethu'r meysydd polisi y mae angen eu hadolygu. Mae angen gwneud hyn drwy werthuso'r fersiwn ddiweddaraf o'r polisi cyfredol a'r datblygiadau sydd ar y gweill, a fydd yn effeithio ar bolisi cynllunio. Mae'n debygol y bydd y blaenoriaethau hyn yn newid yn flynyddol, gan ddibynnu'n bennaf ar ffactorau allanol.

- Bydd blaenoriaethau Gweinidogion a blaenoriaethau corfforaethol y Cynulliad hefyd yn bwysig wrth bennu gweithgareddau o dan yr WPRP. Mae angen i'r Rhaglen aros yn ymatebol i newidiadau ym mholisi'r Cynulliad, er mwyn i'r system gynllunio allu ymateb.

- Dylid parhau â themâu ymchwil datblygu cynaliadwy, cynllunio gofodol a materion gwledig yn y Rhaglen. Dylid hefyd ychwanegu themâu newydd er mwyn trafod materion trefol, y rhyngwyneb trefol: gwledig ac adnewyddu.

[1] Crewyd yr Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG) ar 5 Mai 2006, gyda chylch gwaith pwerus i hyrwyddo cydlyniad cymunedau a chydraddoldeb, yn ogystal â bod yn gyfrifol am dai, adfywio trefol, cynllunio a llywodraeth leol. Roedd yr OPDM gynt yn gyfrifol am y meysydd hyn.

- Mae'r amcanion a gynigiwyd gan yr Astudiaeth Gwmpasu yn parhau i fod yn berthnasol ac yn cynnwys anghenion y broses o ddatblygu polsi yn addas.

Argymhellion ar gyfer Gweithredu'r Rhaglen ar gyfer y Dyfodol

Yn seiliedig ar yr ymchwil, gwneir nifer o argymhellion ar gyfer gweithredu'r WPRP yn y dyfodol yn adran 7. Nodir y rhain yn fras isod.

Datblygu Fframwaith Perthnasol

Argymhelliad 1: Defnyddio matrics i lywio'r broses o ddethol prosiectau ymchwil.

Mae'r matrics yn cynnig nifer o feysydd y mae angen eu bodloni wrth ddethol prosiectau ymchwil, sef:

- Blaenoriaethau Craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru
  - ► datblygu cynaliadwy;
  - ► cyfle cyfartal,
  - ► cynhwysiant cymdeithasol.

- Meysydd Ariannu sy'n Flaenoriaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru
  - ► Addysg a Dysgu;
  - ► Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth;
  - ► Diwylliant, yr iaith Gymraeg a Chwaraeon;
  - ► Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio;
  - ► Yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad;
  - ► Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
  - ► Llywodraeth Leol.

- Themâu Ymchwil:
  - ► Datblygu Cynaliadwy;
  - ► Cynllunio Gofodol;
  - ► Materion Gwledig;
  - ► Materion Gwledig;
  - ► Rhyngwyneb Gwledig: Trefol;
  - ► Adfywio.

- Meysydd Ymchwil

Yn seiliedig ar bolisïau a blaenoriaethau'r Cynulliad, mae'r meysydd canlynol yn debyg o gael goblygiadau o ran polisi cynllunio defnydd tir sydd angen ymchwil yn ystod y pump neu chwe blynedd nesaf:

- ► Amaethyddiaeth a datblygu gwledig;
- ► Tai;
- ► Yr Amgylchedd;
- ► Cynllunio gofodol;
- ► Datblygu Gwledig;
- ► Trafnidiaeth;
- ► Gwastraff;
- ► Telegyfathrebu;
- ► Prosesau Cynllunio e.e. Cynlluniau Datblygu Lleol.

- Amcanion Ymchwil

Argymhellwn fod yr amcanion a sefydlwyd gan yr Astudiaeth Gwmpasu yn aros yn berthnasol i nodau WPRP wrth gefnogi PPW a MPPW. Dyma'r amcanion:

- cefnogi'r broses o ddatblygu polisi cynllunio yng Nghymru sy'n ymateb i anghenion ac amgylchiadau arbennig Cymru;
- cyfrannu at wella'r system gynllunio yng Nghymru;
- gwella'r sail wybodaeth ar gyfer rheoli a datblygu'r broses gynllunio yng Nghymru;
- datblygu arferion da a chanllawiau.

Rheoli a Gweinyddu'r Rhaglen

Argymhelliad 2: Cyflwyno proses strwythuredig ar gyfer cydlynu a rheoli'r Rhaglen.

Argymhelliad 3: Ailfywiogi'r Panel Defnyddwyr a rhoi cylch gwaith ehangach iddo.

Argymhelliad 4: Adolygu'r Rhaglen yng nghanol y cyfnod (tair blynedd).

Argymhelliad 5: Codi ymwybyddiaeth y staff ymchwil am y broses gaffael.

Argymhelliad 6: Ymchwilio i ddulliau caffael amgen, gan gynnwys ceisiau galw i mewn.

Rheolaeth Ariannol

Argymhelliad 7: Y gyllideb i aros ar ei lefel bresennol o leiaf.
Argymhelliad 8: Cyllideb sengl.

Argymhelliad 9: Parhau i gyd-ariannu prosiectau ymchwil.

Argymhelliad 10: Archwilio cyfleoedd cyd-ariannu.

Argymhelliad 11: Dylid parhau â mentrau i gefnogi'r Rhaglen Ymchwil, yn benodol lle y gallant wneud y defnydd mwyaf o'r gyllideb.

Argymhelliad 12: Ail-enwi'r prosiect i ehangu ei gwmpas.

Argymhelliad 13: Cyflwyno cronfa o gefnogi ymchwil raddfa fach gan sefydliadau allanol, pe bai'r gyllideb yn cynyddu.

Cyfathrebu

Argymhelliad 14: Croesawu gwaith OCSRO i wella cydweithio o fewn y Cynulliad.

Argymhelliad 15: Gweithio gyda'r Uned Polisi Strategol i sicrhau bod anghenion polisi cynllunio yn cael eu hystyried wrth ddefnyddio'r Offeryn Porth i Bolisïau.

Argymhelliad 16: defnyddio'r ad-drefniad strwythurol (yr uno) i sicrhau gwell cydweithio o ran gweithgareddau datblygu cynaliadwy yn benodol, gan ganolbwyntio ar swyddogaethau tir ac eiddo.

Argymhelliad 17: Gweithio gydag OCSRO i sefydlu rhwydwaith ymchwil cynllunio defnydd tir y Siroedd Cartref.

Argymhelliad 18: Manteisio ar wefan y Cynulliad, sydd wedi'i gwella er mwyn sefydlu llyfrgell ymchwil a diweddariadau ar gynnydd y broses o ddatblygu polisi ac ymchwilio.

Argymhelliad 19: Ailfywiogi'r cylchlythyr blynyddol.

Argymhelliad 20: Sefydlu cymuned ymchwil cynllunio yng Nghymru, gan ddefnyddio gwasanaeth rhybudd ar e-bost.

Argymhelliad 21: Parhau i gynnal digwyddiadau lledaenu ar gyfer ymchwil a gynhyrchir.

Rheoli Prosiectau Ymchwil

Argymhelliad 22: Cyflwyno gwerthusiad / adolygiad o bobl prosiect ymchwil am eu bod yn dueddol o adlewyrchu ar y broses.

Argymhelliad 23: Gwneud y mwyaf o'r cysylltiadau â thimau arbenigol canolog y Cynulliad, gan gynnwys economyddion ac ystadegwyr i gynghori ar brosiectau.

Argymhelliad 24: Parhau i greu grwpiau llywio ar gyfer prosiectau, ond sicrhau bod ganddynt gylch gwaith clir o ran rheoli, ac eto nad ydynt yn dylanwadu ar ganfyddiadau'r ymchwil.

Goresgyn y Rhwystrau i Ymchwil sy'n Llywio Polisi

Mae'r prif rwystr a nodwyd yn ystod yr adolygiad yn ymwneud â gallu ymarferol o fewn yr Is-adran Gynllunio i reoli ymchwil a datblygu polisi. Mae'r bwlch o amser rhwng yr ymchwil a chyhoeddi'r polisi yn ganlyniad, yn bennaf, i'r prosesau hirfaith o lunio polisïau. Gwnawn un argymhelliad i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Argymhelliad 25: Gwneud y gorau o'r adnoddau cyfredol er mwyn comisiynu ymchwil a datblygu polisi.

1.0 Cyflwyniad

1.1 Penodi ECOTEC

Penodwyd Ymchwil ac Ymgynghori ECOTEC Cyfyngedig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru[2] ym mis Tachwedd 2005 i gynnal gwerthusiad ac adolygiad pum mlynedd o Raglen Ymchwil Gynllunio Cymru (WPRP).

1.2 Nod ac Amcanion yr Adolygiad

Mae'r ddogfennaeth dendro[3] yn nodi nod ac amcanion yr adolygiad yn glir.

1.2.1 Nod

Nod yr adolygiad yw "*gwerthuso WPRP Cymru yng ngoleuni polisïau strategol y Cynulliad i ddarparu amcanion a themâu drafft ar gyfer 2005-2011*."

1.2.2 Amcanion

Amcanion yr adolygiad yw:

- *Adolygu'r ymchwil a gynhyrchwyd hyd yn hyn ac ystyried sut y mae'n bodloni amcanion / themâu gwreiddiol yr WPRP.*
- *Ystyried sut y mae'r ymchwil a gwblhawyd wedi'i throsi'n bolisïau a nodi unrhyw rwystrau.*
- *Ymgynghori â rhanddeiliaid ynghylch sut y mae'r Rhaglen wedi gweithredu a cheisio barn am gynnwys y Rhaglen yn y dyfodol.*
- *Cynghori ar weinyddiaeth y Rhaglen yn y dyfodol.*
- *Cynghori ar flaenoriaethau'r Rhaglen yn y dyfodol.*
- *Ystyried a yw amcanion gwreiddiol y Rhaglen yn dal i fod yn ddilys, ac os oes angen, cyflwyno set newydd o amcanion / themâu y dylid ail-alinio'r Rhaglen â hwy yn y dyfodol.*

[2] Crewyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym 1999, a chyflwynwyd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 2001. Mae cyfeiriadau at Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ymwneud â'r phrif gorff o Weision Sifil a datblygu polisïau; tra bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cyfeirio at Aelodau Cynulliad a etholwyd a deddfwriaeth y Cynulliad.

[3] Manyleb am Gontract i Ymgymryd ag Adolygiad a Gwerthusiad Pum o Raglen Ymchwil Cynllunio Cymru, Contract 92/2005, Llywodraeth Cynulliad Cymru, mis Hydref 2005.

1.3 Cefndir

1.3.1 Polisi Cynllunio Cymru

Polisi Cynllunio Cymru[4] (PPW) yw polisi defnydd tir y Cynulliad a chaiff ei ategu gan gyfres o 21 Nodyn Cyngor Technegol (TAN), a and Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog (MIPPs)[5] i ffurfio polisi cynllunio cenedlaethol Cymru. Caiff polisïau hefyd eu cynnwys mewn Cylchlythyrau a llythyrau egluro. Mae Polisi Cynllunio Mwynau Cymru [6] (MPPW) yn nodi'n benodol ganllawiau polisi cynllunio defnydd tir y Cynulliad mewn perthynas ag echdynnu mwynau a datblygu cysylltiedig yng Nghymru. Mae Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru yn nodi polisi Llywodraeth y Cynulliad ar baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol (LDP). Diben PPW a MPPW yw nodi'r cyd-destun ar gyfer polisi cynllunio defnydd tir cynaliadwy, sy'n sail i baratoi cynlluniau defnydd tir statudol awdurdodau cynllunio lleol a phenderfyniadau rheoli datblygu ar geisiadau unigol.

Mae PPW yn cefnogi nodau strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru [7] mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys:

- Datblygu cynaliadwy, gan lywio'r defnydd tir i ddiwallu anghenion y presennol heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain;
- Adeiladu economi deinamig a datblygedig, cefnogi adfywio economaidd, creu cyfoeth a swyddi o ansawdd da;
- Mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol, datblygu cymdeithas gynhwysol lle mae gan bawb y cyfle i wireddu eu potensial;
- Cyfle Cyfartal, hyrwyddo diwylliant lle y rhoddir gwerth ar amrywiaeth a lle mae cyfle cyfartal yn realiti.

1.4 Rhaglen Ymchwil Cynllunio Cymru

Nod yr WPRP yw cefnogi anghenion ymchwil cynllunio, gan anelu at sicrhau y cynhelir gwaith ymchwil sy'n berthnasol i anghenion Cymru. Mae Rhaglen Ymchwil Gynllunio Cymru yn ategu rhaglen Cynllunio: Cyflawni dros Gymru (PDW)[8].

[4] Cynllunio Polsisi Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002

[5] Defnyddir MIPP i sicrhau bod PPW yn aros yn gyfredol, heb fod angen adolygiad llawn, ac fe'u cyhoeddir i ddiweddaru rhannau o PPW.

[6] Polisi Cynllunio Mwynau Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2000

[7] Amlinellir polisïau strategol LlCC yn Adran 2.

[8] Gweledigaeth gyffredinol y PDW yw gwella ethos/ diwylliant y system gynllunio yng Nghymru yn radical. Mae'n cynnwys y Cynuliad yn cydweithio â phrif darparwyr y system gynllunio h.y..: y 25 awdurdod cynllunio lleol ac Arolygiaeth Cynllunio Cymru. Gyda'i gilydd, bydd y rhanddeiliaid hyn ac eraill yn sicrhau y bydd y system gynllunio yn: agored, yn deg ac yn dryloyw; yn ysgogi hyder y cyhoedd a busnesau; yn darparu gwell ansawdd a chyflymder; yn integreiddio â chynlluniau, prosesau a chamau eraill; ac un bodloni amcanion Cynulliad Cenedlaethol Cymru a nodwyd yn y Cynllun i Gymru.

Datblygwyd Astudiaeth Gwmpasu [9] i sefydlu'r paramedrau ar gyfer y Rhaglen. Fodd bynnag, nodwyd hefyd bod y Rhaglen, yn ymarferol, yn aros yn ymatebol i faterion sy'n codi. Nod yr WPRP, yn ôl yr Astudiaeth Gwmpasu yw:

"cefnogi amcanion y Cynulliad ar gyfer y system gynllunio drwy gynnal gwaith ymchwil a fydd yn llywio'r broses o ddatblygu polisi cynllunio effeithiol a chynaliadwy, yn hwyluso canllawiau ar arferion da a sicrhau bod y polisi cynllunio yn cael ei fonitro a'i werthuso a'r goblygiadau cysylltiedig."

Rhoddir enghreifftiau o'r gwaith ymchwil a chasglu data a wnaed o dan yr WPRP yn Atodiad Dau.

1.4.1 Amcanion y Rhaglen

Sefydlodd yr astudiaeth Gwmpasu dri amcan ar gyfer yr WPRP. Nododd yr astudiaeth ei bod yn *"hanfodol y gellid cysylltu unrhyw brosiect ymchwil yn glir ag un neu fwy o'r amcanion creiddiol."* Dyma'r amcanion a sefydlwyd:

1. *cefnogi'r broses o ddatblygu polisi cynllunio yng Nghymru sy'n ymateb i anghenion ac amgylchiadau arbennig Cymru;*
2. *cyfrannu at wella'r system gynllunio yng Nghymru;*
3. *gwella'r sail wybodaeth ar gyfer rheoli a darparu cynlluniau yng Nghymru.*

Yn ôl yr Astudiaeth Gwmpasu:

"Mae ein hymchwil wedi cadarnhau bod y patrymau defnydd tir, y penderfyniadau a wneir a nodweddion diwylliannol yn cyfuno i ddarparu ystod unigryw a nodedig o faterion sy'n wynebu'r system cynllunio defnydd tir yng Nghymru."

1.4.2 Themâu Ymchwil

Mae'r Astudiaeth Gwmpasu yn argymell tair thema ar gyfer y Rhaglen - datblygu cynaliadwy, cynllunio gofodol a pholisi cynllunio gwledig - ar y sail eu bod yn *"cwmpasu'r materion sydd wedi codi…. Sydd o bwys penodol i gynllunio yng Nghymru."* Mae'r thema wledig yn cydnabod bod Cymru'n wlad wledig yn bennaf ac mae hwn yn ffactor penodol sy'n gwahaniaethu Cymru a Lloegr. Mae'r amcanion a'r themâu hyn yn rhan o'r fframwaith ymchwil a gynigir gan yr Astudiaeth Gwmpasu, fel y dangosir yn Ffigur 1.1 trosodd.

[9] Astudiaeth Gwmpasu Ymchwil Cynllunio Defnydd Tir, Adroddiad Terfynol, DTZ Pieda Consulting, 2000

Ffigur 1.1 Fframwaith Ymchwil yr Astudiaeth Gwmpasu



Ffynhonnell: yr Astudiaeth Gwmpasu, 2000

1.5 Dull o Weithredu a'r Gwaith a Wnaed

Cynhaliwyd yr adolygiad fesul cam, gyda nifer i dasgau yn cyd-ddigwydd:

- Cam 1 – Dechrau
- Cam 2 – Ymchwil Ddesg
- Cam 3 – Adolygu'r Rhaglen
- Cam 4 – Adolygu'r Prosiectau
- Cam 5 – Adolygu'r Amgylchedd Polisi sy'n Newid
- Cam 6 – Adolygu Gweinyddiaeth y Rhaglen
- Cam 7 – Ymgynghori â Rhanddeiliaid Allweddol
- Cam 8 – Dadansoddi a Llunio'r Adroddiad a'i Ledaenu

1.5.1 Dechrau

Nodir yn fras ein dull o weithredu a'n methodoleg ar gyfer yr astudiaeth yn llawn yn ein **Dogfen Gynnig**.[10] Aethpwyd ati i ymarfer hyn gyda swyddogion y Cynulliad ac aelodau'r Grwp Llywio[11] mewn cyfarfod dechreuol. Mae'n bwysig nodi ein bod wedi cyfarfod â Grwp Llywio'r Astudiaeth ar ddau achlysur arall yn ystod yr astudiaeth, ac mae hyn wedi rhoi cyfle gwerthfawr i rannu a rhoi prawf ar ganfyddiadau'r astudiaeth.

1.5.2 Ymchwil Ddesg

Er mwyn rhoi fframwaith ar gyfer yr adolygiad, sefydlwyd matrics ar gyfer olrhain y polisïau a ddatblygwyd ers 2000. Defnyddiwyd hwn hefyd yn ddiweddarach yn yr astudiaeth i gadarnhau pa ddylanwad a gafodd gweithgareddau'r Rhaglen. Roedd hyn yn ystyried ystod o bolisïau, gan gynnwys polisïau penodol i gynllunio a pholisïau strategol ehangach y Cynulliad megis Cynllun Gofodol Cymru[12] a'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy.[13]

1.5.3 1.1.1 Adolygu'r Rhaglen

Fel rhan o'r cam hwn, cynhaliom adolygiad o'r data ar y prosiectau ymchwil a ariennir gan y Rhaglen, gan gynnwys costau terfynol y prosiect; gweithdrefnau tendro; prosiectau

[10] Adolygiad a Gwerthusiad Pum Mlynedd o Raglen Ymchwil Gynllunio Cymru: Cynnig i Lywodraeth Cynulliad Cymru, Ymchwil ac Ymgynghori ECOTEC Cyfyngedig, 2005.

[11] Cynulliwyd Grwp Llywio'r Astudiaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac mae'r canlynol yn ei gynrychioli: Neil Hemington (Is-adran Gynllunio), Jonathan Fudge (Is-adran Gynllunio), Sue Martin (Is-adran Gynllunio (Mwynau)), Mike Harmer (Cyfiawnder Cymdeithas ac Adfywio), a Gareth Endicott (yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad).

[12] Pobl, Lleoedd, Dyfodol – Cynllun Gofodol Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004, http://www.wales.gov.uk/themesspatialplan/content/spatial-plan-e.htm

[13] Dysgu i Fyw'n Wahanol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2000.

graddfa-fach; cyfraniadau at ymchwil asiantaethau eraill; a dyddiadau dechrau prosiectau a'u dyddiadau gorffen gwreiddiol a gwirioneddol. Mae hyn yn rhoi trosolwg i ni o weithgareddau'r Rhaglen a'i pherfformiad. Yn ogystal, cynhaliwyd cyfres o gyfweliadau â rhanddeiliaid allweddol er mwyn ceisio'u barn am rôl a pherfformiad y Rhaglen. Cysylltwyd â chyfanswm o 11 o randdeiliaid â phrofiad uniongyrchol o'r WPRP o ystod o sefydliadau ac yn cynrychioli gwahanol safbwyntiau - e.e. academyddion, defnyddwyr yr ymchwil, contractwyr ac ati. Sicrhawyd ein bod yn cael mewnbwn oddi wrth y rhanddeiliaid drwy gyfres o naw cyfweliad lled-strwythuredig, wyneb yn wyneb.

1.5.4 Adolygu'r Prosiectau

Cynhaliwyd asesiad cyffredinol cryno o'r holl brosiectau, wedi'i arwain gan yr Is-adran Gynllunio o dan yr WPRP. Yn ogystal, dewiswyd 10 prosiect o'r rheini a restrwyd ar y wefan [14] ar gyfer adolygiad ymchwil ddesg manylach. Dewiswyd y prosiectau i adlewyrchu ystod o faterion, cyllidebau, ac amserlenni. Cynhaliwyd hwn mewn cydweithrediad â'r ymchwil ddesg a ddisgrifiwyd uchod, a'i ategu gan sylwadau swyddogion yr Is-adran Gynllunio. Roedd hyn yn cynnwys prosiectau a gomisiynwyd yn uniongyrchol ac a ariannwyd gan yr Is-adran Gynllunio yn unig. Maer Is-adran Gynllunio hefyd yn cyfrannu at ymchwil arall, megis yr ymchwil a gomisiynwyd gan gyn Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM) a nawr, yr Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG), neu Gyngor Cefn Gwlad Cymru (CCW). Fodd bynnag, dim ond un o'r prosiectau ymchwil hyn a adolygwyd, am fod y ffocws ar yr Is-adran Gynllunio fel arweinydd y prosiect. Adolygwyd adroddiadau'r prosiectau. Lle na ellid cael gwybodaeth o'r adroddiadau, cynhaliwyd cyfweliadau â'r swyddogion cyfrifol a nodwyd er mwyn cael dealltwriaeth ddyfnach o effeithiolrwydd yr ymchwil a wnaed a'r trefniadau rheoli a fabwysiadwyd. Mapiwyd yr astudiaethau achos hyn yn erbyn y matrics a ddatblygwyd o dan yr ymchwil ddesg, er mwyn nodi cyfraniad yr ymchwil at ddatblygu polisïau.

1.5.5 Adolygu'r Amgylchedd Polisi sy'n Newid

Roedd y cam hwn yn cynnwys ystyried y newidiadau a oedd ar y gweill o ran polisi strategol ehangach y Cynulliad sy'n berthnasol i WPRP. Roedd hyn yn archwilio a oes angen newid amcanion y Rhaglen neu'r themâu mewn unrhyw ffordd, fel y sefydlwyd gan yr Astudiaeth gwmpasu. Nod hyn yw sicrhau bod fframwaith sy'n berthnasol i bolisi yn ei le dros y pum mlynedd nesaf.

[14] http://www.wales.gov.uk/subiplanning/topics-e.htm (Adrn Ymchwil)

1.5.6 Adolygu Gweinyddiaeth y Rhaglen

Roedd yr elfen hon o'r astudiaeth yn cynnwys mynd i'r afael â'r materion canlynol:

- Trefniadau rheolaeth ariannol a pherfformiad;
- Datblygu'r Rhaglen;
- Rheoli'r prosiect.

Cynhaliwyd y rhain drwy ystyried y data a gasglwyd ar gyfer y dadansoddiad ar lefel y Rhaglen. Yn ogystal, cynhaliwyd ymgynghoriadau â staff yr Is-adran Gynllunio er mwyn sicrhau trefniadau rheoli presennol.

1.5.7 Ymgynghori â Rhanddeiliaid Allweddol

Yn ogystal â'r ymgynghoriadau unigol a gynhaliwyd o dan Adolygiad y Rhaglen, cynhaliwyd dau weithdy bord gron gyda rhanddeiliaid allanol a mewnol, lle y cyflwynwyd y canfyddiadau interim a'u trafod. Nod y gweithdai oedd cyflwyno'r canfyddiadau hyd yn hyn, rhoi prawf arnynt a'u hychwanegu lle bo hynny'n briodol. Roedd hwn yn gyfle gwych i gasglu barn y rhanddeiliaid ar feysydd hanfodol ac ymgorffori'r rhain i'r casgliadau.

1.6 Statws yr Adroddiad

Dyma'r adroddiad terfynol, ac fe'i paratowyd ar gyfer Is-adran Gynllunio Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad Llywodraeth Cynulliad Cymru.

1.7 Strwythur yr Adroddiad

Mae gweddill yr adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- **Adran 2: Cyd-destun Polisi Strategol**. Rhydd yr adran hon grynodeb o fframwaith strategol ehangach y Cynulliad er mwyn rhoi'r astudiaeth yn ei chyd-destun.
- **Adran 3: Effeithiolrwydd y Rhaglen Gyfredol**. Mae'r adran hon yn trafod y Rhaglen a'r trefniadau rheoli prosiect a pherfformiad ariannol yr WPRP.
- **Adran 4: Bodloni'r Amcanion a'r Themâu Gwreiddiol**. Mae'r adran hon yn dadansoddi perfformiad yr ymchwil yng nghyd-destun yr amcanion gwreiddiol a sefydlwyd gan yr Astudiaeth Gwmpasu.
- **Adran 5: Llywio'r Broses o Ddatblygu Polisi**. Mae'r adran hon yn archwilio a fu modd i'r Rhaglen gefnogi'r broses o ddatblygu polisi a pha rwystrau a gafwyd, os o gwbl.
- **Adran 6: y Rhaglen yn y Dyfodol**. Mae'r adan hon yn archwilio blaenoriaethau polisi tebygol y polisi cynllunio yng Nghymru ar gyfer y dyfodol, a fydd yn dylanwadu ar yr anghenion polisi i'w diwallu gan WPRP.

- **Adran 7: Casgliadau ac Argymhellion**. Mae'r adran hon yn amlygu canfyddiadau allweddol yr adolygiad, ac yn nodi ein hargymhellion ar gyfer gweithredu'r Rhaglen yn y dyfodol.

Cefnogir yr adroddiad gan yr atodiadau canlynol:

- Atodiad 1 - Llyfryddiaeth
- Atodiad 2 - Prosiectau a gomisiynwyd o dan WPRP
- Atodiad 3 - Ymgyngoreion yr Astudiaeth

2.0 Cyd-destun Polisi Strategol

2.1 Cyflwyniad

Er mwyn rhoi'r adolygiad yn ei gyd-destun, mae'n briodol archwilio'r newidiadau sefydliadol sy'n dod i'r amlwg a'r broses o ddatblygu polisi sydd wedi digwydd o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystod y cyfnod o ddarparu'r WPRP. Crëwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym 1999, flwyddyn un unig cyn cyhoeddi'r Astudiaeth Gwmpasu. Ers hynny, mae'r Cynulliad wedi esblygu ac wedi datblygu cyfres o strategaethau sydd bellach yn cyfuno i ffurfio fframwaith corfforaethol. Mae'r adran hon yn ystyried y prif newidiadau sy'n effeithio ar yr WPRP a'r polisi cynllunio sy'n deillio o hyn.

2.2 Gwerthoedd Craidd

Mae tri o werthoedd craidd yn ategu strategaethau'r Cynulliad - datblygu cynaliadwy, cyfle cyfartal a chynhwysiant cymdeithasol.

2.3 Cyfle Cyfartal

Polisi Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw hyrwyddo ac integreiddio cyfle cyfartal i bob agwedd ar ei fusnes. Mae adrannau 48 a 120 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn rhoi dyletswydd ar y Cynulliad i ddatblygu'r egwyddor y dylid fod cyfle cyfartal i bawb. Sefydlwyd Pwyllgor Cyfle Cyfartal (EOC) er mwyn sicrhau bod gan y Cynulliad drefniadau effeithiol yn eu lle i hyrwyddo egwyddor cyfle cyfartal i bawb wrth ymarfer ei swyddogaethau ac wrth gynnal ei fusnes. Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb cryf mewn cynnal deialog â grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau lleiafrifoedd a phobl dan anfantais. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, mae gwahoddiad bob amser i'r Comisiwn Cyfle Cyfartal, y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, y Comisiwn Hawliau Anabledd, Stonewall Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor fel cynghorwyd.

Fel enghraifft o'i weithgareddau, mae'r materion canlynol wedi dwyn sylw'r Pwyllgor

- Adolygu'r gwasanaeth a ddarperir i sipsiwn a theithwyr;
- Prif ffrydio cydraddoldeb;
- Blwyddyn Ewropeaidd Pobl Anabl a chyngres ryngwladol pobl ifanc anabl;
- Cydbwysedd rhwng y rhywiau mewn awdurdodau lleol ac ystyriaeth o adroddiad blynyddol Uned Cydraddoldeb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC);
- Cynllun Cydraddoldeb Hiliol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ym mis Gorffennaf 2004, cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad adolygiad polisi Prif Ffrydio Cydraddoldeb yng ngwaith y Cynulliad [15]. Nodwyd 27 o argymhellion er mwyn helpu i brif ffrydio saith llinyn cydraddoldeb, gan gynnwys: hil, rhyw, anabledd, oed, tueddfryd rhywiol, crefydd a chred a'r iaith Gymraeg. Ym mis Ionawr 2005, ymatebodd y Gweinidog Busnes (sy'n gyfrifol am gyfle cyfartal) a'r Ysgrifennydd Parhaol i'r adolygiad polisi gyda'r bwriad o ddatblygu a gweithredu strategaeth prif ffrydio cydraddoldeb o dan Grwp Gorffen a Gorchwyl Prif Ffrydio Cydraddoldeb. Yn 2005/06, un o flaenoriaethau allweddol yr EOC yw parhau i ddal Gweinidogion yn atebol drwy graffu uniongyrchol a thrwy ohebiaeth. Bwriad gweithredu'r argymhellion prif ffrydio cydraddoldeb hefyd yw bod yn fecanwaith pwerus ar gyfer sicrhau bod cydraddoldeb yn rhan annatod o'r Cynulliad, gan gynnwys gwaith craffu pwyllgorau eraill.

Mae'r uchod yn dangos yn glir bod agenda'r EOC yn adlewyrchu fframwaith strategol sy'n gweithio mewn cydweithrediad â pholisïau eraill y Cynulliad megis PPW a Cymru: Gwlad Well. Mae'n cefnogi nodau strategol PPW a'r Cynulliad mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys:

- *Mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol, datblygu cymdeithas gynhwysol lle mae gan bawb y cyfle i wireddu eu potensial;*
- *Cyfle Cyfartal, hyrwyddo diwylliant lle y rhoddir gwerth ar amrywiaeth a lle mae cyfle cyfartal yn realiti.*

Mae cynnwys Bwrdd yr Iaith Gymraeg fel cynghorydd i'r Pwyllgor yn arwydd o'r pwysigrwydd a roddir ar gyfeiriad polisi iaith Gymraeg y Cynulliad, a gefnogir gan Cymru: Gwlad Well. Ymysg sawl cyfeiriad at yr iaith Gymraeg, pwysleisir ymrwymiad y Cynulliad i greu Cymru wirioneddol ddwyieithog fel mater o gydraddoldeb ac fe'u harnodir fel thema allweddol.

2.3.1 Datblygu Cynaliadwy

Yn yr un modd â chyfle cyfartal, mae adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn nodi dyletswydd y Cynulliad i hyrwyddo datblygu cynaliadwy ym mo dim y mae'n ei wneud. Ers hynny, mae'r Cynulliad wedi cytuno strategaeth a chynllun gweithredu manwl er mwyn datblygu'r broses o integreiddio datblygu cynaliadwy a nodir hyn yn fanylach yn adran 2.3.2.

Gan gyfeirio'n benodol at gynllunio defnydd tir, mae adran 39 o Ddeddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol 2004, yn mynnu bod unrhyw swyddogaethau sy'n ymwneud â Chynllun

[15] Adroddiad ar Brif Ffrydio Cydraddoldeb yng Ngwaith y Cynulliad Cenedlaethol, Pwyllgor Cyfle Cyfartal, 2004 http://www.wales.gov.uk/assemblydata/N000000000000000000000000022848.pdf

Gofodol Cymru neu gynllun datblygu lleol, gan gynnwys polisi cenedlaethol sy'n ymwneud â'r rhain *"yn arfer y swyddogaeth gyda'r nod o gyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy*."

2.3.2 Cynhwysiant Cymdeithasol

Mae cynhwysiant cymdeithasol, a elwir hefyd yn gyfiawnder cymdeithasol, yn egwyddor sy'n ategu polisïau'r Cynulliad. Nod y gwerth craidd hwn yw sicrhau bod gan bawb yng Nghymru *"y cyfleoedd i wneud y mwyaf o'n bywydau a defnyddio'n doniau i'r eithaf."*

"Gydag ymrwymiad cadarn at gyfiawnder cymdeithasol wrth wraidd y broses o lunio polisïau, mae ein holl bolisïau a rhaglenni, ar draws meysydd iechyd, addysg, datblygu economaidd, datblygu, trafnidiaeth, tai a'r amgylchedd, yn canolbwyntio ar wneud Cymru yn wlad fwy ffyniannus, iachach a mwy addysgedig."

Mae'r Cynulliad yn canolbwyntio ar y pedwar maes allweddol canlynol:

- *helpu mwy o bobl i gael gwaith;*
- *gwella iechyd;*
- *datblygu cymunedau cryf a diogel;*
- *creu gwell swyddi a sgiliau.*

2.4 Strategaethau Corfforaethol y Cynulliad

Rhoddir gwerthoedd craidd y Cynulliad ar waith drwy nifer o bolisïau strategol. Mae'r polisïau hyn yn croesi holl feysydd polisi'r Cynulliad gyda'r nod o integreiddio gwaith y Cynulliad.

2.5 Cymru: Gwlad Well

Mae Cymru: Gwlad Well [16] yn disgrifio agenda strategol y Cynulliad. Mae hwn yn nodi gweledigaeth glir:

"ar gyfer dyfodol cynaliadwy i Gymru lle mae camau i wella'r gymdeithas, yr economi, a'r amgylchedd yn cydweithio i greu newid cadarnhaol."

Mae nifer i amcanion penodol sy'n berthnasol i'r WPRP yn ategu'r weledigaeth eang hon. Mae'r rhain yn cynnwys:

[16] Cymru: Gwlad Well, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003

"camau yn ein hamgylchedd adeiledig a'n hamgylchedd naturiol sy'n gwella'n ymdeimlad o falchder yn ein cymunedau, yn cefnogi bioamrywiaeth, yn hyrwyddo cyflogaeth leol ac yn helpu i leihau'r genhedlaeth wastraff, ynni a galwadau trafnidiaeth."

Ymysg cydrannau allweddol yr amcan hwn mae:

- Agenda Yn Gall Gyda Gwastraff,[17] sydd wedi nodi newidiadau radical tuag at ailgylchu a lleihau'r gwastraff sy'n cael ei dirlenwi.
- Rhaglen **Cynllunio: Darparu ar gyfer Cymru**[18] i sicrhau bod gwelliannau sylweddol yn ansawdd y gwasanaeth cynllunio, a bod cymunedau, gan gynnwys busnesau, yn cael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau a llunio cynlluniau.
- Cynllun Ffermio ar gyfer y Dyfodol[19] sy'n nodi gweledigaeth am ddyfodol cynaliadwy i'r diwydiannau tir yng Nghymru a chamau i helpu cymaint o ffermwyr ag sy'n bosibl yng Nghymru i addasu a goroesi, yn seiliedig ar ychwanegu gwerth i gynnyrch, gofalu am yr amgylchedd a synergedd gyda thwristiaeth.

Mae un o amcanion perthnasol eraill Cymru: Gwlad Well yn ymwneud â:

"camau ar gyfiawnder cymdeithas sy'n mynd i'r afael â thlodi ac iechyd gwael, ac yn rhoi'r modd i bobl a'u cymunedau helpu'u hunain i dorri allan o fagl tlodi."

Yn bwysig nodi bod y weledigaeth hon yn cefnogi ymgais sy'n rhan o PPW i fynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol drwy ddatblygu cymdeithas gynhwysol lle mae gan bawb y cyfle i wireddu eu potensial.

2.5.1 Cynllun Datblygu Cynaliadwy

Mae'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy[20] yn nodi sut y bydd y Cynulliad yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy wrth arfer ei swyddogaethau. Datblygwyd dau gynllun yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Mabwysiadwyd y cynllun cyntaf, Dysgu i Fyw'n Wahanol, ym mis Tachwedd 2000. Wedi hynny, mabwysiadwyd strategaeth ddiwygiedig, Dechrau Byw'n Wahanol[21] ym mis Mawrth 2004.

Mae Cynllun 2004 yn nodi'r ymrwymiadau a wnaed gan y Cynulliad cyfan tuag at ddatblygu cynaliadwy, yr egwyddorion y bydd yn ymlynu atynt, a rhai o'r prosesau y bydd

[17] Yn Gall gyda Gwatraff: Strategaeth Gwastraff Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003
[18] Cynllunio Darparu ar gyfer Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003
[19] Ffermrio ar gyfer y Dyfodol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2001.
[20] Dechrau Byw'n Wahanol: Cynllun datblygu Cynaliadwy Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004 http://www.wales.gov.uk/themessustainabledev/content/action-plan-e.pdf
[21] Ibid.

yn eu defnyddio wrth hyrwyddo cynaliadwyedd yn ei holl waith. Bwriedir i Gynllun Gweithredu'r Cynllun[22]:

- *Gweithredu'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy newydd;*
- *Sefyll fel ychwanegiad ffurfiol at Cymru: Gwlad Well;*
- *Cyflawni ymrwymiadau a wnaed yn rhyngwladol drwy aelodaeth y rhwydweithiau datblygu cynaliadwy;*
- *Ffurfio rhan o'r fframwaith ar gyfer strategaeth datblygu cynaliadwy'r DU;*
- *Ategu Cynllun Gofodol Cymru;*
- *Sicrhau bod y cynnydd yn cael ei adolygu'n barhaus.*

Mae'r uchod yn dangos yn glir bod Cynllun datblygu Cynaliadwy'r Cynulliad a'i Gynllun Gweithredu yn rhan o fframwaith strategol trosfwaol, sy'n cydweithio â strategaethau perthnasol eraill sy'n ymwneud â chynllunio.

2.5.2 Pobl, Lleoedd, Dyfodol – Cynllun Gofodol Cymru

Mae Cynllun Gofodol Cymru[23] yn deillio o'r Is-adran Gynllunio a chynhaliwyd ymchwil dechreuol i gefnogi'r Cynllun o dan yr WPRP. Ers hynny, mae Cynllun Gofodol Cymru wedi datblygu'n bolisi strategol allweddol ac nid yw'n canolbwyntio ar gynllunio defnydd tir yn unig, ond yn hytrach mae'n berthnasol i holl waith y Cynulliad, gan ddarparu fframwaith gofodol ledled Cymru. O ganlyniad i hyn, fe'i trosglwyddwyd i Uned Polisi Strategol y Cynulliad. Nid yw felly'n gydran uniongyrchol o'r WPRP. Fodd bynnag, erys cysylltiad annatod rhyngddynt. Mae'r brif weledigaeth ar gyfer Cynllun Gofodol Cymru wedi'i nodi isod:

"Byddwn yn cynnal ein cymunedau drwy fynd i'r afael â'r heriau a gyflwynir gan newid yn y boblogaeth a newid economaidd; byddwn yn tyfu mewn ffyrdd a fydd yn cynyddu ein cystadleurwydd tra'n lledaenu ffyniant i ardaloedd llai ffyniannus ac yn lleihau'r effeithiau negyddol ar yr amgylchedd; byddwn yn gwella'n amgylchedd naturiol ac adeiledig er ei les ei hun ac er budd yr hyn y mae'n ei gyfrannu at ein lles ni; a byddwn yn cynnal ein hunaniaeth nodedig."

Caiff y weledigaeth hon ei llywio gan egwyddorion datblygu cynaliadwy fel a ganlyn:

- *Creu cymunedau cynaliadwy;*
- *Gwerthfawrogi ein hamgylchedd;*
- *Cynyddu a lledaenu ffyniant;*

[22] Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy 2004-2007, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004.
[23] Ibid

- *Cyflawni hygyrchedd cynaliadwy;*
- *Parchu gwahaniaethau.*

Mae'r Cynllun Gofodol yn rhan bwysig o ddull newydd y Cynulliad o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n torri ar draws materion sy'n ymwneud â'r economi a'r amgylchedd, yn ogystal â rhoi agenda ar gyfer gwneud gwaith mewn ffordd holistaidd yn genedlaethol ac yn lleol. Mae'r cynllun felly'n rhan o flociau adeiladu canllawiau strategol lefel-uchel y Cynulliad, ochr yn ochr â Cymru: Gwlad Well a'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy a'r Cynllun Datblygu.

2.5.3 Creu'r Cysylltiadau: O Weledigaeth i Weithredu

Mae Creu'r Cysylltiadau [24] yn nodi bwriad y Cynulliad i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r weledigaeth yn datgan:

"Mae gwasanaethau cyhoeddus rhagorol yn hanfodol ar gyfer Cymru ffyniannus, cynaliadwy, dwyieithog, iachach a mwy addysgiedig. Mae cyd-weithio yn hanfodol ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus o'r ansawdd uchaf: rhaid iddynt fod yn ymatebol i anghenion unigolion a chymunedau, wedi'u darparu'n effeithlon ac wedi'u hysgogi gan ymrwymiad i gydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol."

Caiff Creu'r Cysylltiadau ei ategu gan bedair egwyddor ar gyfer gwasanaeth gwell:
- *Canolbwyntio ar ddinasyddion;*
- *Cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol;*
- *Cydweithio fel gwasanaeth cyhoeddus Cymru;*
- *Gwerth am arian.*

Cyhoeddodd y Cynulliad ei gynllun gweithredu pum mlynedd, Darparu'r Cysylltiadau: O Weledigaeth i Weithredu [25] er mwyn gweithredu Gweledigaeth Creu'r Cysylltiadau. Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i nifer o brif gamau er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon:
- *Gwasanaethau ymatebol a hygyrch;*
- *Cysylltu a symleiddio'r gwasanaeth cyhoeddus;*
- *Defnyddio adnoddau yn well;*
- *Ymgysylltu â'r gweithlu;*
- *Cefnogi'r newidiadau.*

[24] Creu'r Cysylltiadau: O Weledigaeth i Weithredu, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004.
[25] Darparu'r Cysylltiadau: O Weledigaeth i Weithredu, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005

Mae Creu'r Cysylltiadau yn rhestru nifer o benawdau gwasanaeth-ar-ôl -gwasanaeth, a dyma'r rhai sydd yn uniongyrchol berthnasol i gynllunio:

- *Adolygu canllawiau i sicrhau bod cymunedau a busnesau yn chwarae rhan yn gynnar ac yn barhaus yn y broses o greu'r Cynlluniau Datblygu Lleol;*
- *Cefnogi'r holl awdurdodau lleol wrth ddatblygu gwasanaethau e-gynllunio*.

Mae'r cynllun gweithredu'n nodi y bydd y Cynulliad*: "Yn lleihau'n sylweddol dros amser nifer y cynlluniau y mae eu hangen arnom oddi wrth awdurdodau lleol er mwyn i'r rheolwyr allu canolbwyntio ar gefnogi staff y rheng-flaen."* Fodd bynnag, mae'r cynlluniau datblygu sydd eu hangen oddi wrth awdurdodau lleol er mwyn rhoi polisi cynllunio ar waith yn lleol yn dal i fod yn angenrheidiol. Mae hyn yn pwysleisio pa mor bwysig ydynt i'r Cynulliad.

2.5.4 Iaith Pawb

Iaith Pawb [26] yw strategaeth y Cynulliad ar gyfer hyrwyddo'r Iaith Gymraeg. Dyma faes polisi allweddol ac mae'n ategu'r holl bolisïau a gynhyrchir. Mae'n canolbwyntio ar amrywiadau daearyddol cyfredol o ran siarad yr iaith Gymraeg, a'r angen i leihau lefel y gwahaniaeth sydd yna ar hyn o bryd i hyrwyddo cydlyniad cymdeithasol a diwylliannol. Prif ffocws y ddogfen yw rhoi cynllun gweithredu ar gyfer hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Dyma elfennau allweddol y strategaeth:

- *Bydd yr iaith Gymraeg yn fater trawsbynciol allweddol ar draws yr holl feysydd polisi;*
- *Caiff yr iaith ei hintegreiddio i feysydd y brif ffrwd fel datblygu economaidd a gofal iechyd yn hytrach na meysydd traddodiadol fel diwylliant ac addysg;*
- *Ceisir 'prif ffrydio' polisi iaith Gymraeg y Cynulliad drwy bartneriaethau â sefydliadau eraill a chyrff cyhoeddus sy'n cael eu dylanwadu'n uniongyrchol gan bolisi'r Cynulliad, h.y. awdurdodau lleol, a sefydliadau gwirfoddol;*
- *Gwneud y mwyaf o'r potensial ar gyfer newid deddfwriaethol, er mwyn gwneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ledled y wlad;*
- Ehangu rôl Bwrdd yr Iaith Gymraeg i hyrwyddo canolbwynt strategol ar yr iaith Gymraeg drwy ystod o bolisïau a chanllawiau.

Yn nhermau cynllunio a'r WPRP, bydd mentrau'r Cynulliad i hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn cael effaith uniongyrchol ar nifer o agweddau ar y system gynllunio. Mae'r ddogfen yn pwysleisio y dylai'r iaith Gymraeg fod wrth wraidd y strategaethau adfywio sy'n rhoi'r her i gynllunwyr o ymgysylltu â'r pwnc yn ddyfnach. Mae materion eraill sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg a allai effeithio ar gynllunio yng Nghymru, gan gynnwys:

[26] Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol am Gymru Ddwyieithog, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003.

- Bydd y Rhaglen Datblygu Gwledig a Gweithredu Cymunedol Gwledig hefyd yn ymgysylltu â chymunedau Cymraeg eu hiaith i radd uwch nag a welwyd o'r blaen;
- Mae'r ddogfen hefyd yn cyfeirio at TAN 20 - Yr Iaith Gymraeg - Cynlluniau Datblygu Unedol a Rheoli Cynllunio a luniwyd i sicrhau bod y polisïau yn sensitif i anghenion y cymunedau lleol, yn arbennig lle mae defnydd yr Iaith Gymraeg yn gyffredin;
- Mae'r ddogfen yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau cynllunio fod yn sensitif i gymunedau lle mae'r iaith Gymraeg yn gryf wrth ddelio â chynigion ar gyfer datblygu tai newydd.

2.6 Strategaethau sy'n Benodol i Bolisïau

Mae amryw swyddogaethau'r Cynulliad yn cynhyrchu strategaethau, sy'n ceisio gweithredu gwerthoedd craidd a strategaethau o fewn eu meysydd polisi penodol eu hunain. Mae'r rhain hefyd yn cynnwys PPW a drafodwyd yn Adran 1 yr adroddiad hwn.

2.6.1 Cartrefi Gwell

Gwell cartrefi i Gymru [27] yw Strategaeth Tai Cenedlaethol y Cynulliad. Mae'n darparu ystod eang o bolisiau, amcanion a strategaethau sydd wedi'u hanelu at ddarparu lefel a safon ofynnol o dai yng Nghymru yn y dyfodol. Fe'i dyluniwyd i ddarparu fframwaith polisi sy'n cefnogi ac yn annog camau ar lefel leol i greu tai o safon well ledled y wlad. Mae'r ddogfen wedi'i strwythuro i gyfrif am y gwahaniaethau rhanbarthol sy'n bodoli yng Nghymru ac i lunio strategaethau sy'n cyfrif am yr amrywiadau cymdeithasol, diwylliannol, gwleidyddol ac economaidd. Mae'r ddogfen yn edrych ar nifer o themâu allweddol yn fanwl gan gynnwys: rôl strategol yr awdurdod lleol, adfywio cymunedau dan anfantais, rôl yr iaith Gymraeg, anghenion a galwadau tai, digartrefedd, safonau tai, anghenion grŵp penodol a budd-dal tai. Prif amcanion y strategaeth yw:

- *Creu gweledigaeth strategol glir ar gyfer dyfodol tai yng Nghymru;*
- *Amlinellu'r ffordd y mae'r Cynulliad yn bwriadu cyflawni ei nodau o ran tai, drwy agendau polisi cysylltiedig (h.y. ei ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy, cyfiawnder cymdeithasol a'r iaith Gymraeg);*
- *Mynd i'r afael ag anghenion a galwadau tai yng Nghymru drwy'r holl daliadaethau.*

Mae cysylltiad annatod rhwng tai a chynllunio defnydd tir ac felly mae'r strategaeth yn mynd i'r afael â chynlluniau datblygu, rôl y system gynllunio, datblygu cynaliadwy, cynllunio gofodol, safonau dylunio a chyfoeth o themâu eraill sy'n ymwneud â chynllunio:

[27] Cartrefi gwell i Bobl yng Nghymru: Strategaeth Tai Genedlaethol i Gymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2001

- Cyfeiriad at y canllawiau a gyhoeddir ar gyfer Cynlluniau Datblygu Unedol (UDP) yn 2001;
- Ymrwymiad i'r Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol i Gymru;
- Monitro a hyrwyddo'r defnydd o dir safle llwyd yng Nghymru.

2.6.2 Strategaeth Amgylcheddol

Mae'r Strategaeth Amgylcheddol i Gymru [28] yn canolbwyntio ar y *"materion sy'n flaenoriaeth ar gyfer yr amgylchedd yng Nghymru"*, a chaiff ei chefnogi gan gynllun gweithredu sy'n pwysleisio'r meysydd sy'n flaenoriaeth ledled y wlad. Mae'r ddogfen yn cwmpasu ystod eang o faterion gan gynnwys newid yn yr hinsawdd, rheoli tirlun, defnydd adnoddau cynaliadwy, bioamrywiaeth, ansawdd bywyd. Prif amcanion y strategaeth yw:

- *Mynd i'r afael â ffyrdd i Gymru allu lleihau lefelau carbon deuocsid yn yr atmosffer;*
- *Llunio dulliau o reoli a chadw mor/tirlun Cymru;*
- *Mynd i'r adael â'r angen i wneud defnydd mwy priodol o adnoddau;*
- *Gwella bioamrywiaeth yng Nghymru;*
- *Canolbwyntio ar bwysigrwydd amgylchedd adeiledig a lleoedd cyhoeddus o ansawdd uchel;*
- *Annog y Cynulliad i fabwysiadu strwythurau sefydliadol newydd er mwyn cymhwyso'r angen am fwy o bolisiau sy'n seiliedig ar yr amgylchedd;*
- *Mynd i'r afael ag ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i ddatblygu cynaliadwy a chyfiawnder cymdeithasol.*

Gan fod yr amgylchedd wrth wraidd y system cynllunio defnydd tir, mae'r ymchwil a wnaed i faterion cynllunio yn arbennig o berthnasol i'r Strategaeth Amgylcheddol, gan ddylanwadu ar bynciau fel cadw'r tirlun, yr amgylchedd adeiledig, a bioamrywiaeth. Golyga hyn fod y system gynllunio yn hanfodol er mwyn cyflawni'r targedau yn llwyddiannus a amlinellir yn y cynllun gweithredu, gyda chyfeiriadau i gynllunio gan gynnwys:

- Cymru Wledig - Mae cysylltiadau yn cynnwys pynciau fel cymunedau gwledig, a chadw tirlun;
- Ynni Adnewyddadwy - Mae'r strategaeth yn nodi strategaeth y Cynulliad ar gyfer mynd i'r afael ag allyriannau carbon deuocsid ac yn edrych ar y dewisiadau ynni adnewyddadwy sydd ar gael.

[28] Strategaeth Amgylcheddol i Gymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006.

2.6.3 Yn Gall gyda Gwastraff

Nod strategaeth yn Gall gyda Gwastraff [29] yw gwella'r gwaith o reoli gwastraff yng Nghymru. Mae'r strategaeth yn cynnwys *"mesurau i gynyddu'r defnydd o ddeunyddiau a ailgylchwyd ac a gompostiwyd gan fusnesau a'r sector cyhoeddus yng Nghymru, ymgyrch rheoli gwastraff sector cyhoeddus, ymgyrch addysgol i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ledled Cymru o'r angen i reoli gwastraff mewn dull mwy ystyrlon i'r amgylchedd."*

Mae'r strategaeth yn nodi'r ffyrdd y mae Cymru yn cydymffurfio â deddfwriaeth perthnasol y DU ac Ewrop. Mae hefyd yn ceisio *"gwneud Cymru yn fodel ar gyfer rheoli gwastraff yn gynaliadwy drwy fabwysiadu a gweithredu dull cynaliadwy ac integredig o gynhyrchu, rheoli a rheoleiddio gwastraff (gan gynnwys sbwriel) sy'n minimeiddio'r gwastraff a gynhyrchir a'i effaith ar yr amgylchedd, yn gwneud y mwyaf o'r defnydd o wastraff na ellir ei osgoi fel adnodd, ac yn minimeiddio, lle mae hynny'n briodol, y defnydd o ynni ar gyfer gwastraff a thirlenwi."*

Ceir cysylltiadau amlwg rhwng strategaeth yn Gall gyda Gwastraff a'r system cynllunio defnydd tir yn nhermau cynllunio ar gyfer cyfleusterau gwastraff a ffynonellau ynni adnewyddadwy.

2.6.4 Ffermio ar gyfer y Dyfodol

Mae Ffermio ar gyfer y Dyfodol [30] yn nodi gweledigaeth ar gyfer dyfodol amaethyddiaeth Cymru i fynd i'r afael â'r newidiadau sy'n wynebu ffermio yng Nghymru. Nod y strategaeth yw:

- Datblygu cynnyrch wedi'u brandio, â gwerth ychwanegol, o ansawdd uchel;
- Creu diwydiant bwyd-amaeth mwy integredig yng Nghymru;
- Annog ffermio cynaliadwy amgylcheddol;
- Ehangu'r sail amaethyddol;
- Atgyfnerthu apêl cefn gwlad ar gyfer twristiaeth a hamdden.

Ceir cysylltiadau cryf rhwng y strategaeth hon a chynllunio o ystyried ei ffocws ae ddefnydd tir gwledig a chymunedau.

[29] Yn Gall Gyda Gwastraff: Stratgeaeth Gwastraff Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002.
[30] Ffermio ar gyfer y Dyfodol, Cyfeiriad Newydd ar gyfer Ffermio yng Nghymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2001

2.6.5 Cymru - Economi sy'n Ffynnu

Cymru - Economi sy'n Ffynnu [31] (WAVE) yw strategaeth datblygu economaidd Cymru. Mae'n nodi gweledigaeth am economi ffyniannus i Gymru i ddarparu twf economaidd cryf a chynaliadwy drwy ddarparu cyfleoedd i bawb. Y prif ddull o gyflawni'r weledigaeth hon yw drwy fanteisio i'r eithaf ar gryfderau craidd megis: gweithlu cynyddol fedrus, arloesol ac entrepreneuraidd; sail dechnoleg a gwybodaeth ddatblygedig; cymunedau cryf; amgylchedd naturiol syfrdanol; a bywyd o ansawdd rhagorol.

Mae'n gysylltiedig ag WPRP drwy'r cyfle a rydd i sicrhau bod gweithgareddau datblygu economaidd yn ymlynu'n agos at y camau a gymerir ar ddimensiynau cymdeithasol ac amgylcheddol ar ddatblygiadau cynaliadwy. Y prif egwyddorion sy'n ategu'r strategaeth yw:

- *Sicrhau bod uno Awdurdod Datblygu Cymru (WDA), Bwrdd Croeso Cymru (WTB) ac ELWa (Addysg a Dysgu Cymru) â'r Cynulliad yn 2006 yn darparu gwasanaethau mwy effeithiol ac effeithlon i fusnesau ac unigolion yng Nghymru.*
- *Cyfuno agendau polisïau ar draws y Cynulliad a bodloni ei ymrwymiadau corfforol i gyfiawnder cymdeithasol, datblygu cynaliadwy, cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg.*
- *Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gwelliannau ledled Cymru drwy'r Cynllun Gofodol.*
- *Canolbwyntio'r gefnogaeth lle y gall wneud y gwahaniaeth fwyaf.*
- *Hyrwyddo cydweithio agosach rhwng y sectorau preifat a chyhoeddus ar gyngor busnes a chyllid, er mwyn sicrhau bod gan gwmnïau yng Nghymru fynediad at gefnogaeth o'r radd flaenaf.*

2.6.6 Dringo'n Uwch

Dringo'n Uwch [32] yw strategaeth y Cynulliad â'r nod o gynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon yng Nghymru. Mae'n cynhyrchu cyfres o dargedau allweddol a feintolwyd yn nhermau perfformiad elit mewn chwaraeon, i gyfranogiad cymunedol a darpariaeth gofod hamdden. Mae'r strategaeth yn pennu nifer o amcanion allweddol gan gynnwys:

- *Cynyddu'r gweithgarwch corfforol ar draws yr holl grwpiau oedran/cymdeithasol;*
- *Defnyddio potensial economaidd chwaraeon a hamdden i helpu i yrru economi Cymru;*
- *Gwneud y mwyaf o fanteision cymdeithasol a diwylliannol chwaraeon;*
- *Defnyddio chwaraeon a hamdden i atgyfnerthu cymunedau;*

[31] Cymru – Economi yn Ffynnu, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005.

[32] Dringo'n Uwch: Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Chwaraeon a gweithgarwch Corfforol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005.

- *Gwneud y mwyaf o'r cysylltiad rhwng chwaraeon a'r amgylchedd (h.y. cerdded, beicio, rhedeg);*
- *Sicrhau bod Cymru yn gystadleuol ar lwyfan y byd yn nhermau perfformiad athletaidd elit.*

Yn nhermau cynllunio a'r WPRP, y meysydd allweddol ar gyfer gweithredu yw darparu cyfleusterau chwaraeon, mannau agored a llwybrau cerddwyr a beiciau. Mae gan gynllunio rôl bwysig i'w chwarae wrth ddarparu'r strategaeth hon yn llwyddiannus mewn cydweithrediad ag ymrwymiadau polisi eraill y Cynulliad, megis datblygu cynaliadwy a chyfiawnder cymdeithasol. Yn y ddogfen, y prif gysylltiadau â chynllunio a'r WPRP yw:

- *Sicrhau bod mynediad beiciau a cherddwyr yn gwella* - Mae Dringo'n Uwch yn mynd i'r afael â'r angen i hyrwyddo dulliau cynaliadwy o drafnidiaeth i hybu iechyd a lleihau'r ddibyniaeth ar geir;
- *Sicrhau bod prosesau cynllunio a pholisïau trafnidiaeth yn cefnogi'r strategaeth hon* - Mae'r ddogfen yn awyddus i sicrhau y dylai fod yna ddarpariaeth ddigonol o leoedd agored a gofod chwarae ffurfiol yng Nghymru ac yn gosod targedau a feintiolwyd y bydd angen eu cyflawni;
- *Cynyddu cyfranogiad heb effeithio'n negyddol ar yr amgylchedd* - mae'r strategaeth hefyd yn awyddus i sicrhau bod unrhyw gynnydd mewn cyfranogiad yn cael ei hwyluso heb unrhyw effeithiau negyddol ar y tirlun sy'n dod o dan gylch gwaith y system gynllunio.

2.6.7 Cynllun Datblygu Gwledig 2000-2006

Nod Cynllun Datblygu Gwledig Cymru yw mynd i'r afael ag anghenion a blaenoriaethau'r Gymru wledig, gan dalu sylw manwl at yr amrywiaeth ddaearyddol sy'n bodoli yn y Gymru wledig. Mae'n edrych ar dopograffeg gwahanol ranbarthau Cymru, y priddoedd, yr ardaloedd cynllunio amgylcheddol penodedig (h.y. AONB, SSSI, Parciau Cenedlaethol), a chyd-destun economaidd a chymdeithasol y Gymru wledig. Mae'r ddogfen yn rhoi dynodiad cynhwysfawr y gwahanol gynlluniau sydd ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd, gan gynnwys: rhaglenni Ewropeaidd megis LEADER, rhaglenni prif ffrwd y Cronfeydd Strwythurol [33], a rhaglenni Cymru / y DU megis Tir Cymen[34]. Mae'r ddogfen yn nodi ystod o dargedau y mae tueddiad i'w meintioli a'u targedu o gymharu â dogfennau gweledigaeth mwy strategol megis y Strategaeth Amgylcheddol a Thai Gwell. Gyda'r wybodaeth gefndir hon, mae'r ddogfen yn cynhyrchu cyfres o amcanion â'r gobaith o godi statws y Gymru wledig. Mae'r nodau allweddol hyn yn cynnwys:

[33] Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol y brif ffrwd gan gynnwys Amcan 1 ac Amcan 2.
[34] Rhaglen arferion ffermio da y CCW.

- *Darparu ystod o fesurau (gyda chyfiawnhad) ar gyfer rheoli'r Gymru wledig yn effeithiol, yn nhermau bioamrywiaeth, rhywogaethau prin, dulliau ffermio traddodiadolo a rheoli tirlun;*
- *Darparu cynllun rheoli gwledig sydd wedi'i integreiddio'n agos â pholisiau eraill y Cynulliad, gan sicrhau yr eid i'r afael â'r nodau trawsdoriadol hefyd;*
- *Sicrhau bod y mesurau a gynigir wedi'u cydlynu a'u monitro ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol;*
- *Rhoi amcanion ar gyfer safleoedd sy'n benodol i safleoedd;*
- *Amlinellu'r amserlenni ar gyfer darparu'r amcanion penodol.*

Yn nhermau cynllunio, mae'r RDP yn gysylltiedig â nifer o themâu'r WPRP. Mae wedi dylanwadu ar y broses o greu mapiau thematig, a luniwyd drwy Gynllun Gofodol Cymru, drwy gyflwyno'r amrywiadau rhanbarthol yn y defnydd tir, ansawdd y pridd, meysydd o ddiddordeb naturiol / gwyddonol a nifer o themâu allweddol eraill. Mae'r mapio hyn wedi caniatáu creu polisïau a phwyntiau gweithredu. Mae cadw arwahanrwydd gwledig a thirluniau gwledig traddodiadol hefyd yn ystyriaeth bwysig ar gyfer adrannau cynllunio wrth ffurfio cynlluniau datblygu.

2.6.8 Trafnidiaeth

Nod Deddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 yw:

> *"…. rhoi pwerau ychwanegol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym maes trafnidiaeth a fydd, ynghyd â'i bwerau presennol, yn ei gwneud hi'n bosibl i'r Cynulliad ddatblygu a gweithredu, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol Cymru a chyrff eraill, system drafnidiaeth economaidd, cynaliadwy, integredig a diogel i wasanaethu Cymru."*

Nod y Ddeddf yw rhoi'r pwerau i'r Cynulliad iddo allu *"cynllunio system drafnidiaeth fwy integredig a chydlynol i Gymru."* I'r perwyl hwn, mae'r Ddeddf yn mynnu bod y Cynulliad yn paratoi Strategaeth Drafnidiaeth i Gymru ar gyfer gweithredu ei bolisïau a'i gamau o ran trafnidiaeth. Mae'r strategaeth hon wrthi'n cael ei pharatoi gan y Cynulliad.

2.7 Y Cyd-destun Strategol

Mae'r gwerthoedd a'r strategaethau creiddiol a nodwyd yn yr Adran hon yn rhoi blociau adeiladu polisi strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Maent i gyd yn effeithio ar waith yr WPRP a'r PPW. Mae'r fframwaith hwn wedi datblygu dros y pum mlynedd diwethaf a bellach mae'n rhan o strategaeth gorfforaethol y Cynulliad; dyma adeg ddefnyddiol o adolygu'r WPRP i sicrhau bod hwn yn unol â'r fframwaith. Mae'r fframwaith wedi'i ddangos yn Ffigur 2.1.

Ffigur 2.1 Cyd-destun Polisi'r Cynulliad

Mae'n bwysig deall cyd-destun strategol yr WPRP am ei fod yn rhoi fframwaith ar gyfer unrhyw newidiadau yn null weithredu'r Rhaglen. Fodd bynnag, yn bwysicach fyth, mae'n rhoi'r cyd-destun strategol ar gyfer ystyried dyfodol yr WPRP.

3.0 Effeithiolrwydd y Rhaglen Gyfredol

3.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn ystyried sut mae'r WPRP wedi gweithredu. Mae'n nodi ein canfyddiadau o ran rheoli'r Rhaglen, ei berfformiad ariannol a rheolaeth y rhaglenni ymchwil unigol a gomisiynwyd. Mae hefyd yn ystyried y berthynas rhwng yr WPRP a rhaglenni ymchwil eraill a chyfathrebu gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol.

3.2 Rheoli Rhaglenni

3.2.1 Rheolaeth Gyffredinol

Mae'r Is-adran Gynllunio wedi'i drefnu drwy bum cangen (P1 i P5), bob un â chanolbwynt penodol. Mae gan Gangen P2 gyfrifoldeb dros bolisi cynllunio ac ymchwil, gan gynnwys cydlynu a rheoli'r WPRP. Mae nifer fach o swyddogion a leolir ar draws yr holl ganghennau yn comisiynu. Maent oll yn ymwneud â datblygu polisi yn ogystal â chomisiynu ymchwil.

Mantais hyn yw y gall swyddog unigol gomisiynu a rheoli'r ymchwil a datblygu'r polisi, gan integreiddio'r sail wybodaeth a'r polisi. Fodd bynnag, dim ond cyfran fach o'u hamser a ddyrennir i reoli ymchwil.

Ychydig iawn o weithdrefnau rheoli Rhaglen-gyfan sydd yn eu lle, ac ymddengys fod hyn yn atal dull strwythuredig o reoli ac adolygu'r rhaglen yn ystod unrhyw flwyddyn unigol. Fel arfer, caiff y rhaglen ei rhannu rhwng cynllunio defnydd tir a chynllunio mwynau a gwastraff ac mewn gwirionedd, cânt eu rheoli ar wahân, sydd eto'n lleihau'r cyfleoedd i reoli'r Rhaglen yn strategol.

3.2.2 Rheolaeth Ariannol

Caiff gwariant Llywodraeth Cynulliad Cymru ei drefnu drwy gyfres o Brif Grwpiau Gwariant (MEG) ac mae gan bob un nifer o Linellau Gwariant Cyllideb (BEL). Rhaglen ymchwil aml-flwyddyn yw'r WPRP ac mae'n dod o dan MEG yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (EP&C). Caiff yr WPRP ei drefnu o dan BEL unigol. Fodd bynnag, mae'r gyllideb wedi'i rhannu drwy drefniant anffurfiol, rhwng y ddau bob blwyddyn o'r un faint, gydag ychydig mwy na hanner y gyllideb wedi'i dyrannu i ymchwil cynllunio defnyddio tir (52%) ac mae

ychydig llai na hanner yn cefnogi ymchwil cynllunio gwastraff a mwynau[35] (48%). Mae'r BEL yn cydymffurfio â gofynion archebau sefydlog ariannol y Cynulliad. Fodd bynnag, mae'r rhaniad rhwng cynllunio defnydd tir ac ymchwil gwastraff a mwynau yn golygu fod rheoli BEL yn gyffredinol wedi'i gyfyngu yn gyffredinol ac yn nhermau'r Rhaglen ei hun. Mae rhannu'r BEL fel hyn yn golygu, yn ymarferol, fod dwy raglen ymchwil yn cael eu cynnal, gan leihau'r gallu i wneud y mwyaf o ddefnydd strategol yr WPRP. Yn ei hanfod, mae dwy gyllideb lai ar gael i'w defnyddio, ac maent yn lleihau'r gallu ymarferol i gynnal rhaglen ymchwil. Mae hyn hefyd yn lleihau'r hyblygrwydd a'r dewisiadau ar gyfer sicrhau bod y gyllideb yn cael ei defnyddio'n llawn i ddiwallu anghenion yr WPRP.

3.2.3 Maint y Rhaglen

Yn seiliedig ar gofnodion y Cynulliad, dechreuwyd 26 o brosiectau, ac fe'u cwblhawyd yn bennaf dros y cyfnod 1999/2000 i 2005/06[36] sy'n werth cyfanswm o ryw £2.3 miliwn. Ar gyfartaledd, cost prosiect yw £72,500. Rhydd Tabl 3.1 grynodeb o gyfanswm y gwariant o dan y Rhaglen rhwng 1999/2000 a 2005/06.

Tabl 3.1 Cyfanswm y Gwariant a Gynlluniwyd a'r Gwariant Gwirioneddol yn ôl Blwyddyn

	Gwariant y Rhaglen a Gynlluniwyd (£)	Ffigur Gwariant Terfynol (£)	Gwahaniaeth rhwng y Gwariant a Gynlluniwyd a'r Gwariant Terfynol (£)	Y Gwariant Terfynol fel % o'r Gyllideb sydd Ar Gael
1999/00 a 2000/01[37]	840,000	632,246	207,754	75%
2001/02	420,000	373,093	46,907	89%
2002/03	420,000	441,725	21,725	105%
2003/04	420,000	352,414	67,586	84%
2004/05	420,000	304,726	115,274	73%
2005/06	420,000	228,464	191,536	54%
Cyfanswm:	**2,940,000**	**2,332,668**	**607,332**	**79%**

Ffynhonnell: Llywodraeth Cynulliad Cymru

[35] Fodd bynnag, mewn gwirionedd mae ymchwil sy'n ymwneud â pholisi cynllunio gwastraff yn cael ei hariannu y tu allan i'r WPRP.

[36] Mae'r adolygiad dros gyfnod o bum mlynedd yn ei hanfod, fodd bynnag, mae 1999/2000 wedi'i chynnwys am fod rhai o'r prosiectau wedi gorgyffwrdd â 2000/01. Nid yw'r flwyddyn bresennol – 2005/06 – ar ben eto, ac felly nid yw'n flwyddyn gyfan ar gyfer ei dadansoddi.

[37] Noder fod y ffigurau ar gyfer 1999/2000, 2000/01 a 2001/02 wedi'u cofnodi cyn system cyfrif electronig y Cynulliad ac maent wedi'u cyfrif ar sail wahanol.

Dim ond yn 2002/03 y gwariwyd y gyllideb (105%) ac mewn gwirionedd gorwariwyd 5%. Ar gyfartaledd, mae 79% o gyfanswm y gyllideb wedi'i wario bob blwyddyn.

3.2.4 Cyfathrebu

Cyhoeddwyd cylchlythyr blynyddol a'i ledaenu'n eang fel rhan o ledaeniad yr WPRP. Roedd y rhanddeiliaid allanol yn ystyried bod y rhain yn ddefnyddiol, gan roi'r newyddion diweddaraf i bobl am y gweithgarwch a oedd ar y gweill. Roedd hefyd yn ffynhonnell rhybuddion cynnar defnyddiol i ddarpar gontractwyr a oedd am wneud cynnig am waith. Fodd bynnag, yn yr Is-adran Gynllunio yn fewnol, ystyriwyd ei fod yn defnyddio llawer o adnoddau i'w gynhyrchu. Roedd mwyafrif y rhanddeiliaid allanol a gyfrannodd at yr adolygiad hwn yn galw i barhau â'r adolygiad hwn.

Gwefan y Cynulliad yw prif offeryn cyfathrebu a lledaenu ar gyfer yr WPRP. Fodd bynnag, nododd holl randdeiliaid yr adolygiad fod y wefan yn broblem benodol, ac ar y ffurf hon, ni ystyriwyd fod hwn yn fecanwaith cyfathrebu da. Yn fwy penodol, roedd cynllun y wefan yn anodd ei ddilyn, ac yn bennaf yn rhestr o gyhoeddiadau. Fodd bynnag, aed i'r afael â'r mater hwn ac yn 2006, lansiwyd gwefan newydd, ac mae hon yn cael ei phoblogi ar hyn o bryd.

3.3 Datblygu'r Rhaglen

Caiff y prosiectau ymchwil unigol eu dewis yn bennaf drwy broses fewnol sy'n ystyried yr anghenion polisi cynllunio sydd ar y gweill. Gall blaenoriaethau'r Gweinidogion ddylanwadu ar y broses hon, ac maent wedi gwneud hynny, megis canolbwynt cynharach ar ynni adnewyddadwy. Cyflwynir y cynllun blynyddol arfaethedig ar gyfer ymchwil i'r gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad i'w gymeradwyo. Awgrymodd rhanddeiliwr allanol hefyd nad oedd yr WPRP yn gweithredu'n gywir fel 'rhaglen', ac roedd hyn wedi'i briodoli'n rhannol i'r gyllideb gymharol fach sydd ar gael o dan y ddau linyn h.y. cynllunio defnydd tir a gwastraff a mwynau.

Sefydlwyd Panel Defnyddwyr WPRPI[38] gan gynnwys aelodau o Adrannau eraill y Cynulliad a rhanddeiliaid allanol. Awgrymodd yr Astudiaeth Gwmpasu fod y Panel yn ymgymryd â rôl *"monitro blaenoriaethau a chynnydd yr ymchwil a chydlynu'r gwaith o ledaenu a gwerthuso'r ymchwil."* Y bwriad hefyd oedd bod y Panel yn gyfrifol am gymeradwyo amcanion ymchwil y polisi cynllunio. Sefydlwyd y Panel yn 2000, ac roedd yn cyfarfod yn

[38] Y sefydliadau allanol a gynrychiolwyd ar y Panel Defnyddwyr oedd: Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI), Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC); ac Ysgol Gynllunio Prifysgol Caerdydd (CPLAN).

flynyddol hyd at 2004. Ystyriwyd ei fod yn fecanwaith defnyddiol ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid a'i fod yn gyfle gwych i gadw'r Rhaglen ar yr agenda gyda chynulleidfa ehangach. Yn ymarferol, roedd teimlad ymysg yr aelodau allanol fod gofynion mewnol yn llywio'r blaenoriaethau ymchwil, er y cydnabuwyd nad oedd hon yn sefyllfa negyddol o reidrwydd o safbwynt blaenoriaethau ymchwil.

O ran yr agwedd ar y Rhaglen sy'n canolbwyntio ar fwynau, defnyddir y ddau Weithgor Agregu Rhanbarthol Cymru ar gyfer y Gogledd a'r De (RAWP)[39] i ddatblygu'r cynllun ymchwil; gwahoddir aelodau RAWP i gyflwyno syniadau am ymchwil. Ymgynghorir hefyd â Grwp Testun Gwastraff a Mwynau Swyddog Cynllunio Cymru ar y rhaglen ymchwil hefyd. Teimlir bod y dull hwn o fynd rhagddo â'r ymchwil ar fwynau yn gadarnhaol, yn bennaf am ei fod yn rhoi'r cyfle i ymgysylltu'n uniongyrchol â defnyddwyr.

3.4 Rheoli Prosiect

3.4.1 Comisiynu Contractau Ymchwil

Yn yr un modd â holl gontractau'r Cynulliad, rhaid i gontractau a osodwyd o dan yr WPRP gydymffurfio â gweithdrefnau caffael corfforaethol y Cynulliad. Rhaid i unrhyw gontract sy'n werth mwyn na £2,000 gael ei roi allan i dendr yn ffurfiol, a rhaid ceisio o leiaf tri dyfynbris.[40] Rhaid i fwyafrif y contractau a osodwyd o dan yr WPRP fynd drwy'r broses dendro ffurfiol. Cydnabu'r Astudiaeth Gwmpasu *"efallai nad yw gweithdrefnau caffael cyfredol y Cynulliad yn cydweddu ag amgylchiadau'r contractau ymchwil."* Roedd yr astudiaeth yn argymell fod angen teilwra'r dull o gaffael yr holl ymchwil. Argymhellodd hefyd ystyried defnyddio ceisiau galw i mewn gyda nifer o sefydliadau a nodwyd i ddelio ag anghenion bach, llwybr carlam. Deallwn na fabwysiadwyd y dull hwn am fod gofynion y broses gaffael wrth sefydlu'r system hon yn gorbwyso'r manteision yng nghamau cynnar y Rhaglen.

Ymddengys fod y gweithdrefnau caffael mewnol yn feichus o ran amser, ac maent yn mynnu llawer o amser y swyddogion, y gellid ei dreulio ar reoli ymchwil neu ddatblygu polisi yn uniongyrchol. Fe'm cynghorwyd fod angen diwygio'r gwaith papur yn aml er mwyn cefnogi'r broses gaffael. Gall yr amserlen ar gyfer comisiynu ymchwil gymryd dau neu dri mis, o ddatblygu'r briff i benodi'r contractiwr. Caiff hyn effaith ar yr amser y mae ei angen

[39] Ceir dau RAWP yng Nghymru – un yn y Gogledd ac un yn y De. Mae'r naill a'r llall yn rhoi gwybodaeth a chyngor ar gyflenwad a'r galw am fwynau agregad. Gweithgorau technegol ydynt, gydag aelodau o blith Awdurdodau Cynllunio Mwynau, cynrychiolwyr masnach, y DCLG a LICC, ac asiantaethau cyhoeddus eraill fel Ystad y Goron, Asiantaeth yr Amgylchedd, CCGC a'r British Geological Survey.

[40] Mae angen hysbysebu unrhyw gontractau sy'nm werth mwy na £100,000 yn Newyddiadur Swyddogol y Comisiwn Ewropeaidd. Fodd bynnag, ni chafwyd unrhyw gontract WPRP sy'n werth cymaint hyd yn hyn.

ar gyfer yr ymchwil ac fe'i cyfyngir ymhellach gan yr angen i wario'r cronfeydd yn ystod blwyddyn ariannol benodol. Er bod yna rywfaint o gwmpas i ddiwygio'r gofynion caffael, gellid gwella ar y sefyllfa hon drwy wella cysondeb gwybodaeth staff WPRP am y broses gaffael. Yn ymarferol, gellid cyflawni hyn drwy wahodd yr adran gaffael ganolog i briffio staff.

3.4.2 Rheoli'r Prosiectau Ymchwil

Yn nhermau rheoli'r ymchwil, ystyriwyd bod cynnwys partïon allanol gan yr Adran Gynllunio yn elfen bwysig, a bod cydweithio rhwng yr asiantaethau yn dda fel rheol.

Yn aml, cafwyd bod y prosiectau yn cael eu cwblhau ar amser. Fodd bynnag, fel arfer, teimlwyd fod rhesymau dilys am hyn, (e.e. Mae'r ymchwil yn codi materion pellach y mae angen mynd i'r afael â hwy). Serch hyn, gan fod hyn yn digwydd yn aml i brosiectau, dylid cydnabod hyn yn fewnol a llunio cynllun wrth gefn ymlaen llaw fel rhan o amserlen prosiect.

Mae gan bob contract grŵp llywio prosiect, gan gynnwys partïon allanol lle bo hynny'n briodol. Ystyrir fod y grwpiau llywio yn bwysig ac yn aml gallant ysgogi gwelliannau ym mharamedrau'r briff ac yn ansawdd yr ymchwil a gynhelir, drwy gynnwys unigolion perthnasol. Fodd bynnag, yn y gorffennol, cafwyd grwpiau llywio rhy fawr, a all arwain at ddiffyg ffocws yng nghylch gwaith y grŵp a rhoi beichiau rheoli sylweddol ar y rheolwr prosiect a'r contractiwr, a all arwain at wyro oddi wrth fwriad gwreiddiol yr ymchwil. Yn hytrach, rhaid iddynt fod yn ddigon bach i allu eu rheoli'n hwylus, a rhaid bod ganddynt gylch gwaith â ffocws.

Yn yr achosion prin lle y teimlwyd nad oedd y prosiectau ymchwil wedi bodloni'r disgwyliadau, priodolwyd hyn i nifer o faterion yn ymwneud â rheolaeth, sef:

- Nid oedd gan y briff ganolbwynt digonol;
- Gwyrodd y grŵp llywio oddi wrth y briff gwreiddiol;
- Roedd y disgwyliadau am yr hyn y gallai'r ymchwil ei gyflawni yn rhy uchel;
- Angen i fod yn glir ar y cwestiynau ymchwil.

Amlygwyd 'meddwl awyr las' fel maes a allai esgor ar fanteision i'r WPRP a chyfrannu tuag at y broses o ddatblygu polisïau. Fodd bynnag, mae ymchwil o'r math hwn yn llai o flaenoriaeth pan fo'r adnoddau rheoli a'r gyllideb yn gyfyngedig. Lle y gallai fod o fudd, dylid cynnwys elfen o hyblygrwydd mewn prosiectau er mwyn hwyluso ymchwil 'awyr las'. Mae angen cydbwysedd gofalus er mwyn sicrhau bod y cwestiynau ymchwil gwreiddiol yn cael eu hateb. Gall hon fod yn broses anodd, ond nid amhosibl, i'w rheoli.

3.4.3 Lledaenu Canlyniadau

Er bod gwefan y Cynulliad yn offeryn lledaenu pwysig, nid yw'n darparu gwasanaeth da. Mae cynllun y wefan a diffyg mecanwaith chwilio effeithiol yn golygu nad yw mor effeithiol ag y gallai fod. Gellir dod o hyd i fwyafrif yr ymchwil ar y wefan, ond nid yw hon yn broses hawdd, ac ychydig iawn o gyfleoedd a geir i ddarparu cysylltiadau uniongyrchol ag ymchwil arall, boed hynny'n ymchwil fewnol gan y Cynulliad neu ymchwil a gomisiynwyd gan randdeiliaid allanol.

Mae'r holl gontractau ar gyfer ymchwil a gomisiynir gan yr WPRP yn cynnal digwyddiad lledaenu gwybodaeth ar gyfer hyrwyddo canfyddiadau'r ymchwil. Fel arfer, digwyddiadau unigol yw'r rhain a gynhelir gan y contractwyr a gomisiynwyd i gynnal y gwaith ymchwil. Ystyriwyd fod y rhain yn ddigwyddiadau defnyddiol ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid. Fodd bynnag, mae cynnal un digwyddiad unigol yn golygu na all yr holl randdeiliaid fynychi ac felly dylid ystyried dulliau eraill o ledaenu gwybodaeth hefyd.

3.5 Casgliadau Strategol

Yn yr adran hon, rydym wedi adolygu'r dull o reoli'r WPRP ar lefel y Rhaglen ac yn nhermau rheoli'r contractau unigol. Dyma'r casgliadau strategol a gafwyd o'r adolygiad hwn:

- Mae'r model a ddefnyddir i gael yr un swyddog i reoli'r contractau ymchwil, ac yna i ddatblygu'r polisi cysylltiedig yn un cadarnhaol. Rhydd gyfle i sicrhau bod yr ymchwil yn berthnasol i anghenion datblygu'r polisi.

- Gweithdrefnau rheolaeth gyllidol a rheoli rhaglen cyffredinol cyfyngedig yw'r rhain ar hyn o bryd, a all leihau'r gallu i ddefnyddio a rheoli'r Rhaglen yn strategol. Mae hyn wedi'i waethygu gan y rhaniad rhwng agweddau cynllunio defnydd tir a mwynau a gwastraff yr WPRP. Mae hyn wedi cyfrannu at y tanwario blynyddol a nodwyd. Mae angen datblygu'r Rhaglen hon ar y cyd ac adrodd ar gynnydd, er mwyn sicrhau bod y budd mwyaf yn deillio o'r Rhaglen bob blwyddyn.

- Mae defnyddio'r Panel Defnyddwyr a'r RAWPs yn fecanweithiau cadarnhaol ar gyfer datblygu'r WPRP a chynnwys rhanddeiliaid allanol. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau agwedd fwy cydlynol tuag at yr WPRP, argymhellwn ddefnyddio grŵp defnyddwyr unigol, gyda chynrychiolydd oddi wrth RAWP. Gallai hyn chwarae rôl amlycach wrth ddethol prosiectau a monitro'r broses o adolygu'r Rhaglen.

- Gellid defnyddio'r holl ddulliau amgen o gomisiynu contractau sydd ar gael o dan y broses gaffael drwy gynyddu ymwybyddiaeth staff am y gofynion. Byddai hyn yn helpu i leihau'r amser y mae'r swyddogion yn ei dreulio'n gweinyddu'r gofynion caffael, a hefyd yn cynyddu'r cyfleoedd i gomisiynu prosiectau ychwanegol tuag at ddiwedd blwyddyn, er mwyn gwneud y defnydd mwyaf o'r gyllideb.

- Mae'r grwpiau llywio prosiect yn ffordd gadarnhaol o oruchwylio prosiect ymchwil, ac yn rhoi'r cyfle i gynnwys sefydliadau allanol perthnasol sydd â gwybodaeth arbenigol i lywio'r ymchwil.

- Lledaenir gwybodaeth am weithgareddau'r Rhaglen; fodd bynnag, nid da lle gellir gwell. Roedd diffyg strwythur i wefan flaenorol y Cynulliad, ac nid oedd ganddi fecanwaith chwilio da i gefnogi'r WPRP, er bod yr elfennau hyn yn cael sylw ar hyn o bryd. Roedd cylchlythyr blynyddol yr WPRP yn ddull cadarnhaol o roi'r newyddion diweddaraf i sefydliadau am weithgareddau'r WPRP.

4.0 Bodloni'r Amcanion a'r Themâu Gwreiddiol

4.1 Cyflwyniad

Yn yr adran hon, ystyriwn a yw'r amcanion a'r themâu ymchwil a gynigir gan yr Astudiaeth Gwmpasu wedi'u bodloni gan y prosiectau ymchwil. Er mwyn llywio'r asesiad hwn, cymharwyd pob un o'r prosiectau a ariannwyd o dan y Rhaglen yn erbyn tri amcan yr Astudiaeth Gwmpasu. Roedd llawer o'r prosiectau yn bodloni mwy nag un o'r amcanion. Er enghraifft, mae prosiectau a fu'n canolbwyntio ar ddatblygu'r sail wybodaeth hefyd wedi darparu tystiolaeth i gefnogi'r broses o ddatblygu polisi.

4.2 Amcanion y Rhaglen

Dengys Tabl 4.1 y gellid alinio 59% o'r contractau yn uniongyrchol â'r Astudiaeth Gwmpasu wreiddiol, ac mae'r rhain yn cyfrif am 76% o'r gwariant. Mae'r contractau amrywiol yn cynnwys eitemau sydd yn gyffredinol yn cefnogi'r Rhaglen, ond nad ydynt yn cysylltu'n uniongyrchol â'r amcanion, er enghraifft ymchwil astudiaeth achos ar gyfer safle penodol mewn perthynas â chais cynllunio.

Tabl 4.1 Nifer y Contractau a Gwariant yn ôl Amcanion yr Astudiaeth Gwmpasu

Amcanion yr Astudiaeth Gwmpasu	Nifer y contractau	% o gyfanswm y prosiectau	Cyfanswm y gwariant (£)	% y gwariant
Datblygu Polisi	11	23%	607,605	30%
Gweithredu'r System Gynllunio	7	15%	405,132	20%
Sail Wybodaeth	10	21%	516,274	26%
Canllawiau ac Arferion Gorau				
Amrywiol	19	40%	487,854	24%
Cyfanswm:	**47**	**100%**	**2,016,865**	**100%**

Ffynhonnell: Llywodraeth Cynulliad Cymru

Yn y rhan fwyaf o achosion, bu modd i'r prosiectau ymchwil gyfrannu at y broses o ddatblygu polisi, naill ai ar ffurf Nodiadau Cyngor Technegol (TAN), Polisi Cynllunio Mwynau Cymru (MPPW) ac ati. Mewn rhai achosion – yn bennaf yr ymchwil ar fwynau – mae'r ymchwil wedi rhoi gwybodaeth i'w defnyddio wrth wneud penderfyniadau (e.e. mapio geolegol). Dengys Ffigur 4.1 yr angen am ymchwil a sut y mae hyn wedi cyfrannu at ddatblygu polisi.

Ffigur 4.1 Enghraifft o'r Angen am Ymchwil a Sut y Mae Hyn yn Troi'n Bolisi – Ynni Adnewyddadwy

Mater – Nodi'r angen am ymchwil	Ymchwil	Argymhellion	Polisi	Newid y Polisi
Mewn ymateb i newidiadau yn yr hinsawdd, cydnabu Protocol Kyoto (1997) yr angen i leihau'r chwe phrif nwy tŷ gwydr. Cytunodd y DU i leihau 12.5% ar gyfran yr UE, ac 20% pellach yn yr allyriannau CO_2 islaw lefelau 1990 erbyn 2010. Ar ôl ystyried opsiynau polisi ynni, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ymrwymo i gyfrannu tuag at darged y DU, ac wedi argymell bod 10% o'r trydan a gynhyrchir yng Nghymru yn deillio o ffynonellau adnewyddadwy (Pwyllgor Datblygu Economaidd Ionawr 2003, Adolygu Polisi Ynni yng Nghymru – Ynni Adnewyddadwy). TAN 8 - Roedd y Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy wedi dyddio o ran llawer o'r dechnoleg ynni adnewyddadwy, ac roedd angen darpariaeth er mwyn galluogi polisi cynllunio i ymateb i ymrwymiad y Cynulliad.	Comisiynwyd Arup i gynhyrchu gwaith ymchwil yn 2004. Diben yr ymchwil hon oedd cynorthwyo â'r broses o ail-ddrafftio a gweithredu TAN 8 ar ei newydd wedd. "Y briff oedd rhoi map i Gymru yn nodi 'ardaloedd chwilio strategol' a allai ddarparu targed Ynni Adnewyddadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru o 4 TWh erbyn 2010. Yr amcan sylfaenol oedd nodi pa ardaloedd yng Nghymru oedd fwyaf addas i leoli'r 800 MW o dyrbinau gwynt atraeth, gan leihau'r tir a ddygwyd yn uniongyrchol."	Dyma argymhellion yr ymchwil: 1. Cyhoeddi'r ardaloedd strategol drafft ar gyfer ymgynghori; 2. Drafft TAN 8 i roi pwysau sylweddol o'r gwaith o ddarparu'r gallu ymarferol a nodir ar gyfer pob ardal yn y broses gynllunio er mwyn bodloni'r targed; 3. Cynnal proses ymgynghori helaeth gyda'r rheini sy'n debygol o gael eu heffeithio gan ardaloedd strategol; 4. Y Cynulliad i annog gweithredwyr rhwydweithiau lledaenu lleol i ddatblygu seilwaith grid priodol; 5. Y Cynulliad yn datblygu mwy ar yr ardaloedd strategol drafft; 6. Ystyried sut i ymdrin â datblygiadau ynni gwynt a gynigir y tu allan i'r ardaloedd strategol.	Cyhoeddwyd TAN8 ar ei newydd wedd– Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy yn 2005. Cyhoeddwyd yr MIPP – Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy yn 2005, gan adolygu'r rhan hon o Bolisi Cynllunio Cymru (PPW).	Nod y polisi yw rhoi canllawiau ar bolisi cynllunio cenedlaethol er mwyn cefnogi'r PPW, wedi'i anelu'n bennaf at awdurdodau cynllunio lleol. Roedd y polisïau diwygiedig yn cynnwys Saith Ardal Chwilio Strategol (SSA). Mae angen ystyried cynlluniau datblygu a gynhyrchir gan awdurdodau cynllunio lleol. Mae'r polisïau cynllunio diwygiedig bellach yn cymryd agwedd mwy gweithredol tuag at brosiectau ynni adnewyddadwy.

Bu nifer o brosiectau datblygu polisi hefyd wrthi'n casglu data, er enghraifft, nododd adroddiad Hwyluso Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy yng Nghymru ardaloedd chwilio strategol ar gyfer datblygu ynni atraeth graddfa fawr. Cefnogwyd llawer o brosiectau amrywiol (40%), ac er bod y gwariant yn gymharol uchel (24%), nid yw'n anghymesur. Mae mwyafrif y prosiectau hyn yn uniongyrchol berthnasol i'r Rhaglen, ond nid ydynt yn gynlluniau ymchwil ynddynt eu hunain. Er enghraifft, maent yn cynnwys yr Astudiaeth Gwmpasu ei hun, a'r broses o olygu dogfennau polisi allweddol, megis y PPW.

Mae'r sail wybodaeth a gasglwyd wedi'i defnyddio'n helaeth i lywio polisi, cyfeiriwyd at y cysylltiadau yn glir yn y dogfennau polisi dilynol, er enghraifft mae MTAN 1[41] yn nodi'n glir ganfyddiadau ymchwil nifer o astudiaethau gan gynnwys: Crushed Rock Sand yn y De, 2000, a Tomenni Gwastraff Llechi Gogledd Cymru - Ffynhonnell Agregau Eilaidd Gynaliadwy?, 2001.

Er bod lleihau gwastraff ac ailgylchu yn feysydd polisi allweddol ar gyfer yr Is-adran Gynllunio a'r Cynulliad, ni ariannwyd unrhyw brosiectau o dan y Rhaglen. Mae hyn oherwydd bod gan un o gyllidebau eraill y Cynulliad sy'n canolbwyntio ar ddatblygu a gweithredu strategaeth wastraff y Cynulliad, ddigon o adnoddau i ariannu'r gwaith hwn. Fel y dywedodd un rhanddeiliad allanol:*"Dyw hi ddim yn bwysig pa un o gyllidebau'r Cynulliad sy'n ariannu'r ymchwil; yr ymchwil ei hun sy'n bwysig."*

4.3 Themâu'r Rhaglen

Nododd yr Astudiaeth Gwmpasu dair thema ymchwil hirdymor i'r WPRP fynd i'r afael â hwy: cynllunio gofodol; datblygu cynaliadwy; a chynllunio gwledig. Yn ôl yr Astudiaeth, mae'r tair thema hyn yn cwmpasu'r materion a ddaeth i'r amlwg yn ein hymgynghoriad eu bod o bwys penodol i gynllunio yng Nghymru.

4.3.1 Cynllunio Gofodol

Ers cyhoeddi'r Astudiaeth Gwmpasu, mae cynllunio gofodol yn un o bolisïau strategol y Cynulliad. O ganlyniad, mae Cynllun Gofodol Cymru bellach yn un o swyddogaethau canolog y Cynulliad ac mae y tu allan i gylch gwaith yr WPRP. Fodd bynnag, erys synergedd rhwng y Cynllun Gofodol a chynllunio defnydd tir, er yr argymhellwyd gan randdeiliaid yn ystod yr adolygiad hwn nad oedd y cysylltiadau rhwng yr Is-adran Gynllunio a thîm y Cynllun Gofodol mor gryf ag y gallent fod.

[41] Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (MTAN) 1: Agregau, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004.

4.3.2 Datblygu Cynaliadwy

Mae Datblygu Cynaliadwy hefyd yn un o bolisïau corfforaethol y Cynulliad, ac mae hefyd yn egwyddor allweddol sy'n ategu'r gwaith o gynllunio defnydd tir . Mae felly'n rhan annatod o'r holl waith ymchwil a gomisiynir. Amlygwyd yn ystod nifer o'r cyfweliadau â'r rhanddeiliaid allanol fod yr ymchwil a gynhaliwyd i gefnogi polisi cynllunio Cymru yn datblygu agwedd fwy cynaliadwy; awgrymwyd, hyd yn oed, fod hwn yn waith enghreifftiol o'i gymharu â'r hyn sydd ar y gweill yn Lloegr. Roedd un o'r enghreifftiau a nodwyd yn awgrymu bod Cymru yn fodlon herio gallu ymarferol amgylcheddol er mwyn bodloni'r galw am agregau, lle nad oedd Lloegr yn gwneud hynny.

4.3.3 Cynllunio Gwledig

O'r 47 o brosiectau ymchwil a ariannwyd o dan y Rhaglen, roedd chwech (13%) o natur wledig uniongyrchol, ac eithrio ymchwil ar fwynau, sydd o reidrwydd yn debygol o effeithio ar gefn gwlad a'r economi wledig. Roedd y chwe chontract hyn yn cyfrif am 17% o gyfanswm y gwariant.

4.4 Casgliadau Strategol

Mae'r adran hon wedi ystyried a yw'r ymchwil a gynhaliwyd wedi bodloni amcanion a themâu ymchwil gwreiddiol yr Astudiaeth Gwmpasu mewn gwirionedd. Mae'n bwysig pwysleisio fod yr Astudiaeth Gwmpasu wedi gosod y paramedrau y gallai'r WPRP weithredu o'u mewn. Fodd bynnag, roedd gofyn i'r WPRP ddiwallu anghenion ymchwil polisïau newydd a oedd yn dod i'r amlwg hefyd, ac felly nid oedd wedi'i gyfyngu gan argymhellion yr Astudiaeth Gwmpasu. Yma, tynnwn ynghyd brif gasgliadau'r prosiectau a gefnogir o dan yr WPRP o ran amcanion a themâu ymchwil yr Astudiaeth Gwmpasu.

- Caiff bron i 60% o'r prosiectau ymchwil a gefnogir eu halinio'n uniongyrchol â'r Astudiaeth Gwmpasu, gan gyfrif am ryw 76% o'r gwariant. Roedd y gweddill, sef 40% o'r prosiectau, ar gyfer cefnogi'r Grwpiau RAWP (Gweithgorau Agregau Rhanbarthol) yn bennaf, gan olygu a chasglu dogfennau polisi neu ymchwil sy'n benodol i achosion.

- Er y gellid priodoli 60% o'r prosiectau i un o amcanion unigol yr Astudiaeth Gwmpasu, fel arfer, gallant gefnogi mwy nag un o'r amcanion. Er enghraifft, mae'n bosibl mai casglu gwybodaeth a wnânt yn bennaf, ond byddai hyn naill ai'n cyfrannu at greu polisïau neu at lywio systemau y mae eu hangen i wella'r system gynllunio.

- Yn nhermau'r themâu ymchwil gwreiddiol a gynigiwyd gan yr Astudiaeth Gwmpasu, maent oll wedi'u cefnogi fel themâu. Fodd bynnag, ers hynny, mae fframwaith strategol y

Cynulliad wedi newid ac wedi datblygu. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu at ddulliau o weithredu sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy corfforaethol a chynllunio gofodol. O ganlyniad, mae gweithgarwch cynllunio gofodol wedi dirywio o dan yr WPRP. Fodd bynnag, erys datblygu cynaliadwy yn thema gref.

- Mae gwastraff wedi'i gynnwys yn y Rhaglen. Fodd bynnag, mae gweithgareddau sy'n ymwneud â hyn wedi'i ariannu gan strategaeth Yn Gall gyda Gwastraff y Cynulliad, er bod yr Is-adran Gynllunio yn ymwneud â chomisiynu contractau i ddiwallu anghenion polisi cynllunio.

5.0 Llywio'r Broses o Ddatblygu Polisi

5.1 Cyflwyniad

Yn yr Adran hon, ystyriwn a yw'r prosiectau ymchwil wedi cyfrannu at y broses o ddatblygu polisi. Defnyddiwn bedwar maen prawf, sef:

- Amserlenni a pherthnasedd yr ymchwil;
- Rhyngweithio â rhaglenni ymchwil mewnol ac allanol eraill;
- A ellid cael canlyniadau o ffynonellau eraill, a hynny mewn ffordd fwy effeithiol;
- Rhwystrau i'r broses o ddatblygu polisi.

Mae'r gefnogaeth ar gyfer y dadansoddiad hwn yn seiliedig ar ymgynghoriadau a gynhaliwyd â rhanddeiliaid unigol, y grwpiau gweithdy a'r dadansoddiad o'r astudiaeth achos.

5.2 Y Berthynas Rhwng y Cylch Polisi ac Ymchwil

Mae'r cylch polisi yn ymwneud ag oed polisi. Mae'r cylch yn dechrau adeg ffurfio'r polisi ac yn parhau hyd at adeg adolygu'r polisi. Mae'n cynnwys nifer o elfennau, gan gynnwys asesiad anghenion / ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ffurfio'r polisi, rhoi'r polisi ar waith, monitro'r polisi, a'i werthuso.

Hyd yn hyn, mae'r WPRP wedi canolbwyntio ar gomisiynu gwaith ymchwil, fel sail wybodaeth ar gyfer datblygu polisi, sydd wedi cefnogi'r broses o ddatblygu polisi.

5.3 Prydlondeb a Pherthnasedd yr Ymchwil

Ers sefydlu'r Cynulliad cydnabuwyd yr angen i fabwysiadu ymrwymiad corfforaethol i ddatblygu polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Barna fynegwyd yn fewnol yw bod y Cynulliad wedi bod wrthi'n datblygu ffordd o gynhyrchu polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Fodd bynnag, mae'r WPRP yn faes ymchwil sydd wedi datblygu dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth o gefnogi'r broses o ddatblygu polisi cynllunio ers y cychwyn (2000). Drwy gynnal gwerthusiad cyn unrhyw ofynion corfforaethol neu adolygiadau, mae'r broses werthuso gynnar hon yn ymddygiad enghreifftiol.

Yn gyffredinol, croesawyd yr ymchwil a gynhaliwyd o dan yr WPRP. Mewn llawer o achosion, cafwyd cysylltiad clir rhwng yr ymchwil a wnaed a'r polisi a gyhoeddwyd, er

enghraifft ym Mwynau TAN 1 - Agregau (MTAN1) a TAN 8 – Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy.

Yn y cychwyn cyntaf, roedd natur Gymreig nodedig yr ymchwil yn wan, fodd bynnag, mae'r systemau cynllunio a'r sail bolisi yn wahanol i'r achos yn Lloegr, ac mae anghenion yn dod i'r amlwg sy'n benodol i Gymru. Mae'r fframwaith polisi sy'n datblygu yng Nghymru yn wahanol i'r fframwaith yn Lloegr bellach. Yn ôl un o'r rhanddeiliaid allanol:

"Yn gyffredinol, mae'r gwaith yng Nghymru yn fwy 'gwyrdd' na'r gwaith a gomisiynwyd gan ODPM.Ceir neges gyson i fod yn gynaliadwy bob amser – dyma wahaniaeth amlwg ym mholisi Cymru."

Fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynghylch canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â Chymru'n unig. Yn ôl un o'r rhanddeiliaid allanol: *"Mae angen edrych yn ehangach a pheidio â dod yn rhy ynysol."* Mae hefyd angen bod yn fwy ymarferol ynghylch yr hyn y gellid ei gyflawni drwy'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael yng Nghymru, ac felly mae angen canolbwyntio'r ymdrechion ar ymchwil na chaiff ei chynnal mewn mannau eraill.

Dengys Ffigurau 5.1 a 5.2 y berthynas rhwng y gwaith o ddatblygu polisi a'i gyhoeddi (ardal a gysgodir) a dyddiad cyhoeddi'r ymchwil gysylltiedig (cyfeirnod). Mae'r llinell amser a ddefnyddir yn dechrau ym 1996, sy'n cynnwys y pwynt lle y cyhoeddwyd y TANau cyntaf yng Nghymru. Disgwylid y byddai'r ymchwil – a nodwyd yn ôl y cyfeirnod – yn digwydd cyn cyhoeddi'r polisi – a nodir gan yr ardal a gysgodir – o 2000 ymlaen.[42]

Fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn ymarferol, yn bennaf oherwydd argaeledd gallu ymarferol ac adnoddau i gomisiynu digon o waith ymchwil i gefnogi anghenion polisi cynllunio yng Nghymru. Mae'r broses o ddatblygu TAN yn weithgarwch sy'n defnyddio llawer o adnoddau, a gall bob un cymryd llawer o amser i'w gynhyrchu.

Dengys y Ffigurau fod y cylch polisi yn dechrau dod i'r amlwg, o gasglu'r sail wybodaeth i ddatblygu'r polisi. Yr hyn sydd ar goll o'r broses, am ei bod yn rhy gynnar ar hyn o bryd, yw adolygu a diwygio'r polisïau hyn. Mae'n debygol o fod yn broses hirdymor hyd nes cyrraedd y pwynt lle bydd cylch cyflawn a pharhaus ar gyfer pob un o'r meysydd polisi, h.y. lle mae set gyflawn o TANau a MTANau yn seiliedig ar dystiolaeth yn cael eu hadolygu a'u diwygio. Bydd angen mwy o fuddsoddiad mewn ymchwil ac adnoddau er mwyn cyflawni hynny.

[42] Dengys hyn yn Ffigur 5.2 o ran TAN 8 a MTAN 1.

Ffigur 5.1 Amserlen Polisi / Ymchwil - Polisi Cynllunio a Dogfennau Strategaeth

	1996	1997	1998	1999	2000	2001	2002	2003	2004	2005
Cymru: Gwlad Well										
Cynllun Datblygu Cynaliadwy										
Cynllun Gofodol Cymru					**2,3**	**4**				
Cymru: Economi yn Ffynnu (WAVE)										
Astudiaeth Gwmpasu PRP				**1**						
Polisi Cynllunio Cymru (PPW)							**5,10**	**6**		
Polisi Cynllunio Mwynau Cymru (MPPW)					**11,12,13**	**14**				

Ffynhonnell: Llywodraeth Cynulliad Cymru

Cyhoeddiad: Drafft Ymgynghori:

Allwedd: Prosiectau Ymchwil

1 Astudiaeth Gwmpasu Ymchwil Cynllunio Defnydd Tir
2 Astudiaeth Goblygiadau Gofodol Cynllunio Defnydd Tir
3 Astudiaeth Gwmpasu Strategaethau Rhanbarthol
4 Methodoleg Cynllunio Gofodol Cymharol
5 Cynllunio: Cyflawni dros Gymru
6 Adolygiad o Ddangosyddion Cynllunio Defnydd Tir
7 Defnyddio Methodolegau Hygyrchedd mewn Cynllunio Defnydd Tir
8 Tyr Economi Wledig a'r System Gynllunio
9 What Sort of Countryside do we want?
10 Gwerthusiad Cynaliadwy o Gynlluniau Datblygu yng Nghymru
11 Crushed Rock Sand yn Ne Cymru
12 Appraisal of Land-Based Sand & Gravel Resources yn Ne-ddwyrain Cymru
13 Bristol Channel Marine Aggregates: Resources & Constraints
14 Tomenni Gwastraff Llechi Gogledd Cymru - Ffynhonnell Agregau Eilaidd Gynaliadwy?
15 Arallgyfeirio Ffermydd a'r System Gynllunio
16 Asesiad ar gyfer Cynllunio Perygl Llifogydd yng Nghymru
17 Second & Holiday Homes & the Land Use Planning System
18 The Potential for Wind Power in Urban, Industrial & Commercial Sites in Wales
19 Hwyluso Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy yng Nghymru: Cwrdd â'r Targed
20 Anheddau Hanfodol mewn Ardaloedd o Gefn Gwlad Agored
21 Mapping Areas of Sub-Regional Waste Sites
22 Datblygiad Bach ei Effaith

Ffigur 5.2 Ymchwil TAN: Amserlen Cyhoeddi

	1996	1997	1998	1999	2000	2001	2002	2003	2004	2005
TAN 1 Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai										
TAN 2 Cynllunio a Thai Fforddiadwy							17		9	
TAN 3 Parthau Cynllunio wedi'u Symleiddio										
TAN 4 Manwerthu a Chanolfannau Trefol										
TAN 5 Cadwraeth Natur a Chynllunio										
TAN 6 Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig									9	
TAN 7 Rheoli Hysbysebu Awyr Agored										
TAN 8 Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy								18	19	
TAN 9 Gorfodi Rheolaeth Cynllunio										
TAN 10 Gorchmynion Cadw Coedwig										
TAN 11 Sŵn										
TAN 12 Dylunio									9	
TAN 13 Twristiaeth										
TAN 14 Cynllunio Arfordirol										
TAN 15 Datblygiad a Pherygl Llifogydd								16		
TAN 16 Chwaraeon a Hamdden										
TAN 18 Trafnidiaeth										
TAN 19 Telegyfathrebu T										
TAN 20 CDUau Iaith Gymraeg a Rheoli Cynllunio										
TAN 21 Gwastraff										21
Nodyn Cyngor Technegol Mwynau ((NCTM) 1					11,12,13	14				

Ffynhonnell: Llywodraeth Cynulliad Cymru (ar gyfer yr Allwedd, gweler Ffigur 5.1)

5.4 Rhyngweithio â Rhaglenni Ymchwil Mewnol ac Allanol Eraill

Yn wreiddiol, disgwyliai'r Astudiaeth Gwmpasu y dylai'r Rhaglen ganolbwyntio ar anghenion ymchwil mewnol. Y bwriad oedd y byddai cyfran yr adnoddau a ddefnyddid i gyfrannu tuag at ymchwil gydweithredol yn cynyddu dros amser. Yn 2003, roedd gwariant ar y prosiectau cydweithredol yn cyfrif am 32%[43] o gyfanswm y gwariant; roedd yr Astudiaeth Gwmpasu wedi rhagweld gwariant o 20%. Fodd bynnag, ers yr amser hwn, mae'r gwariant ar y prosiectau cydweithredol wedi lleihau.

5.4.1 Rhaglenni Ymchwil Mewnol

Mae profiad yr WPRP yn nodi anhawster wrth sicrhau cyfatebolrwydd a chysylltiadau rhwng y meysydd polisi. Nododd mwyafrif y rhanddeiliaid allanol y pwynt fod Adrannau'r Cynulliad yn gweithredu o fewn "seilos", ag ychydig o gysylltiadau rhwng y meysydd ymchwil. Teimlwyd fod yr WPRP yn ceisio goresgyn y rhwystrau hyn, ond nad oedd isadrannau eraill y Cynulliad yn gwneud yr un fath o reidrwydd.

Un maes penodol a amlygwyd gan randdeiliaid allanol oedd y Cynllun Gofodol, a oedd wedi deillio, mewn gwirionedd, o'r WPRP. Teimlwyd y dylai'r WPRP a'r Cynllun Gofodol *"ddod at ei gilydd er mwyn sicrhau bod y gwaith ymchwil yn ddefnyddiol."* Barn gyffredinol y rhanddeiliaid allanol ar hyn o bryd oedd *"nad yw'r berthynas rhwng yr WPRP a'r Cynllun Gofodol mor gryf ag y dylai fod."* Erys angen dirfawr i gysylltu'r ddau faes ymchwil, ac i ystyried yr isranbarthau a nodwyd drwy'r Cynllun Gofodol o fewn y broses gynllunio.

Mae'n hanfodol fod yna gysylltiadau polisi ardraws y Cynulliad, fel nad yw'r polisi ar gyfer un gwasanaeth yn cael ei danseilio gan bolisi ar gyfer gwasanaeth arall. Nodwyd enghraifft o hyn yn ystod yr ymgynghoriadau â'r rhanddeiliaid, sef diffyg cyfeirio at faterion sy'n ymwneud â pholisi cynllunio yn y Strategaeth Datblygu Economaidd - WAVE.

Bwriedir i'r WPRP ymdrin ag ymchwil gwastraff sy'n ymwneud â pholisi cynllunio. Fodd bynnag, mae gan Uned Strategaeth Wastraff Cymru, sydd hefyd o fewn Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (EP&C), gyllidebau mawr a all gefnogi'r gwaith hwn. Felly, er bod polisi cynllunio sy'n ymwneud â gwastraff yn dod o dan gylch gwaith yr WPRP, fe'i hariennir gan un o gyllidebau arall y Cynulliad. Mae'r Is-adran Gynllunio yn dal i reoli ei chomisiwn i sicrhau bod anghenion ymchwil polisi cynllunio yn cael eu diwallu.

[43] Mae hyn yn cynnwys prosiectau ymchwil cydweithredol, yn ogystal â chyfrannu at redeg dau o Grwpiau RAWP Cymru.

5.4.2 Rhaglenni Ymchwil Allanol

Mae nifero glytiau o weithgarwch ymchwil yn cael eu cynnal yng Nghymru o ran yr WPRP, gan gynnwys CLILC ac CCNCau megis y WDA gynt, Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCW) ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (EAW). Bu nifer o achosion lle mae'r WPRP wedi gweithio gyda'r rhaglenni ymchwil allanol hyn, naill ai yn eu harwain neu'n cyfrannu atynt. Er enghraifft, arweiniwyd yr Astudiaeth Datblygu Bach ei Effaith gan CCW a bu EAW yn cyfrannu tuag at Asesu Risg Llifogydd ar gyfer prosiect Cynllunio yng Nghymru, a gomisiynwyd ac a reolwyd o dan yr WPRP.

Nodwyd rhyngweithio effeithiol â'r WDA gynt yn broblem benodol. Cyfyngedig fu'r rhyngwyneb rhwng yr WPRP a'r WDA gynt, er y gwnaed ymdrechion i rannu cynlluniau ymchwil gan yr Is-adran Gynllunio. Nododd un rhanddeiliad enghraifft sy'n dangos sut y gall hyn fynd yn broblem, sy'n ymwneud â Strategaeth Eiddo'r WDA gynt, lle na wnaed unrhyw gysylltiad â pholisi cynllunio Cymru. Weithiau, mae'n bosibl nad yw rhai safleoedd yn cydweddu â fframwaith polisi cynllunio. Fodd bynnag, mae cwmpas yma ar gyfer ymgynghori ar strategaethau a ddiwygir yn y dyfodol, gan gynnwys WAVE a chyfleoedd ar gyfer ymchwil ar y cyd. Rhydd yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau y cyfle i hwyluso hyn.

O ganlyniad i'r ffaith fod cyllideb gymharol fach y Cynulliad, o gymharu â chyllideb ymchwil yr Adran dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau s (DETR) gynt, amlygodd yr Astudiaeth Gwmpasu *"rhaid cynnal cysylltiadau agos â chyrff eraill er mwyn gwneud y defnydd mwyaf o'r cyllid ac ychwanegu gwerth i'r Rhaglen."* Fodd bynnag, dros amser, ac yn enwedig ers datganoli, mae'r cysylltiadau â DCLG / ODPM / DETR wedi gwanhau. Un o'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at hyn yw'r ffaith fod swyddogaeth ymchwil y DCLG wedi'i had-drefnu, a bellach ni cheir rhaglen ymchwil gynllunio unigol.[44] Mae'r cysylltiadau â rhaglen ymchwil i fwynau'r DCLG wedi parhau. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod y DCLG wedi cadw hon ar wahân, am ei bod yn dueddol o ymwneud â set wahanol o ddisgyblaethau i'r rheini sy'n ymwneud â'i Raglen Cymunedau Cynaliadwy, y caiff ymchwil gynllunio ei chynnal oddi tan ei baner yn bennaf ar hyn o bryd.

[44] Caiff rhaglen ymchwil y DCLG ei datblygu drwy'r Tîm Cydgysylltu Dadansoddol bellach. Mae aelodau pedwar tîm dadansoddol y DCLG – newid defnydd tir, tai, economeg ac ymchwil a gwerthuso – yn rhoi syniadau ar gyfer yr ymchwil a datblygir y rhaglen ar sail y rhain. Nid yw ymchwil gynllunio yn cael ei gweld yn ynysig bellach yn y DCLG – yn hytrach, fe'i hystyrir o dan rhaglenni eraill, megis y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy, sy'n annog symud tuag at dimoedd cymysg sy'n canolbwyntio ar bolisïau ac integreiddio swyddogaethau dadansoddol. O ganlyniad, mae llai o ymchwil o lawer yn canolbwyntio'n benodol ar y system gynllunio – mae Prosiect Cynlluniau Gofodol ar Waith (a elwir gynt yn Astudiaeth Weithredu'r Fframwaith Datblygu Lleol (LDF) yn eithriad. Cafwyd y dystiolaeth a'r dadansoddiad yn yr astudiaeth i gefnogi'r broses o weithredu'r system LDF newydd ac iasesu a yw'n bodloni amcanion polisi ehangach. Gellir gweld yr astudiaeth hon yn: http://www.odpm.gov.uk/pub/240/SpatialPlansinPracticeBulletin1PDF127Kb_id1143240.pdf

Ymddengys fod yna farn gyffredinol y bydd yr awdurdodau datganoledig yn cynnal eu hymchwil eu hunain ac y bydd DCLG yn canolbwyntio ar astudiaethau sy'n ymwneud â Lloegr yn unig. Fodd bynnag, bu achosion lle y gwahoddwyd y Cynulliad i ddarparu adnoddau ariannol ychwanegol er mwyn cynnwys astudiaethau achos Cymreig o fewn prosiect ymchwil a gomisiwynwyd gan y DCLG. Er enghraifft, ymchwil telegyfathrebu a'r Arolwg Cloddio Glo Brig [45] 2004, y cyfrannodd yr Is-adran Gynllunio tuag ato. Yn ôl un o'r rhanddeiliaid:

"Er ei bod yn ddefnyddiol cael adnodd ar wahân yng Nghymru, os gellir defnyddio ymchwil ODPM, ni ddylid gwastraffu adnoddau."

Ariannwyd nifer o fentrau, gan gynnwys astudiaethau ymchwil, drwy Raglenni Interreg Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF), sydd wedi canolbwyntio'n benodol ar faterion sy'n ymwneud â chynllunio gofodol. Ymddengys nad oed cysylltiad, megis rhannu canfyddiadau, rhwng yr WPRP ac Is-adran Materion Ewropeaidd a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) sy'n rheoli mewnbwn Cymru o'r Rhaglenni hyn. Mae'n bosibl bod cyfleoedd yma i gydweithredu yn y dyfodol. Er enghraifft, mae'r prosiect canlynol wedi'i ariannu o dan Raglen Interreg IIIB Ardal yr Iwerydd:

Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol: Tuag at Weledigaeth yr Iwerydd
"Nod y prosiect yw ysgogi proses gynaliadwy o ddatblygu parthau arfordirol Ardal yr Iwerydd o safbwynt amgylcheddol, cymdeithas ac economaidd, drwy annog gweithredu a rheolaeth datblygu rhanbarthol integredig. O ystyried na cheir canfyddiad unffurf o'r diriogaeth hon, bwriad y prosiect yw gwneud argymhellion i grey gweledigaeth gyffredin: dyma yw Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol - ICZM."

Nod y prosiect yw:

- *"Nodi nodweddion penodol Ardal yr Iwerydd;*
- *Hwyluso mesurau'r Gwladwriaethau dan sylw ar gyfer y dyfodol o fewn fframwaith datblygu rhanbarthol hirdymor a datblygu cynaliadwy gweithgareddau economaidd ac adnoddau naturiol;*
- *Darparu fframwaith gweithio cydlynol ar gyfer mentrau mewn parthau arfordirol, gan alluogi integreiddio syniadau a chamau yn llorweddol ac yn fertigol;*
- *Cyfrannu at brosesau gwell o reoli a diogelu'r arfordir."*

[45] Mae hwn yn casglu ystadegau ar gyfer cronfeydd, cynhyrchu a chaniatad cynllunio mewn perthynas ag echdynnu glo brig.

Mae enghraifft bellach o brosiect a ariennir gan Interreg sydd â chysylltiadau posibl â'r WPRP yn deillio o Raglen Interreg IIIA Iwerddon / Cymru:

IMAGIN (Irish Sea Marine Aggregates Initiative)
"Nod cyffredinol prosiect IMAGIN yw hwyluso esblygiad fframwaith strategol ar gyfer datblygu a manteisio ar adnoddau agregau morol o Fôr Iwerddon, a'i reoli'n gynaliadwy gyda'r effaith leiaf bosibl ar amgylcheddau morol ac arfordirol, ecosystemau a defnyddwyr eraill y môr. Er mwyn cyflawni hyn, bydd y prosiect yn tynnu ynghyd partneriaeth trawsgenedlaethol o ddiddordebau diwylliannol ac academaidd er mwyn darparu set o argymhellion manwl â nodiadau ategol a fydd yn rhoi fframwaith strwythuredig o wybodaeth strategol a chanllawiau ar gyfer rheoleiddwyr a datblygwyr posibl yn yr holl agweddau allweddol ar weithgareddau echdynnu morol yn Ne Môr Iwerddon."[46]

5.5 A Ellid Cael Canlyniadau o Ffynonellau Eraill, a Hynny Mewn Ffordd Fwy Effeithiol

Y prif faes sy'n codi wrth drafod a ellid cael canlyniadau ymchwil yn fwy effeithiol o ffynonellau eraill, yn ymwneud â pherthynas y WPRP a'r ODPM. Ymddengys fod yna ddiffyg eglureb o ran y cysylltiadau ag ODPM a'i ymchwil, o'r ddwy ochr a chyda rhanddeiliaid allanol, fel y cyfeiriwyd ato eisoes yn 5.4.2.

Roedd gan y rhanddeiliaid allanol wahanol farn ynghylch yr angen am ymchwil ar wahân yng Nghymru ar gyfer y mwyafrif o faterion. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r farn ei bod yn ddilys cael rhaglen ymchwil ar wahân i Gymru, am fod polisi penodol i Gymru wedi dod i'r amlwg ers datganoli. Golyga hyn fod gan y Cynulliad agwedd wahanol at bolisi na Lloegr, a'r gwahaniaeth mwyaf yw ei agwedd integredig at ddatblygu cynaliadwy. Fodd bynnag, mater penodol i'r rheini sy'n ymwneud â datblygu a gweithredu polisi cynllunio yng Nghymru yw ei bod yn aml yn aneglur a yw ymchwil yr ODPM yn berthnasol i Gymru, h.y. a ddefnyddiwyd tystiolaeth o Gymru yn ystod yr ymchwil?

Yn gysylltiedig â hyn, mae diffyg ymwybyddiaeth o'r ymchwil a gynhaliwyd gan wahanol sefydliadau. Cododd rhanddeiliaid allanol a mewnol yr angen i ddatblygu a rhannu gwybodaeth am weithgareddau ymchwil. Byddai cyfathrebu ar gynnwys rhaglenni ymchwil cysylltiedig perthnasol yn helpu tuag at sicrhau bod ymchwil yn cael ei chomisiynu gan y sefydliad mwyaf effeithiol ac na chaiff yr ymchwil ei dyblygu. Golyga hyn hefyd cyfathrebu am yr ymchwil sydd ar droed, ymchwil sydd ar y gweill a pha bryd y caiff yr ymchwil ei chwblhau. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i sefydliadau sydd â diddordeb i fod yn rhan o weithgareddau ymchwil a'u chydweddu â'i gilydd.

[46] http://www.wefo.wales.gov.uk/default.asp?action=projectdetail&ID=86&ProjectID=56342

5.6 Rhwystrau i'r Broses o Ddatblygu Polisi

Nododd yr adolygiad nifer o rwystrau i'r broses o drosi ymchwil yn bolisi. Y cyntaf oedd lefel yr adnoddau a oedd ar gael yn yr Is-adran Gynllunio. Mae nifer gymharol fach o swyddogion yn gyfrifol am gomisiynu'r ymchwil a datblygu'r canfyddiadau i gefnogi'r broses o ddatblygu polisi. Gall hyn arwain at broses gymharol araf. Fodd bynnag, mae'r model o ddefnyddio'r un swyddog i reoli ymchwil a datblygu'r polisi yn cael ei weld fel model cadarnhaol, am fod hyn yn ei gwneud yn bosibl i integreiddio ar draws y cylch polisi.

Mae'r ail fater a godwyd o ran datblygu polisi yn ymwneud â 'r adnoddau y mae eu hangen wrth ei weithredu mewn gwirionedd, yn hytrach na'i ddatblygu. Cododd y sefyllfa hon mewn perthynas â'r gwaith a wnaed ar dir a ddatblygwyd o'r blaen, lle'r oedd angen buddsoddiad sylweddol ar y systemau i roi'r polisi ar waith. Fodd bynnag, roedd yn anodd i unrhyw un o Is-adrannau'r Cynulliad neu i asiantaeth allanol gymryd perchenogaeth o'r prosiect oherwydd lefel yr adnoddau yr oedd eu hangen.

Fel y trafodwyd yn adran 2, mae gan y Cynulliad bellach set gynhwysfawr o strategaethau corfforaethol a strategaethau sy'n benodol i bolisïau sy'n ymwneud â'i feysydd o gyfrifoldeb, wedi'u hategu gan gyfres o werthoedd craidd. Mae angen i unrhyw bolisïau newydd neu bolisïau a ddiwygir gydweddu â'r fframwaith polisi corfforaethol hwn. Yn bwysicach fyth, mae angen ewyllys gwleidyddol i ddatblygu'r polisi. Er nad yw hwn yn rhwystr negyddol o reidrwydd, mae'n golygu bod angen i'r polisïau cydweddu â'r fframwaith a bodloni blaenoriaethau gwleidyddol. Mae blaenoriaethau polisi wedi arwain y broses o ddatblygu polisi o ran y gwaith a wnaed ar ymchwil a datblygu polisi ynni adnewyddadwy.

5.7 Casgliadau Strategol

Mae'r adran hon wedi ystyried a yw'r ymchwil a gomisiwynwyd wedi llywio'r broses o ddatblygu polisi cynllunio. Rydym wedi ystyried a fu'r ymchwil yn brydlon, sut mae'r WPRP yn rhyngweithio â rhaglenni ymchwil eraill, gan gynnwys a oes yna ffynonellau amgen a allai ymgymryd â'r ymchwil ac eithrio WPRP. Nodir ein casgliadau allweddol isod:

- Bu'r Rhaglen yn weithredol ers diwedd 2000, a bellach mae patrwm o ymchwil sy'n llywio'r broses o ddatblygu polisi yn dod i'r amlwg. Ceir rhai achosion penodol lle y cynhaliwyd y gwaith ymchwil ac mae'r polisi cysylltiedig naill ai wedi'i gyhoeddi neu wrthi'n cael ei ddatblygu. Mae'r rhain yn cynnwys TAN2 (Nodyn Cyngor Technegol) Cynllunio a Thai Fforddiadwy, TAN8 Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy, TAN 15 Datblygu a Pherygl Llifogydd a MTAN1 Agregau.

- Y patrwm hwn yw'r llinyn cyswllt rhwng datblygu'r sail dystiolaeth a pholisi ac mae hefyd yn awgrymu bod dull cylch polisi o ddatblygu polisi cynllunio ar y gweill, er ei bod yn rhy gynnar ar hyn o bryd i ddangos y cylch cyfan ar gyfer unrhyw bolisi penodol.

- Ceir rhywfaint o weithgarwch comisiynu ar y cyd ag Adrannau ac Isadrannau'r Cynulliad o fewn Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, er enghraifft y rheini sy'n ymwneud â gwastraff. Fod bynnag, teimlir y gellid atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng y meysydd polisi er mwyn sicrhau eu bod yn ategu'i gilydd.

- Ceir cysylltiadau â sefydliadau allanol i gynnal prosiectau ymchwil ar y cyd, er enghraifft Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCW) ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Ystyrir fod hwn yn ddull cadarnhaol o gomisiynu ymchwil drwy gyfuno adnoddau a sicrhau bod gwahanol sgiliau a gwybodaeth yn cyfrannu at y briffiau ymchwilio a'u rheolaeth.

- Ceir perthnasoedd cydweithio gyda'r Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG). Fodd bynnag, ers datganoli ac ad-drefnu'r swyddogaeth ymchwilio o fewn ODPM, nid yw'r cydweithio mor eang ag y bu. Gan arwain ymlaen o hyn, ceir hefyd rhywfaint o ddryswch, yn bennaf o ran y buddiannau allanol, ynghylch p'un a yw'r ymchwil a wnaed gan ODPM yn berthnasol i Gymru.

- O ystyried bod y cysylltiadau ag ODPM yn gwanhau a bod polisi nodedig i Gymru yn dod i'r amlwg, cefnogir y syniad o barhau ag ymchwil penodol i Gymru, gyda chydweithio, yn enwedig lle mae hyn yn esgor ar fuddion o ran adnoddau.

- Yn nhermau'r rhwystrau i'r gwaith ymchwil sy'n llywio'r broses o ddatblygu polisi, mae'r prif fater yn ymwneud â gallu ymarferol yr isadran Gynllunio i gomisiynu a rheoli prosiectau ymchwil a datblygu'r polisi.

6.0 Rhaglen y Dyfodol

6.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn ystyried y cyd-destun yn y dyfodol yn nhermau'r polisi ehangach sy'n berthnasol i'r WPRP. Y nod yw sicrhau bod fframwaith ymchwil sy'n berthnasol i bolisi yn cael ei ddatblygu yn ystod y pum mlynedd nesaf. Wrth wneud hynny, nodwn yn gyntaf rai o'r prif feysydd ar gyfer datblygu polisi. Yn benodol, rydym yn canolbwyntio ar y cysylltiadau â pholisïau eraill y Cynulliad a'u goblygiadau, a thrafodwyd y mwyafrif o'r rhain yn adran 2. Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysafwr, ond mae yn trafod y prif newidiadau sydd ar y gweill. Mae'n sail i'r adran ddilynol sy'n amlinellu a oes angen unrhyw newidiadau i'r amcanion neu'r themâu y mae'r Rhaglen yn canolbwyntio arnynt. Yr hyn sy'n amlwg yn syth yw'r ffaith fod ystod eang o newidiadau polisi ar y gweill, a rheini'n rhai sylweddol, mewn amryw feysydd sy'n berthnasol i gynllunio yng Nghymru. Mae llawer o'r rhain yn gorgyffwrdd, ac ni ellir eu diffinio'n syml.

6.2 Amcanion

Cynigodd yr Astudiaeth Gwmpasu nifer o amcanion allweddol i'r WPRP eu dilyn, sef:

- cefnogi'r broses o ddatblygu polisi cynllunio yng Nghymru sy'n ymateb i anghenion ac amgylchiadau arbennig Cymru;
- cyfrannu at wella'r system gynllunio yng Nghymru;
- gwella'r sail wybodaeth ar gyfer rheoli a datblygu'r broses gynllunio yng Nghymru.

Yn sgil y cyfweliadau â'r rhanddeiliaid a dadansoddiad o'r ymchwil a wnaed hyd yn hyn, mae'r amcanion hyn yn ddilys o hyd. Maent yn nodi'n gryno anghenion y system gynllunio yng Nghymru, ac yna gall yr WPRP fynd i'r afael â hwy. Cynigiwn felly na ddylid ychwanegu unrhyw amcanion pellach at gylch gwaith yr WPRP. Mae digon o hyblygrwydd yn null gweithredu'r Rhaglen i fynd i'r afael â materion penodol a allai godi ar sail ad hoc, nad yw'r amcanion hyn yn ymdrin â hwy.

6.3 Themâu Ymchwil

Awgrymodd yr Astudiaeth Gwmpasu fod yna dair thema ymchwil hirdymor y dylai'r WPRP fynd i'r afael â hwy, sef:

- Datblygu cynaliadwy;
- Cynllunio gofodol;
- Materion gwledig.

Ers cyhoeddi'r Astudiaeth Gwmpasu, mae'r Cynulliad wedi cyhoeddi ei Gynllun Datblygu Cynaliadwy corfforaethol a Chynllun Gofodol Cymru, fel y trafodir yn adran 2. Er gwaethaf hyn, yn ystod ein maes gwaith, erys cefnogaeth gref dros barhau i gynnwys y themâu hyn yn yr WPRP. Erys datblygu cynaliadwy a materion sy'n ymwneud â chynllunio gofodol yn ganolog i'r system gynllunio.

Roedd y rhanddeiliaid allanol a mewnol hefyd yn cefnogi cadw materion gwledig. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i natur wledig rhannau helaeth o Gymru. Fodd bynnag, cynigwyd ymestyn themâu'r Rhaglen i gynnwys materion trefol a'r rheini sy'n ymwneud â sut y mae ardaloedd trefol a gwledig yn rhyngweithio. Roedd cefnogaeth y rhanddeiliaid i gynnwys adnewyddu fel un o'r themâu yn deillio o hyn. Nid oedd hyn wedi'i gyfyngu i adnewyddu trefol yn unig, ond hefyd i adnewyddu o fewn ardaloedd gwledig.

6.4 Cydgysylltu Polisi'r Cynulliad

Fel y trafodwyd yn adran 2, mae'r Cynulliad yn gyfrifol am ystod eang o feysydd polisi sy'n effeithio ar ei gilydd, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Er mwyn goresgyn problemau sy'n ymwneud â diffyg cydgysylltu rhwng polisïau, ac er mwyn galluogi'r broses o ddatblygu a darparu polisïau *"sydd nid yn unig yn bodloni agenda strategol Llywodraeth y Cynulliad ond sy'n gwneud hynny mewn ffordd sy'n gwireddu [ein] hymrwymiadau i ddatblygu cynaliadwy, cyfle cyfartal a chyfiawnder cymdeithasol"*, datblygwyd Offeryn Porth Polisi. Nod yr offeryn yw *"helpu i ysgogi deialog, creu syniadau newydd ac annog meddwl 'cysylltiedig'."* Un o brif ddibenion yr offeryn yw sicrhau bod strategaeth gorfforaethol y Cynulliad - Cymru: Gwlad Well - a'i gwerthoedd craidd yn cael sylw. Defnyddir grŵp sy'n gweithio ar draws isadrannau i asesu pob strategaeth ddrafft a phob polisi cyn iddynt fynd yn destun ymgynghori. Mae Uned Polisi Strategol y Cynulliad yn gyfrifol am ddatblygu a defnyddio'r Offeryn. Mae'r Uned yn darparu hyfforddiant er mwyn sicrhau bod staff y Cynulliad yn gallu defnyddio'r Offeryn yn effeithiol. Maent hefyd yn cydweithio'n agos â defnyddwyr a'r Pwyllgor Polisi i ddiwygio'r Offeryn er mwn sicrhau ei fod yn parhau'n ddeinamig ac yn berthnasol.

6.5 Materion sy'n ymwneud â Pholisi

2.5.1 Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

Mae nifer o bolisïau'r Cynulliad yn berthnasol i'r maes hwn gan gynnwys **Ffermio i'r Dyfodol**, **Cartrefi Gwell**, **Strategaeth yr Amgylchedd** a'r **Cynllun Datblygu Gwledig**, fel y trafodir yn adran 2. O ystyried bod rhannau mawr o Gymru yn ardaloedd gwledig, mae hwn yn faes pwysig i'w ystyried mewn polisïau cynllunio. Mae proses naturiol o symud oddi wrth y ffocws polisi traddodiadol yn digwydd yn raddol yng Nghymru, a oedd yn

dibynnu ar gefnogi'r economi amaethyddol yn uniongyrchol, tuag at bwyslais cryfach ar faterion sy'n ymwneud â materion datblygu gwledig ehangach. Caiff hyn ei atgyfnerthu gan gyd-destun y DU a'r UE sy'n newid, a fydd yn gyrru llawer o'r polisi Cymreig a orfodir yn y maes hwn. Yn benodol, bydd cyflwyno Polisi Amaethyddol Cyffredin (CAP) newydd[47] a Rhaglen Datblygu Gwledig newydd[48] o 2007 yn effeithio'n sylweddol ar ddatblygiadau arfaethedig nad ydynt yn ymwneud â ffermio yng nghefn gwlad. Bydd newidiadau mewn trefniadau ariannu Ewropeaidd ar ôl-2006 yn effeithio'n ehangach ar weithgareddau mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru wrth i raglenni megis LEADER + ddod i ben. Gallai hyn effeithio ar ddyfodol rhai camau domestig ategol. Sefydlwyd grwp gorchwyl a gorffen er mwyn gweld sut y bydd diwygio'r CAP yn newid arferion ffermio sy'n ymwneud â chynhyrchu da byw a rheoli tir. Bydd grwp gorchwyl a gorffen Amaethyddiaeth 2020 yn cynghori Llywodraeth y Cynulliad yn 2007 ar opsiynau ar gyfer cefnogi cynaliadwyedd ffermio a chefn gwlad. Mae gwaith y grow hwn yn debygol o effeithio ar bolisi cynllunio.

Ynghyd â phwyslais cryfach ar ddatblygu gwledig, mae arwyddion bod tai fforddiadwy a datblygu cymunedau cynaliadwy yn dod yn fwy amlwg yn yr agenda polisi gwledig. Mae'r system gynllunio eisoes yn ymgysylltu ag agweddau ar y ddadl hon, drwy ei hymgynghoriadau ar gynllunio a thai fforddiadwy. Bydd angen i'r system ystyried agenda ehangach o gymunedau cynaliadwy wrth ystyried ymatebion priodol, yn enwedig yng nghyd-destun cynnal economi ardaloedd gwledig.

Mae'n bosibl y bydd y system gynllunio yn wynebu heriau newydd o ran datblygu cynaliadwy os bydd camau tuag at dechnegau organig a thechnegau cynhyrchu amaethyddol mwy 'cynaliadwy' yn parhau. Er bod llawer o'r gweithgarwch hwn y tu allan i gylch gwaith y system gynllunio, mae llawer o weithgareddau cynorthwyol a gweithgareddau sydd â chysylltiadau masnachol yn berthnasol.

6.5.1 Tai

Mae Strategaeth Dai genedlaethol gyntaf y Cynulliad, **Cartrefi Gwell**, yn ceisio mynd i'r afael â gwahaniaethau rhanbarthol yn ansawdd a fforddadwyedd cartrefi ledled Cymru. Mae'n glir fod Cartrefi Gwell a pholisi cynllunio perthnasol, gan gynnwys TAN 1 a 2, - a'u gweithrediad - yn parhau i fod yn fater o bryder mawr i'r Cynulliad. Mae hyn yn wir am yr

[47] Cyflwynwyd y CAP ym 1962. Ei rôl heddiw yw sicrhau bod bwyd o ansawdd uchel yn cael ei gynhyrchu ac i ddiogelu'r economi wledig ac i ddiogelu'r amgylchedd, sicrhau iechyd a lles anifeiliaid; cadw'r cydbwysedd cymdeithasol, cadw treftadaeth diwylliannol; sefydlu system farchnata teg sy'n seiliedig ar y farchnad mewn cynnyrch amaethyddol; a sicrhau dyfodol y diwydiant amaethyddol.

[48] Cynllun Datblygu Rhanbarthol Cymru 2000-2006, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, (heb ei ddyddio). Mae gwybodaeth bellach am Raglen Datblygu Gwledig Cymru ar gael yn:
http://www.countryside.wales.gov.uk/fe/master.asp?n1=928&n2=929

holl agweddau ar bolisi tai, o sefydlu cyflenwad tir digonol drwy ryddhau tir ar gyfer tai i fonitro'r cyflenwad o dai. Mae'r mater penodol o dai fforddiadwy yn dra hysbys.

Yng Nghymru, mae'r gwaith o adnewyddu stoc o dai is-safonol yn debygol o fod yn fater ar gyfer awdurdodau lleol, awdurdodau tai a'r rheini sy'n llunio polisïau cenedlaethol am flynyddoedd i ddod. Dylid ystyried goblygiadau hyn ar gyfer y rheini sy'n llunio polisïau.

Bydd angen monitro'n ofalus effaith adolygiadau a gynhelir yn Lloegr, yn enwedig Adolygiad Barker ar y cyflenwad o dai[49] ac adolygiad cyfredol Barker ar gynllunio defnydd tir, sy'n canolbwyntio ar y cysylltiad rhwng cynllunio a thwf economaidd, gan fod yr effaith yn siŵr o gael ei theimlo yng Nghymru. Maes arall lle bydd gweithgarwch ar lefel y DU yn effeithio ar Gymru yw'r adolygiad a arweinir gan Drysorlys EM, sef 'Review of Planning Gain Supplement'.

6.5.2 Yr Amgylchedd

Mae nifer o feysydd polisi sy'n dod o fewn cwmpas **Strategaeth yr Amgylchedd** y Cynulliad (fel y nodwyd yn Adran 2). Mae hyn o ganlyniad i'r ffaith fod y ddogfen yn mynd i'r afael ag ystod eang o 'faterion sy'n flaenoriaeth' gan gynnwys newid yn yr hinsawdd, rheoli'r tirlun, a bioamrywiaeth, sy'n golygu ei fod yn ymestyn ar draws nifer o ddogfennau polisi allweddol eraill a gynhyrchwyd gan y Cynulliad. Un o'r meysydd polisi y mae'r ddogfen yn effeithio arno yw 'arfordir' Cymru, yn enwedig am fod 70% o arfordir Cymru yn destun dynodiadau amgylcheddol. Mae arfordir Cymru hefyd yn destun pwysau gan ddatblygwyr mewn ystod o wahanol gyd-destunau, o dwristiaeth a datblygiadau porthladdoedd i faterion dadleuol o bosibl, megis ffermydd gwynt ar y môr (a datblygiadau eraill sy'n darparu ynni adnewyddadwy). Ar wahân i'r materion hyn sy'n ymwneud â datblygu arfordiroedd, mae pwysau allanol arall ar yr arfordiroedd, yn nhermau carthu dyfrffyrdd ac echdynnu agregau, sy'n golygu bod rôl y system gynllunio wrth reoli parthau arfordirol Cymru yn fwy pwysig. Gallai'r rôl hwn fod yn bwysicach fyth yn y dyfodol o ganlyniad i effeithiau newid yn yr hinsawdd ar arfordir Cymru o bosibl, er nad ydym yn gwybod beth fydd y rhain hyd yn hyn.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar ei strategaeth ddrafft ar gyfer Cymru yn ymwneud â tation on its draft strategy for Wales relating to Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol (ICZM)[50]. Er nad yw'r ddogfen hon eto ar ei ffurf derfynol, mae posibilrwydd y bydd ganddi oblygiadau ar gyfer y system cynllunio

[49] *Review of Housing Supply – Delivering Stability: Securing our Future Housing Needs*, Kate Barker ar ran ODPM, 2004.
[50] *Making the Most of Wales' Coast*, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006.

defnydd tir yng Nghymru yn y dyfodol. Bydd y goblygiadau hyn yn gyfarwydd i'r rheini sy'n ymwneud â Phartneriaeth Arfordir a Môr Cymru[51], y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyfeirio ati am ganllawiau ar faterion sy'n ymwneud â rheoli arfordir Cymru yn gynaliadwy. Mae llifogydd hefyd yn effeithio ar ardaloedd arfordirol, gyda llifogydd yn dod yn ddigwyddiadau amlach ar hyd rhannau o arfordir Cymru dros y blynyddoedd diweddar. Er mwyn ymdopi â'r pwysau hyn, ffurfiwyd y 'Pwyllgor Rheoli Llifogydd' â'r nod o oruchwylio'r gwaith o ddarparu gweithgareddau risg llifogydd Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru, yn enwedig o ran yr amddiffynfeydd rhag llifogydd.

Mae Strategaeth yr Amgylchedd hefyd yn effeithio ar faes polisi rheoli llifogydd, sef thema sy'n effeithio'n fawr ar y system cynllunio defnydd tir. Mae llawer o'r themâu allweddol a'r 'blaenoriaethau ar gyfer yr amgylchedd' yn gysylltiedig â llifogydd, yn enwedig mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd a rheoli a chadw'r tirlun naturiol mewn ffordd effeithiol.

Disgwylir i newid yn yr hinsawdd arwain at gyfnodau byr o law trwm a allai effeithio ar unrhyw strategaethau a roddir ar waith, ac fe allai hefyd effeithio ar benderfyniadau cynllunio defnydd tir. Mae'r patrymau o ddefnydd tir a datblygu sy'n newid o fewn basnau afonydd hefyd yn dylanwadu ar y risg o lifogydd, yn enwedig mewn ardaloedd dalgylch fel yr Afon Hafren. Cyflwynir prosesau rheoli basnau afonydd er mwyn lleihau effaith llifogydd afonol amlach mewn nifer o ddalgylchoedd gan gynnwys afonydd yn y Gorllewin, basn Afon Dyfrdwy a basn Afon Hafren, a fydd yn effeithio'n sylweddol ar bolisïau defnydd tir yn yr ardaloedd penodol hyn. Gallai polisi yn y dyfodol orfod ystyried y posibilrwydd o brinder dŵr, sy'n golygu edrych ar faterion fel atal llifogydd o fewn polisïau rheoli dŵr ehangach.

6.5.3 Cynllunio Gofodol

Cynllun Gofodol Cymru yw un o'r dogfennau allweddol a gynhyrchwyd gan Lywodraeth y Cynulliad dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'n nodi camau gwirioneddol cyntaf y Cynulliad tuag at 'gynllunio gofodol' yn dilyn ESDP (Persbectif Datblygu Gofodol Ewropeaidd) hynod ddylanwadol yr Undeb Ewropeaidd, Nod Cynllun Gofodol Cymru yw cysylltu ystod o wahanol themâu polisi er mwyn mapio cyfeiriad Cymru ar gyfer y dyfodol yn nhermau ei heconomi, ei seilwaith, ei chymdeithas a'i diwylliant. Mae'n mynd i'r afael â materion sy'n flaenoriaeth i Gymru, megis amddifadedd, yr iaith Gymraeg, ac mae'n ceisio ymdrin â hynodrwydd rhanbarthol drwy fentrau polisi sy'n berthnasol yn lleol. Golyga hyn y rhoddwyd mwy o bwyslais ar bennu anghenion a blaenoriaethau gwahanol ranbarthau Cymru, ac felly, telir mwy o sylw i anghydraddoldebau gofodol a gwahaniaethau yn y wlad.

[51] Nod Phartneriaeth Arfordir a Môr Cymru yw: "rhoi cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar faterion datblygu cynaliadwy sy'n effeithio ar arfordir a môr Cymru, yn ogystal â hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth a lledaenu arferion da". Mae aelodaeth graidd y Bartneriaeth yn cynnwys cyrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol sydd â diddordebau mewn materion sy'n ymwneud â'r arfordir a / neu'r môr. http://www.walescoastalpartnership.org.uk/

Mae effeithiau'r strategaeth hon ar gynllunio defnydd tir yn fwy sylweddol felly, am ei fod yn ceisio pwysleisio'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu yng Nghymru, anghenion seilwaith y dyfodol a nifer o bolisïau daearyddol eraill. Mae'r Cynllun Gofodol yn cyflwyno heriau ar gyfer y system cynllunio defnydd tir am ei fod yn gorgyffwrdd â ffiniau gwleidyddol a gweinyddol cyfredol, gan olygu y bydd mwy o gydweithredu rhwng awdurdodau yng Nghymru. Ni ddeellir yn llawn eto sut y bydd y gweledigaethau gofodol hyn yn cael eu hymgorffori i arferion dyddiol cynllunwyr yng Nghymru, ond mae'r tueddiadau presennol yn awgrymu bod amlder gweledigaethau gofodol tebyg a pholisïau rhanbarthol yn cynyddu (er enghraifft y syniad o Ranbarthau-Dinas, sy'n cryfhau ledled y DU). Mae cysyniad Cynllunio Gofodol hefyd yn mynd o nerth i nerth ar lefel Ewropeaidd a chenedlaethol, ac mae wedi dylanwadu ar nifer o strategaethau yng Nghymru. Ceir tystiolaeth o hyn yn y 'Cynllun Datblygu Gwledig' (a drafodir yn adran 2), 'Blaenau'r Cymoedd ar y Blaen ' [52], a strategaeth ofodol Caer – Gogledd-ddwyrain Cymru,[53] ac amryw raglenni'r Gronfa Strwythurol, y mae pob un ohonynt yn cyflwyno cyfres o bolisïau sy'n cyfeirio at gynllunio gofodol.

6.5.4 Prosesau Cynllunio

Mae'n hanfodol sicrhau bod system effeithiol yn ei lle ar gyfer rhoi polisi cynllunio ar waith. Mae hefyd yn bwysig felly gynnwys ymchwil sy'n edrych ar sut mae'r system yn gweithio a phroses y cynllun. Mae system gynllunio Cymru yn cael ei gwella drwy raglen **Cynllunio: Cyflawni dros Gymru**, sy'n cynnwys newidiadau mawr i'r polisi cynllunio, system y cynllun datblygu a'r prosesau rheoli datblygiad. Mae'r Gyfarwyddeb Ewropeaidd newydd ar Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) [54] ar gynlluniau a pholisïau a ddaeth i rym yn ddiweddar yn enghraifft o'r angen posibl am fwy o ymchwil neu ganllawiau ar arferion da. Mae hyn yn esgor ar lawer o gwestiynau ynghylch gofynion statudol y ddeddfwriaeth a sut y cynhelir asesiadau o'r fath. Mae asesiadau a gynhaliwyd gan y Cynulliad eisoes wedi gweld y bydd gofynion ar gyfer SEA yn effeithio'n sylweddol ar weithredu'r system gynllunio yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas â Chynlluniau Datblygu Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol a Chanllawiau Cynllunio Atodol. Mae canllawiau arferion da o ran cynnal SEAau ar gael oddi wrth lawer o ffynonellau, gan gynnwys canllawiau interim oddi wrth y Cynulliad,[55] Canllawiau i Awdurdodau Cynllunio[56] oddi wrth ODPM a deunydd arferion da oddi wrth Asiantaeth yr Amgylchedd (EA).[57]

[52] 'Blaenau'r Cymoedd ar y Blaen... Fframwaith Strategol ar gyfer Blaenau'r Cymoedd', Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005

[53] *West Cheshire – North East Wales Sub Regional Study*, Cynulliad Rhanbarthol y Gogledd Orllewin, 2004 http://www.wda.co.uk/resources/Chapter_1_-_W_Cheshire__NE_Wal.pdf

[54] Cyfarwyddeb 2001/42/EC

[55] Asesiad Amgylchedd Strategol y Cynlluniau Datblygu Unedol – Canllaw Arferion Da Dros Dro, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004

6.5.5 Datblygu Economaidd

Mae datblygu economi Cymru yn ganolog i bolisïau a strategaethau'r Cynulliad. Mae **Cymru: Economi yn Ffynnu (WAVE)** yn nodi'r her ar gyfer y dyfodol. Mae'r canolbwynt ar ddatblygu economaidd yn cynnwys goblygiadau sylweddol ar gyfer y system gynllunio yng Nghymru. Ceir cwestiynau pwysig ynghylch sut i gynllunio ar gyfer datblygiad a thwf economaidd yn y lle cyntaf. Ceir cwestiynau technegol - megis sut i wneud hyn - ac ystyriaethau polisi - megis beth i'w wneud.

Yn ogystal â'r cyd-destun polisi a osodir gan WAVE, rhaid i'r system gynllunio hefyd ryngweithio â'r strategaethau datblygu ehangach, megis rhaglenni Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a rhaglenni Gorllewin Cymru sy'n gysylltiedig â gweithgarwch Cronfeydd Strwythurol Ewrop yn y dyfodol, a Chynllun Datblygu Gwledig Cymru.[58] Ystyriaeth bellach ar gyfer y system gynllunio yw canlyniad adolygiad yr Ardaloedd a Gynorthwyir sydd ar y gwell. Mae'r cynigion cyfredol yn cynrychioli newid mawr o'r trefniadau presennol yn rhannau penodol o Gymru.

Wrth gynllunio ar gyfer datblygu economaidd, efallai y dylai'r cynllunwyr hefyd ystyried natur y datblygu economaidd a gynigir. Mae WAVE a rhaglenni arfaethedig y Gronfa Strwythurol yn rhoi pwys mawr ar ysgogi arloesedd a'r economi wybodaeth. Gall gofynion economi wybodaeth fod yn wahanol i ofynion economi sy'n seiliedig ar weithgareddau economaidd mwy traddodiadol. Yn ymarferol, mae ystyr hyn yn llai amlwg.

Gallai uno'r WDA a'r Cynulliad hefyd esgor ar newidiadau mewn arferion datblygu economaidd a chodi materion i'r system gynllunio eu hystyried yn ehangach. Rhydd hyn gyfleoedd i gydgysylltu polisi â'r Is- Yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau (DEIN).

Yn olaf, mae maes arall sy'n destun llawer o sylw o ran polisi yn ymwneud â mynd i'r afael â lefelau uchel o anweithgarwch economaidd, yn enwedig lle mae hyn yn canolbwyntio mewn ardaloedd daearyddol bach. Byddai'n werth ystyried pa gyfraniad y gallai'r system gynllunio ei wneud i'r agenda hon.

[56] Cyfarwyddeb SEA: Canllawiau i Awdurdodau Cynllunio (Canllawiau ymarferol ar gymhwyso Cyfarwyddeb Ewropeaidd 2001/42/EC wrth asesu cynlluniau a rhaglenni ar yr amgylchedd i gynlluniau gofodol a defnydd tir yn Lloegr), ODPM, 2003

[57] Canllawiau ar Arferion Da ar gyfer Asesu Amgylcheddol Strategol, Asiantaeth yr Amgylchedd, 2005 (http://www.environmentagency.gov.uk/aboutus/512398/830672/?version=1&lang=_e)

6.5.6 Trafnidiaeth

Nod Deddf Trafnidiaeth Cymru (2006) yw rhoi'r pwerau i'r Cynulliad er mwyn iddo allu "cynllunio system drafnidiaeth fwy cydgysylltiedig ac integredig i Gymru." Mae'r Ddeddf hefyd yn mynnu bod y Cynulliad yn paratoi **Strategaeth Drafnidiaeth Cymru** ar gyfer gweithredu ei bolisïau o ran trafnidiaeth. Mae'r Cynulliad wrthi'n paratoi'r strategaeth hon. Mae'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTP) hefyd yn cael eu datblygu gan y cynghreiriau trafnidiaeth rhanbarthol.

Mae adolygiad o drafnidiaeth Cymru yn codi llawer o faterion sy'n ymwneud â defnydd tir, o oblygiadau creu ffyrdd newydd neu wella ffyrdd i ailagor a gwella gwasanaethau rheilffordd a'r llwybrau awyr newydd a gynigir i Gymru. Mae ystod eang o ddatblygiadau eraill fel tai, busnes a hamdden hefyd â goblygiadau ar gyfer seilwaith a gwasanaethau trafnidiaeth. Mae'r gofyniad i sicrhau y gall gwasanaethau trafnidiaeth gefnogi datblygiadau newydd hefyd yn hanfodol, ac yn benodol i integreiddio â thrafnidiaeth gyhoeddus i fodloni targedau datblygu cynaliadwy. Mae cynlluniau'r Cynulliad ar gyfer seilwaith Cymru hefyd wedi'u hamlygu yng Nghynllun Gofodol Cymru, sy'n nodi gweledigaeth y Cynulliad i wella cysylltiadau yn y wlad, ac â gweddill y DU ac Ewrop hefyd.

6.5.7 Gwastraff

Mae gwastraff wedi dod yn fater pwysig yng Nghymru ac mae'r amcanion a'r targedau penodol a nodir yng Nghyfarwyddebau Ewropeaidd fel y Gyfarwyddeb Fframwaith ar Wastraff a'r Gyfarwyddeb Tirlenwi yn mynnu newidiadau radical yn y ffordd y caiff gwastraff ei reoli. Hyd yn hyn, nid oes gan Gymru hanes da iawn o fodloni targedau lleihau gwastraff ac ailgylchu. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi **Yn Gall Gyda Gwastraff**: Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru a PPW a TAN 21 (Gwastraff). Mae'r prif bwyslais ar hyrwyddo creu llai o wastraff, ei ail-ddefnyddio a'i adfer, a symud oddi wrth dirlenwi. Mae strategaeth Yn Gall Gyda Gwastraff yn nodi targedau penodol i Gymru o ran y dulliau o reoli gwastraff a bwriad TAN 21 yw hwyluso'r broses o gyflwyno fframwaith cynllunio defnydd tir cynaliadwy, integredig a chynhwysfawr ar gyfer rheoli gwastraff yng Nghymru drwy dri chynllun gwastraff rhanbarthol. Mae gan Is-adran yr Amgylchedd - Diogelu ac Ansawdd y Cynulliad gyllidebau sylweddol ar gyfer cynnal gwaith ymchwil sy'n ymwneud â gwastraff, ac felly dyma'r brif ffynhonnell ar gyfer cynllunio ymchwil ar wastraff, yn hytrach na'r WPRP.

6.5.8 Telegyfathrebu

Mae gan Gymru broblemau sylweddol sy'n atal mynediad i wasanaethau telegyfathrebu datblygedig, gan gynnwys rhwystrau topograffigol ac economaidd-gymdeithasol. Nid yw

poblogaeth wasgarog Cymru a lefelau tlodi cymharol mewn rhai ardaloedd yn apelio at gyflenwyr telegyfathrebu. Mae'r Cynulliad yn cydnabod, er mwyn bod yn gystadleuol mewn marchnadoedd lleol a byd-eang, mae'n hanfodol o fusnesau gael mynediad at y gwasanaethau telegyfathrebu mwyaf effeithiol sydd ar gael. Er mwyn mynd i'r afael â methiant y farchnad band eang yng Nghymru, lansiodd y Cynulliad Raglen Band Eang Cymru yn 2002, â'r nod o ddarparu mynediad a band eang cynaliadwy ar draws Cymru erbyn mis Mawrth 2007. Bydd cyflwyno gwasanaethau telegyfathrebu datblygedig ar draws Cymru yn cael effaith amlwg nid yn unig yn nhermau'r seilwaith i ddarparu'r rhwydwaith ond hefyd y posibilrwydd o newid patrwm lleoli gweithgarwch economaidd drwy wella cyfathrebiadau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

Mae llawer o'r problemau cynllunio defnydd tir sy'n ymwneud â thelegyfathrebu yn rhan annatod o'r broses o ddatblygu gallu ymarferol, technolegol. Mae'r rhain yn gyffredin yng Nghymru a Lloegr fel ei gilydd. Er mwyn hyrwyddo gwerth am arian, dyma faes ymchwil a fyddai'n elwa'n fawr ar gydweithio â Lloegr.

6.5.9 Adolygu Polisi

Yn y drafodaeth hon am feysydd polisi, rydym wedi amlygu rhai materion a datblygiadau sy'n dod i'r amlwg a allai ddylanwadu ar yr angen am adolygu agweddau ar bolisi cynlluniom gan dynnu sylw at faterion sy'n ymwneud â pholisi'r Cynulliad. Yr hyn sydd hefyd yn bwysig wrth bennu'r ymchwil sydd i'w chynnal gan yr WPRP dros y pum mlynedd nesaf yw statws y polisi cynllunio a'r canllawiau sydd yn eu lle ar hyn o bryd, a ph'un a oes angen diweddaru'r polisi cyfredol. Er enghraifft, mewn rhai achosion, ni adolygwyd y TANau ers 1996. Cyflwyna Tabl 6.1 y sefyllfa ddiweddaraf o ran y TANau. Awgryma hyn sail ar gyfer blaenoriaethu ymchwil y dyfodol er mwyn darparu sail dystiolaeth i gefnogi anghenion datblygu polisi'r dyfodol.

Tabl 6.1 Sefyllfa Bresennol y Fframwaith Polisi

Dogfen Bolisi	Dyddiad Diweddaraf y Polisi	Ymchwil a Gynhaliwyd	Sefyllfa Ddiweddaraf yr Adolygiadau
TAN 1 Astudiaethau Argaeledd Tir a Thai ar y Cyd	1997	Na	Drafft ymgynghori 2005
TAN 2 Cynllunio a Thai Fforddiadwy	1996	2002 & 2004	Drafft ymgynghori 2005
TAN 3 Parthau Cynllunio wedi'u Symleiddio	1996	Na	
TAN 4 Manwerthu a Chanolfannau Trefi MIPP Rhif 2 Cynllunio ar gyfer Manwerthu a Chanolfannau Trefi	1996 2005	Na	

Dogfen Bolisi	Dyddiad Diweddaraf y Polisi	Ymchwil a Gynhaliwyd	Sefyllfa Ddiweddaraf yr Adolygiadau
TAN 5 Cynllunio a Chadwraeth Natur	1996	Na	
TAN 6 Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig	2000	2004	
TAN 7 Rheoli Hysbysebu Awyr Agored	1996	Na	
TAN 8 Ynni Adnewyddadwy MIPP Rhif 1 Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy	1996 2005	2003, 2004	
TAN 9 Gorfodaeth Rheoli Cynllunio	1997	Na	
TAN 10 Gorchmynion Cadw Coed	1997	Na	
TAN 11 Sŵn	1997	Na	
TAN 12 Dylunio	2002	2004	
TAN 13 Twristiaeth	1997	Na	
TAN 14 Cynllunio Arfordirol	1998	Na	
TAN 15 Datblygu a Pherygl Llifogydd	2004	2003	
TAN 16 Chwaraeon a Hamdden	1998	Na	
TAN 18 Trafnidiaeth	1998	Na	Disgwyl yr ail ymgynghoriad 2006
TAN 19 Telegyfathrebu	2002	Na	
TAN 20 CDUau Iaith Gymraeg a Rheoli Cynllunio	2000	Na	
TAN 21 Gwastraff	2001	2005	
MTAN 1 Agregau	2004	2000, 2001	
MTAN Glo			Cyhoeddi drafft ar gyfre ymgynghori

Ffynhonnell: Llywodraeth Cynulliad Cymru

6.6 Casgliadau Strategol

Yn yr adran hon, rydym yn trafod cynnwys yr WPRP yn y dyfodol.

- Mae'r amcanion a gynigwyd gan yr Astudiaeth Gwmpasu yn berthnasol o hyd ac yn cynnwys yn briodol anghenion ymchwil y broses o ddatblygu polisi cynllunio.

- Dylai'r Rhaglen barhau i fynd ar drywydd themâu ymchwil datblygu cynaliadwy, cynllunio gofodol a materion gwledig. Dylid cynnwys themâu newydd hefyd er mwyn trafod materion trefol, y rhyngwyneb trefol : gwledig ac adfywio.

- Mae nifer o feysydd polisi allweddol y Cynulliad yn ymwneud yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol â pholisi cynllunio, sy'n wynebu datblygiadau dros y pum mlynedd nesaf. Bydd y datblygiadau hyn yn ddiwahân yn effeithio ar yr angen am newidiadau mewn polisi cynllunio. Rhydd Offeryn Porth Polisi'r Cynulliad gyfle i ystyried effaith polisi cynllunio'r Cynulliad a pholisïau eraill sy'n gysylltiedig â'r Cynulliad, â'i gilydd.

- Wrth bennu cynnwys y rhaglen ymchwil yn y dyfodol, mae angen blaenoriaethu'r meysydd polisi y mae angen eu hadolygu. Mae angen gwneud hyn drwy werthuso'r fersiwn ddiweddaraf o'r polisi cyfredol a'r datblygiadau sydd ar y gweill, a fydd yn effeithio ar bolisi cynllunio. Mae'n debygol y bydd y blaenoriaethau hyn yn newid yn flynyddol, gan ddibynnu'n bennaf ar ffactorau allanol.

- Bydd blaenoriaethau Gweinidogion a blaenoriaethau corfforaethol y Cynulliad hefyd yn bwysig wrth bennu gweithgareddau o dan yr WPRP. Mae angen i'r Rhaglen aros yn ymatebol i newidiadau ym mholisi'r Cynulliad, er mwyn i'r system gynllunio allu ymateb.

7.0 Casgliadau ac Argymhellion

7.1 Cyflwyniad

Mae'r adran olaf hon yn tynnu ynghyd ganfyddiadau allweddol yr adrannau blaenorol, ac yn ymateb i amcanion yr adolygiad:

- *Adolygu'r ymchwil a gynhyrchwyd hyd yn hyn ac ystyried sut y mae'n bodloni amcanion / themâu gwreiddiol yr WPRP.*
- *Ystyried sut y mae'r ymchwil a gwblhawyd wedi'i throsi'n bolisïau a nodi unrhyw rwystrau.*
- *Ymgynghori â rhanddeiliaid ynghylch sut y mae'r Rhaglen wedi gweithredu a cheisio barn am gynnwys y Rhaglen yn y dyfodol.*
- *Cynghori ar weinyddiaeth y Rhaglen yn y dyfodol.*
- *Cynghori ar flaenoriaethau'r Rhaglen yn y dyfodol.*
- *Ystyried a yw amcanion gwreiddiol y Rhaglen yn dal i fod yn ddilys, ac os oes angen, cyflwyno set newydd o amcanion / themâu y dylid ail-alinio'r Rhaglen â hwy yn y dyfodol.*

Mae'n dechrau trwy drafod newidiadau sydd ar y gweill o ran comisiynu a rheoli ymchwil o fewn y Cynulliad yn ei gyfanrwydd. Yna, mae'n mynd i'r afael â materion gweithredol sy'n ymwneud â rhoi'r Rhaglen ar waith a rhoi argymhellion ar gyfer y dyfodol. Mae'r ail ran yn edrych ar flaenoriaethau'r Rhaglen ar gyfer y dyfodol ac yn trafod yr amcanion a'r themâu a allai fod yn fframwaith ar gyfer comisiynu gwaith ymchwil yn y dyfodol.

7.2 Sefyllfa'r Rhaglen yn Null Corfforaethol y Cynulliad o Ymchwilio

Ers datganoli, bu'r Cynulliad yn datblygu ei ddull o weithredu polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Cymerwyd cam enfawr ymlaen yn 2005, pan benododd y Cynulliad Prif Ymchwilydd, sy'n arwain tîm ymchwil canolog (Swyddfa'r Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol - OCSRO). Bu'r tîm hyn yn ymdrechu tuag at safonau ymchwil uchel, a reolir ac a gynllunnir yn briodol, gan bwysleisio tystiolaeth fel sail i bolisi sydd hefyd yn gysylltiedig â blaenoriaethau a phenderfyniadau cyllid.

Er mwyn datblygu hyn, mae'n ofynnol i Adrannau ar draws y Cynulliad bellach ddatblygu cynllun ymchwil a gwerthuso erbyn mis Ebrill 2006. Mae'r cynlluniau hyn yn mynd i'r afael â strategaeth adrannol ar gyfer ymdrin ag ymchwil a rhaglen ymchwil flynyddol. Bydd y rhain yn gysylltiedig â chynlluniau gweithredol a Meysydd Gwario sy'n Flaenoriaeth

(SPAs).[59] Daw'r WPRP o dan Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad. Fel rhan o hyn, lluniwyd Cynllun Ymchwil a Gwerthuso ar gyfer yr Adran yn ddiweddar.

Fodd bynnag, megis dechrau mae'r broses hon ar gyfer codi safonau'r ymchwil a wnaed gan Adrannau'r Cynulliad. Mae OCSRO yn datblygu dulliau sydd, yn ogystal â sicrhau ansawdd yr ymchwil, yn annog arfer o gydweithredu rhwng Adrannau'r Cynulliad.

Mae Uned Ymchwil Gymdeithasol y Cynulliad[60] wedi datblygu Fframwaith Cymhwysedd ar gyfer Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth (GSR).[61] Nod y Fframwaith hwn yw *"egluro a diffinio ystod a safonau sgiliau ac ymddygiadau angenrheidiol"* y rheini a gyflogir fel ymchwilwyr cymdeithasol. Caiff y fframwaith hwn ei ddefnyddio fwyfwy wrth recriwtio ymchwilwyr cymdeithasol, a gellid ei ddefnyddio ar gyfer y rheini sy'n rheoli ymchwil o dan yr WPRP. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'r Is-adran Gynllunio yn defnyddio model lle mae swyddogion yn comisiynu ac yn rheoli'r prosiect ymchwil ac yn datblygu'r polisi canlynol. Fel y trafodwyd eisoes, mae hyn yn rhoi cydlyniant rhwng ymchwil a datblygu polisi. Os mai prif rôl swydd benodol yw cynnal gwaith ymchwil, mae'n rhesymegol i ddefnyddio Fframwaith. Fodd bynnag, lle mae gwaith ymchwil yn gyfran o swydd yn unig, wedi'i gyfuno â datblygu polisi, dylai fod yna rywfaint o hyblygrwydd wrth ei ddefnyddio. Un o'r prif resymau dros gael fframwaith yw sicrhau proffesiynoliaeth wrth gynnal gwaith ymchwil. Dylid bod yn ofalus felly wrth roi cyfrifoldeb dros reoli ymchwil i unigolion oni bai eu bod yn cyfranogi'n aml yn hynny o beth. Pwynt arall i'w nodi yma yw bod gan fwyafrif y staff sy'n cynnal gwaith ymchwil yn yr Is-adran Gynllunio gymwysterau cynllunio, sy'n dueddol o gynnwys modiwlau sy'n ymwneud â dulliau ymchwil gymdeithasol, ac felly byddant yn hyddysg ar reoli ymchwil.

7.3 Datblygu Fframwaith Perthnasol

Wrth adolygu'r fframwaith y bydd yr WRPR yn gweithredu o'i fewn, byddwn yn ystyried y newidiadau a fu ym mholisi'r Cynulliad a strwythurau sefydliadau. Ar ddechrau'r Rhaglen yn 2000, ychydig iawn o bolisi corfforaethol y Cynulliad a oedd yn ei le. Mae'r sefyllfa hon bellach wedi newid a nawr mae matrics cydgysylltiedig o bolisi yn ei le ar gyfer llywio gwaith y Cynulliad. Rydym wedi defnyddio'r strwythur polisi hwn er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu fframwaith ar gyfer gweithgareddau'r WPRP yn y dyfodol.

[59] Y Meysydd Gwario sy'n Flaenoriaeth ar gyfer 2005-06 i 2007-08 yw: Addysg a Dysgu Gydol Oes; Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth; Diwylliant, yr Iaith Gymraeg a Chwaraeon; yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad; Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio; Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; a Llywodraeth Leol (Ffynhonnell: Cyllideb ar gyfer Dyfodol Cymru, Cynlluniau Gwario Drafft y Cynulliad).

[60] Yn seiliedig o fewn Swyddfa'r Cabinet.

[61] Fframwaith Cymhwysedd Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, Uned Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, Swyddfa'r Cabinet, 2005.

Byddai'r Fframwaith yn gweithredu fel matrics y gellid cymharu pob prosiect ymchwil yn ei erbyn er mwyn mesur ei gyfraniad at bolisi craidd y Cynulliad ac anghenion cynllunio defnydd tir. Yn bwysicach fyth, dylai ymchwil ar gynllunio adlewyrchu blaenoriaethau gwleidyddol y Cynulliad a gallu ymateb i anghenion y system cynllunio defnydd tir yn y lle cyntaf.

Argymhelliad 1: Defnyddio matrics i lywio'r gwaith o ddethol prosiectau ymchwil
Mae'r matrics a ddangosir yn Ffigur 7.1 yn nodi'r fframwaith y cynigiwn y dylid ei ddefnyddio wrth flaenoriaethu gwaith ymchwil yn y dyfodol. Rhydd hyn fframwaith sy'n ymgorffori gwerthoedd craidd y Cynulliad, ei Feysydd Gwario sy'n Flaenoriaeth a'r themâu ymchwil a'r meysydd polisi a gynigir.

Ffigur 7.1 Matrics ar gyfer Dethol prosiectau Ymchwil



7.3.1 Blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru

Dylai'r holl waith ymchwil ystyried tair blaenoriaeth strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru a nodir yn strategaeth Cymru: Gwlad Well – datblygu cynaliadwy, cyfle cyfartal a chynhwysiant cymdeithasol. Efallai bod rhai prosiectau yn mynd i'r afael ag un neu fwy o'r

themâu hyn fel rhan annatod o'r pwnc ymchwil. Dylai'r holl brosiectau geisio ystyried y tair blaenoriaeth fodd bynnag.

7.3.2 Meysydd Gwario sy'n Flaenoriaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru

Mae gan y Cynulliad sail Faes Gwario sy'n Flaenoriaeth (SPA), a elwir hefyd yn MEGs. Cynigiwn y dylai'r prosiectau ymchwil a ddewisir ategu'r blaenoriaethau hyn lle bynnag y bo hynny'n bosibl, gan greu cysylltiadau rhwng meysydd polisi'r Cynulliad a blaenoriaethau gwario'r Cynulliad.

7.3.3 Amcanion Ymchwil

Argymhellodd yr Astudiaeth Gwmpasu bedwar amcan ar gyfer y Rhaglen, sef:

- cefnogi'r broses o ddatblygu polisi cynllunio yng Nghymru sy'n ymateb i anghenion ac amgylchiadau arbennig Cymru;
- cyfrannu at wella'r system gynllunio yng Nghymru;
- gwella'r sail wybodaeth ar gyfer rheoli a datblygu'r broses gynllunio yng Nghymru;
- datblygu arferion da a chanllawiau.

Argymhellwn cadw'r amcanion hyn am eu bod yn ymgorffori anghenion y system cynllunio defnydd tir, gan gynnwys datblygu polisi, gwybodaeth sy'n sail i'r penderfyniadau polisi hyn, rhoi'r system gynllunio ar waith a'r angen i ganolbwyntio ar anghenion Cymru. Cefnogwyd y rhain i gyd yn ystod y broses ymgynghori am eu bod yn berthnasol i anghenion y system gynllunio yng Nghymru.

7.3.4 Themâu Ymchwil

Nododd yr Astudiaeth Gwmpasu dair thema ymchwil hirdymor, sef datblygu cynaliadwy, cynllunio gofodol a materion gwledig. Awgryma ein hymchwil fod y rhain yn dal i fod yn themâu ymchwil dilys ar gyfer y Rhaglen. Fodd bynnag, argymhellwn gynnwys nifer o themâu ychwanegol – materion gwledig, y rhyngwyneb trefol : gwledig ac adfywio. Trafodir pob un o'r themâu hyn isod.

7.3.4.1 *Datblygu Cynaliadwy*

Er bod datblygu cynaliadwy eisoes yn rhan o'r matrics fel un o flaenoriaethau'r Cynulliad, dylid ei gynnwys hefyd fel thema ymchwil am ei fod yn thema greiddiol ar gyfer cynllunio defnydd tir, gan gynnwys mwynau a gwastraff. Gellir cyfiawnhau felly ei atgyfnerthu o fewn y fframwaith ar gyfer blaenoriaethu ymchwil.

7.3.4.2 *Cynllunio Gofodol*

Er bod y Cynllun Gofodol yn un o swyddogaethau corfforaethol y Cynulliad sy'n dod o fewn cylch gwaith yr WPRP, erys materion cynllunio gofodol y mae angen eu hystyried wrth ddatblygu polisi defnydd tir. Argymhellwn felly y dylai cynllunio gofodol barhau yn thema ar gyfer y Rhaglen. Byddai datblygu cysylltiadau agosach â'r tîm cynllunio gofodol yn annog cyfatebolrwydd rhwng y meysydd gwaith.

7.3.4.3 *Materion Gwledig*

Mae Cymru yn wlad wledig i raddau helaeth, ac mae ei hardaloedd gwledig yn fwy ynysig nag ardaloedd gwledig mewn mannau eraill yn y DU. Mae ymchwil i faterion gwledig felly yn hanfodol bwysig i Gymru, ac felly argymhellwn cadw'r thema ymchwil hon.

7.3.4.4 *Materion Trefol*

Er bod Cymru yn bennaf yn wledig, mae ganddi ardaloedd trefol sylweddol sy'n tyfu, a lle mae mwyafrif ei phoblogaeth yn byw. Mae ffurfiau trefol Cymru yn unigryw o ganlyniad i'w topograffi. Mae'r patrymau trefol yn bennaf yn rhai gogledd-de, o gymharu â ffurfiau trefol cydganol traddodiadol Prydain. O ganlyniad, argymhellwn ychwanegu materion trefol fel thema.

7.3.4.5 *Y Rhyngwyneb Gwledig : Trefol*

Yn gysylltiedig â'r themâu gwledig a threfol, mae'r angen i ystyried y rhyngwyneb rhwng ardaloedd gwledig a threfol a'r cysylltiadau dibynnol rhyngddynt. Dyma thema ymchwil nelach sy'n adlewyrchu daearyddiaeth Cymru, y dylid ei chynnwys felly.

7.3.4.6 *Adfywio*

Yn gysylltiedig â hanes economaidd-gymdeithasol Cymru a'i hangen i fynd i'r afael â'r newidiadau sydd wedi dod i ran y diwydiannau gwledig a diwydiannol, mae adfywio yn agenda sy'n cael sylw 'r system cynllunio defnydd tir, ac felly dylid eu cynnwys fel thema ymchwil.

7.3.5 Meysydd Ymchwil

Yn Adran Chwech, trafodir y materion posibl sy'n dod i'r amlwg ynghylch polisi'r Cynulliad, y bydd angen i bolisi cynllunio defnydd tir ymateb iddo dros y pump neu chwe blynedd nesaf, ac mae'n bosibl y bydd angen ymchwil i hyn. Nodir y meysydd ymchwil hyn isod:

- Amaethyddiaeth a datblygu gwledig;
- Tai;

- Yr Amgylchedd;
- Cynllunio Gofodol;
- Datblygu Economaidd;
- Trafnidiaeth;
- Gwastraff;
- Telegyfathrebu;
- Prosesau Cynllunio.

Er mwyn llywio'r gwaith o ddethol y pynciau ymchwil, mae angen cynnal adolygiad o'r polisïau cyfredol a'i osod yn erbyn proses y Cynulliad o ddatblygu polisi a datblygiadau allanol sy'n effeithio ar bolisi cynllunio. Bydd hyn yn effeithio ar ddewis y prosiectau ymchwil sy'n flaenoriaeth. Mae'n debygol y bydd angen adolygu hyn yn flynyddol yn ystod y Rhaglen, a bydd modd i'r Panel Defnyddwyr gyfrannu at hyn.

7.4 Rheoli a Gweinyddu'r Rhaglen

7.4.1 Rheoli'r Rhaglen

Yma, gwnawn ystod o argymhellion o ran rheoli'r Rhaglen.

Argymhelliad 2: **Cyflwyno proses strwythuredig ar gyfer cydgysylltu a rheoli'r Rhaglen.**
Ar hyn o bryd, er bod yna unigol a enwebir i fod yn gyfrifol am gydlynu'r Rhaglen, ymddengys fod y prosesau i gefnogi hyn yn gyfyngedig. Awgryma ein canfyddiadau y byddai dull mwy ffurfiol a strwythuredig o reoli'r Rhaglen yn helpu i'w rheoli'n ariannol yn effeithiol ac yn gwneud y mwyaf o'r adnoddau a ddefnyddir gan y Rhaglen. Argymhellwn rhoi un unigolyn yn gyfrifol am reolaeth gyffredinol y Rhaglen. Dylai hyn fynd law yn llaw â sefydlu gofynion adrodd rheolaidd er mwyn olrhain cynnydd y prosiectau unigol a nodi unrhyw danwariant neu orwariant. Byddai hyn yn fwy effeithiol pe bai'n cael ei redeg fel rhaglen unigol, yn hytrach na'i rhannu rhwng cynllunio defnydd tir ac ymchwil gwastraff a mwynau.

Argymhelliad 3: Adfywio'r Panel Defnyddwyr a rhoi cylch gwaith ehangach iddo.
Ystyriwyd bod y Panel Defnyddwyr yn fecanwaith defnyddiol ar gyfer cynnwys rhanddeiliaid allanol ac Adrannau eraill y Cynulliad yn y Rhaglen; argymhellwn felly ailffurfio'r Panel Defnyddwyr. Dylid cael un Panel Defnyddwyr sy'n cynnwys cynrychiolydd o'r RAWPs. Er mwyn ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid drwy'r Panel, mae'n hanfodol fod gan y Panel gylch gwaith ehangach. Mae potensial i'r Panel chware mwy o ran wrth reoli'r Rhaglen yn strategol ac wrth ddethol prosiectau ymchwil. Dylid atgyfnerthu cylch gwaith y Panel felly er mwyn cynnwys yr agweddau hyn. Byddai o gymorth cynnal y

cyfarfodydd ar adegau sy'n cydweddu ag amserlen y Panel ar gyfer dethol prosiectau (gosod cyllidebau) a'u hadolygu. Rhydd y Panel hefyd gyfle i rannu gwaith ymchwil ymysg y gwahanol sefydliadau.

Argymhelliad 4: Adolygu'r Rhaglen yng nghanol y cyfnod (tair blynedd).
Cefnogir cynnal adolygiad pum mlynedd o'r Rhaglen; rhydd gyfle i adolygu ei heffaith dros gyfnod hwy, ac mae hyn yn fuddiol o ystyried y cylch polisi. Ers dechrau'r Rhaglen, bu'r Cynulliad yn datblygu set o bolisïau corfforaethol. Mae strwythurau a fframweithiau sefydliadol y Cynulliad bellach yn eu lle ac felly mae'n gwneud synnwyr yn awr i adolygu'r Rhaglen yn amlach. Felly argymhellwn adolygiad interim yng nghanol y Rhaglen, sef ar ôl tair blynedd. Byddai hyn yn gyfle i ystyried a yw argymhellion yr adolygiad pum mlynedd wedi'u bodloni, a'u heffaith, heb orfod aros am bum mlynedd.

Argymhelliad 5: **Codi ymwybyddiaeth y staff ymchwil am y broses gaffael.**
Mae'r broses gaffael yn cymryd llawer o amser y swyddogion. Ymddengys fod hyn yn rhannol o ganlyniad i ddiffyg ymwybyddiaeth o ofynion y broses gaffael, am fod rhai unigolion yn ymgymryd â hi unwaith neu ddwywaith y flwyddyn yn unig. Er mwyn goresgyn hyn, argymhellwn fod yr Uned Gaffael yn briffio'r staff.

Argymhelliad 6: Ymchwilio i ddulliau caffael amgen, gan gynnwys ceisiau galw i mewn.
Mae'r broses gaffael yn un hir sy'n arwain at broblemau wrth gomisiynu ymchwil y gellid ei chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae hyn wedi cyfrannu at danwariant gan y Rhaglen. Mae angen cynnwys elfen o hyblygrwydd yn y dulliau o osod contractau. Rhydd ceisiau galw i mewn a chontractau fframwaith gyfle i leihau'r prosesau caffael y mae eu hangen ar ôl i'r ymchwil gael ei nodi. Mae'n hanfodol, fodd bynnag, fod y broses o ddethol contractau yn defnyddio ystod eang o feini prawf gan gynnwys ansawdd, hanes ac ati.

7.4.2 Rheolaeth Ariannol

Mae'r set hon o argymhellion yn cysylltu'n annatod â'r set flaenorol ar reoli'r Rhaglen.

Argymhelliad 7: Y gyllideb i aros ar ei lefel gyfredol o leiaf.
Er bod y Rhaglen wedi tanwario, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu nad oes angen rhaglen ymchwil lawn ar lefel y gyllideb bresennol. Yn hytrach, awgryma ein canfyddiadau fod y tanwario hyn o ganlyniad i ffactorau eraill, gan gynnwys defnyddio'r ystod gyfan o opsiynau caffael (h.y. os oedd ffyrdd o leihau'r amser a dreuliwyd yn comisiynu ymchwil, gellid gwneud mwy yn ystod y chwarter olaf, pan fo perfformiad y contractau yn hysbys). Argymhellwn felly fod y gyllideb yn aros ar ei lefel gyfredol o leiaf.

Argymhelliad 8: Cyllideb unigol.
Mae cynllunio defnydd tir a chynllunio gwastraff a mwynau ill dau yn mynd â chyfran benodedig o BEL yr WPRP. Er bod hyn yn fodd i gynnal ymchwil o dan y ddau faes ac yn osgoi'r angen i flaenoriaethu rhwng y ddau faes, nid yw'n helpu i reoli'r Rhaglen yn effeithiol. Yn benodol, mae'n lleihau'r cyfle i wneud y mwyaf o'r gyllideb sydd ar gael a'i chynnal fel 'rhaglen' drwy ddiffyg cyllideb unigol ddigonol. Cynigiwn felly y dylid cael rhaglen unigol. Wrth gytuno ar y rhaglen ymchwil, ni ddylai na chynllunio defnydd tir na chynllunio mwynau a gwastraff fod dan anfantais. Cynigir matrics yn adran 7.3 er mwyn helpu i ddethol y gwaith ymchwil.

Argymhelliad 9: Parhau i ariannu prosiectau ymchwil ar y cyd.
Dylid parhau â'r arfer presennol o gefnogi asiantaethau allanol eraill, gan gynnwys Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd, am fod hyn nid yn unig yn rhannu'r adnoddau sydd ar gael, ond hefyd yn sicrhau bod gwahanol faterion yn cael eu hystyried, gan gynyddu manteision yr ymchwil.

Argymhelliad 10: Archwilio cyfleoedd cyd-ariannu.
Yn ogystal â phrosiectau ymchwil ar y cyd, mae cyfleoedd eraill ar gael i sicrhau arian ychwanegol i ategu'r WPRP. Mae hyn yn cynnwys darparu symiau nominal[62] i gefnogi myfyrwyr ymchwil PhD drwy'r Brifysgol er mwyn gweithredu fel lifer ar gyfer ariannu'r cyngor ymchwil[63]. Deallwn fod y Cynulliad eisoes yn noddi tua thri lle yn ganolog. Byddai hyn yn fwyaf addas wrth gefnogi ymchwil 'awyr las', gan ychwanegu gwerth i'r WPRP. Fodd bynnag, dylid sylweddoli ar yr anawsterau sy'n gysylltiedig â hyn, gan ystyried materion fel recriwtio'r myfyriwr ymchwil cywir a'r cyfnod cyn bydd canlyniadau'r ymchwil ar gael. Gallai arian Ewropeaidd sydd ar gael i gefnogi cynllunio gofodol [64] a Phersbectif Cynllunio Gofodol Ewropeaidd (ESPS) hefyd gyflwyno cyfleoedd ariannu ar gyfer astudiaethau cymharol ag Aelod Wladwriaethau eraill yr Undeb Ewropeaidd. Mae Rhaglenni'r Gronfa Strwythurol (gan gynnwys Interreg) yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd, ond dylid eu monitro ar gyfer cyfleoedd yn y dyfodol.

Argymhelliad 11: Dylid cynnal mentrau i gefnogi'r Rhaglen Ymchwil, yn benodol lle y gallant wneud y defnydd mwyaf o'r gyllideb
Amlygodd y staff mewnol a'r rhanddeiliaid allanol yr angen i gynnal gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud ag ymchwil, megis ariannu seminarau arfer gorau. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y polisi yn cael ei ddeall a'i weithredu'n effeithiol. Mae

[62] Fe'n cynghorwn mai'r lefel angenrheidiol yw tua £2,500 am dair neu bedair blynedd ar gyfer un ymchwilydd.
[63] Am ymchwil ar gynllunio, y Cyngor Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd (ESRC) o bosibl.
[64] Mae'r Rhaglenn INTERREG traws-genedlaethol (2000-2007) yn rhoi arian i gefnogi ymchwil a phrosiectau sy'n ymwneud â chynllunio gofodol a materion cysylltiedig.

rhywfaint o weithgareddau nad ydynt yn ymwneud ag ymchwil eisoes yn cael eu cyflawni o dan yr WPRP, er enghraifft ariannu cefnogaeth weinyddol yr RAWPs. Dylid ystyried cyfleoedd i gefnogi'r Rhaglen, gan gynnwys ei lledaenu, er enghraifft drwy briffio aelodau a swyddogion yr awdurdodau lleol. Byddai'n ddefnyddiol i sicrhau bod arferion gorau yn cael eu lledaenu yn ogystal â chanfyddiadau ymchwil a hefyd wrth ddarparu mecanweithiau ymarferol ar gyfer sicrhau'r gwario'r gyllideb gyfan, a hynny yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Argymhelliad 12: Ailenwi'r Rhaglen ac Ehangu ei Chwmpas.
Mae'r maeth o weithgarwch cefnogi a ddisgrifir o dan Argymhelliad 11 y tu allan i gylch gwaith ymchwil pur. Fodd bynnag, drwy ailenwi'r Rhaglen, ceir mwy o hyblygrwydd ar gyfer gweithgareddau datblygu polisi. Awgrymir yr enw Rhaglen Datblygu Polisi Cynllunio Cymru.

Argymhelliad 13: Cyflwyno cronfa i gefnogi ymchwil raddfa-fach gan sefydliadau allanol, pe bai'r gyllideb yn cynyddu.
Mae Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio'r Cynulliad yn cynnal Cronfa Syniadau Newydd [65] sy'n rhoi hyd at £10,000 i sefydliadau allanol gyflwyno ac ymgymryd ag ymchwil ar faterion sy'n ymwneud â set o amcanion craidd[66]. Ymddengys fod hyn yn ffordd gadarnhaol o annog syniadau newydd a chomisiynu ymchwil sydd â gofynion rheoli cymharol gyfyngedig. Fodd bynnag, ni fyddem yn argymell cynllun o'r fath oni bai bod cyllideb y Rhaglen yn cynyddu'n sylweddol. Byddem hefyd yn argymell ystyried canlyniadau unrhyw adolygiad a gynhelir gan yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ar y Gronfa Syniadau Newydd, cyn rhoi cynllun o'r fath ar waith.

7.4.3 Cyfathrebu

Mae'r set hon o argymhellion yn ymdrin â chyfathrebu rhwng Adrannau eraill y Cynulliad a sefydliadau allanol. Ceir rhai cysylltiadau â'r argymhellion a geir o dan reolaeth ariannol.

Argymhelliad 14: Croesawu gwaith yr OCSRO i wella cydweithio o fewn y Cynulliad.
Ymddengys fod yna wendidau ar hyn o bryd yn yr ymchwil ar draws polisïau. Mae gweithgareddau'r OCSRO yn mynd i'r afael â hyn ac felly argymhellwn fod yr Is-adran Gynllunio yn cydweithio ag OCSRO i sicrhau bod cydweithio yn gwella er budd yr WPRP ac unrhyw brosesau datblygu polisi canlynol.

[65] Mae'r Gronfa yn ei blwyddyn gyntaf ac nid oes unrhyw brosiect ymchwil wedi'i chwblhau eto. Mae adolygiad o'r Gronda yn yr arfaeth er mwyn asesu ei pherfformiad.
[66] Comisiynir hyd at ddeg o brosiectau.

Argymhelliad 15: Gweithio gyda'r Uned Polisi Strategol i sicrhau bod anghenion cynllunio polisi yn cael eu hystyried wrth gymhwyso'r Offeryn Porth Polisïau.
Mae angen i'r Is-adran Gynllunio sicrhau ei bod yn defnyddio'r Offeryn Porth Polisïau wrth ddatblygu polisïau, gan ei ymgorffori i'r cyfnod ymchwil er mwyn sicrhau bod polisi corfforaethol y Cynulliad yn cael ei gynnwys mor gynnar ag sy'n bosibl. Mae hefyd yn bwysig fod y broses o ddatblygu polisi y tu allan i'r Is-adran Gynllunio yn ystyried eu perthynas â'u heffaith ar bolisi cynllunio, a dylai'r Is-adran felly gydweithio'n agos â'r Uned Polisi Strategol i sicrhau bod y meysydd polisi eraill yn ystyried polisi cynllunio.

Argymhelliad 16: **Defnyddio'r ad-drefniad strwythurol (uno) i sicrhau gwell cydweithio, o ran gweithgareddau datblygu economaidd yn benodol, gan ganolbwyntio ar swyddogaethau tir ac eiddo.**
Gan adeiladu ar Argymhelliad 14, argymhellwn fod yna ffocws penodol ar ddatblygu â'r Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau newydd, lle'r ymdrinnir â materion sy'n ymwneud â chynllunio defnydd tir, er enghraifft gweithredu ac adolygu'r Strategaeth Eiddo a ddatblygwyd gan y WDA gynt, WAVE a datblygiad Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Mae gan y strategaethau hyn gysylltiadau agos â chynllunio defnydd tir ac mae angen cysylltiadau rhwng y polisïau er mwyn iddynt ategu ac atgyfnerthu ei gilydd. Er mwyn datblygu hyn, bydd yn bwysig nodi'r Is-adrannau a'r unigolion allweddol sy'n gyfrifol am feysydd polisi perthnasol ac i gyfarfod â hwy yn rheolaidd i drafod rhaglenni ymchwil ar y cyd a chynnwys swyddogion allweddol yn y Panel Defnyddwyr a grwpiau llywio perthnasol.

Argymhelliad 17: **Cydweithio ag OCSRO i sefydlu rhwydwaith ymchwil cynllunio defnydd tir y Siroedd Cartref[67].**
Mae angen sicrhau bod adnoddau cyfyngedig yr WPRP yn cael eu defnyddio'n effeithiol a'u bod yn canolbwyntio'n benodol ar anghenion Cymru. Drwy gydgysylltu ar draws y Siroedd Cartref, gellir osgoi dyblygu ymchwil. Rhydd hefyd gyfle i gynnwys persbectif Cymreig ar brosiectau ymchwil gwlad arall, lle bo hynny'n briodol.

Argymhelliad 18: Manteisio ar wefan y Cynulliad, sydd wedi'i gwella er mwyn sefydlu llyfrgell ymchwil a diweddariadau ar gynnydd y broses o ddatblygu polisi ac ymchwilio.
Mae gwefannau bellach yn ddull poblogaidd o nodi a chael mynediad at ymchwil a chael y newyddion diweddaraf am ymchwil sydd ar droed. Mae gwefan newydd y Cynulliad yn fodd i gynyddu mynediad at ymchwil a newyddion mewn ffordd fwy strwythuredig. Rhydd gyfle i ddatblygu llyfrgell o ymchwil a gomisiynwyd o dan yr WPRP a chysylltiadau gwe â ffynonellau perthnasol eraill a gynhelir gan asiantaethau eraill ac Adrannau'r Cynulliad.

[67] Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

Argymhelliad 19: Ailfywiogi'r cylchlythyr blynyddol.
Mae'r cylchlythyr blynyddol yn fecanwaith da ar gyfer rhoi'r newyddion diweddaraf am y Rhaglen i sefydliadau allanol. Argymhellwn fod hwn yn cael ei ail-lansio a'i gynhyrchu'n flynyddol. Byddai hwn yn ategu'r gwefan drwy atgoffa unigolion a chodi eu hymwybyddiaeth o'r Rhaglen, myn hytrach na dibynnu ar bobl yn ymweld â'r wefan. Gellir ei anfon yn electronig.

Argymhelliad 20: Sefydlu cymuned ymchwil cynllunio yng Nghymru, gan ddefnyddio gwasanaeth rhybudd ar e-bost.
Gan adeiladu ar y cylchlythyr a'r wefan, byddai datblygu cymuned ymchwil gynllunio rithwir i Gymru drwy'r e-bost yn ffordd o godi proffil y Rhaglen a rhoi gwybodaeth berthnasol i unigolion allweddol yn barhaus. Byddai'n cyfeirio at y wefan am wybodaeth bellach. Gall bobl gofrestru â gwefan newydd y Cynulliad i dderbyn negeseuon e-bost awtomatig er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf.

Argymhelliad 21: Parhau i gynnal digwyddiadau lledaenu ar gyfer ymchwil a gynhyrchir .
Dylid parhau â'r arfer cyfredol o gynnal digwyddiad lledaenu ar ôl cwblhau prosiect ymchwil unigol. Maent yn canolbwyntio'n benodol ar yr ymchwil a cheir cyfle i rannu hyn yn eang â phartïon sydd â diddordeb.

Rheoli Prosiectau Ymchwil
Mae'r set hon o argymhellion yn mynd i'r afael â'r gwaith o reoli prosiectau unigol a gomisiynwyd o dan y Rhaglen.

Argymhelliad 22: Cyflwyno gwerthusiad / adolygiad o bobl prosiect ymchwil am eu bod yn dueddol o adlewyrchu ar y broses.
Argymhellwn gynnal adolygiad ffurfiol o bob prosiect ymchwil ar ddiwedd pob contract er mwyn adlewyrchu ar y broses. Byddai hyn yn canolbwyntio ar ddysgu gwersi am y broses gontractio yn hytrach nag ar faterion tymor hwy megis y cyfraniad tuag at ddatblygu polisi. Byddai hefyd yn helpu i lywio gwerthusiadau o'r Rhaglen yn ei chyfanrwydd yn y dyfodol.

Argymhelliad 23: Gwneud y mwyaf o'r cysylltiadau â thimau arbenigol canolog y Cynulliad, gan gynnwys economyddion ac ystadegwyr i gynghori ar brosiectau.
Mae gan y Cynulliad dimau arbenigol canolog o economegwyr ac ystadegwyr, sy'n adnodd corfforaethol i gefnogi'r gwaith ymchwil. Mae OCSRO yn annog defnyddio'r timau arbenigol hyn er mwyn cynyddu gwerth yr ymchwil. Argymhellwn datblygu cysylltiadau agosach er mwyn rhoi adnodd ychwanegol i gefnogi'r ymchwil a gomisiynwyd o dan yr WPRP.

Argymhelliad 24: Parhau i greu grwpiau llywio ar gyfer prosiectau, ond sicrhau bod ganddynt gylch gwaith clir o ran rheoli, ac eto nad ydynt yn dylanwadu ar ganfyddiadau'r ymchwil.

Mae grwpiau llywio'r prosiectau wedi bod yn fodd cadarnhaol o oruchwylio ac ychwanegu gwerth i bob contract ymchwil. Argymhellwn felly barhau i'w defnyddio. Fodd bynnag, dylid eu cyfyngu o ran maint a chynnwys unigolion perthnasol, gan gynnwys pobl o asiantaethau allanol neu adrannau eraill y Cynulliad. Dylai fod ganddynt gylch gwaith clir, sef er mwyn sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar reoli'r contract ymchwil ac nad ydynt yn perfformio rôl eirioli.

7.4.4 Goresgyn y Rhwystrau sy'n Atal yr Ymchwil Rhag Llywio Polisi

Un o'r rhwystrau a nodwyd yn ystod yr adolygiad oedd gallu ymarferol o fewn yr Is-adran Gynllunio i reoli ymchwil a datblygu polisi. Mae'r bwlch yn yr amser rhwng yr ymchwil a chyflwyno'r polisi o ganlyniad i'r ffaith fod y broses o lunio polisïau yn un hir. Gwnawn un argymhelliad er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn. Mae'r ddau rwystr arall a amlygwyd yn ystod yr ymchwil yn ymwneud â blaenoriaethau Gweinidogion a pherchenogaeth gan adrannau neu sefydliadau perthnasol o ran datblygu polisi, ac mae'r ddau yn gysylltiedig â sicrhau bod y polisi yn cydweddu â pholisi corfforaethol y Cynulliad. Aed i'r afael â hyn o dan yr argymhellion yn 7.3.

Argymhelliad 25: Gwneud y gorau o'r adnoddau cyfredol er mwyn comisiynu ymchwil a datblygu polisi.

Ceir materion sy'n ymwneud â gallu ymarferol staff yr Is-adran Gynllunio ar hyn o bryd i gomisiynu a rheoli ymchwil a datblygu polisi. Mewn sefyllfa ddelfrydol, byddem yn argymell recriwtio o leiaf un aelod staff llawn amser i wneud y gwaith hwn. Fodd bynnag, rydym yn gwerthfawrogi fod cynnydd yn y gyllideb staff yn annhebygol. Argymhellwn felly wneud y mwyaf o'r adnoddau presennol.

Annex One: Bibliography

Bibliography
Directive 2000/60/EC of the European Parliament and of the Council establishing a framework for the Community action in the field of water policy, OJ L 3272000
Land Use Planning Research Scoping Study, Final Report, DTZ Pieda Consulting, 2000
Learning to Live Differently, Welsh Assembly Government, 2000
Mineral Planning Policy Wales, The National Assembly for Wales, 2000
Farming for the Future, National Assembly for Wales, 2001
Planning Policy Wales, Welsh Assembly Government, 2002
Planning Delivering for Wales, Welsh Assembly Government, 2003
The SEA Directive: Guidance for Planning Authorities (Practical guidance on applying the European Directive 2001/42/EC on the assessment of plans and programmes on the environment to land use and spatial plans in England), ODPM, 2003
Wales: A Better Country, Welsh Assembly Government, 2003
Wise About Waste: The National Waste Strategy for Wales, Welsh Assembly Government, 2003
Making the Connections: From Vision to Action, Welsh Assembly Government, 2004
Minerals Technical Advice Note (MTAN) 1: Aggregates, Welsh Assembly Government, 2004
People, Places, Futures - The Wales Spatial Plan, Welsh Assembly Government, 2004
Report on Mainstreaming Equality in the Work of the National Assembly, Equality of Opportunity Committee, NAfW, 2004
Review of Housing Supply - Delivering Stability: Securing our Future Housing Needs, Kate Barker on behalf of ODPM, 2004
Starting to Live Differently: The Sustainable Development Scheme of the National Assembly for Wales, Welsh Assembly Government, 2004
Strategic Environmental Assessment of Unitary Development Plans - Interim Good Practice Guide, Welsh Assembly Government, 2004
The Sustainable Development Action Plan 2004-2007, Welsh Assembly Government, 2004
West Cheshire – North East Wales Sub Regional Study, North West Regional Assembly, 2004
A Budget for the Future of Wales, the Assembly's Draft Spending Plans, 2005
Delivering the Connections: From Vision to Action, Welsh Assembly Government, 2005
Good Practice Guidelines For Strategic Environmental Assessment, Environment Agency, 2005
'Heads – We Win…' - A Strategic Framework for the Heads of the Valleys, Welsh Assembly Government, 2005
Wales - A Vibrant Economy, Welsh Assembly Government, 2005
Water Framework Directive - Consultation on River Basin Planning Guidance, DEFRA with the Welsh Assembly Government, 2005
Making the Most of Wales' Coast, Welsh Assembly Government, 2006
Rural Development Plan for Wales 2000-2006, The National Assembly for Wales, (undated)

Annex Two

WPRP Funded Projects 2000 - 2005

Research Project	Programme / Originator	Publication Date	Assembly Budget H / M / L	Linkage to scoping study objectives	Policy Linkage	Published to Web
Feasibility Study of Crushed Rock Sand in South East Wales	Minerals / Assembly	Sept 2000	Low	- Improving knowledge base	MPPW	http://www.wales.gov.uk/subiplanning/content/research/crushedrock_summ_e.htm
The Sand & Gravel Resources for North West Wales	Minerals / Assembly	2004	High	- Improving knowledge base	MPPW	http://www.wales.gov.uk/subiplanning/content/minerals/nw-sand-gravel-sum-e.pdf
Appraisal of Land-Based Sand & Gravel Resources in South East Wales	Minerals / Assembly	Sept 2000	High	- Planning Policy - Improving knowledge base	Linked to MPPW and some evidence linking it with development of MTAN 1.	http://www.wales.gov.uk/subiplanning/content/research/sandgravel_exsumm_e.htm
Bristol Channel Marine Aggregates: Resources & Constraints	Minerals / Assembly & DETR	Dec 2000	Low	- Improving knowledge base	It meets conditions set out in MPPW for decision makers to make informed decisions through its 'methodological framework'. Provided data for the development of Marine Aggregates Dredging Policy (South Wales).	http://www.wales.gov.uk/subiplanning/content/research/bristol/contents_e.htm
Comparative Impact Assessment of Land & Marine Sand & Gravel – Executive Summary	Minerals / Assembly	May 2002	High	- Planning Policy - Improving knowledge base	Provided advice in relation to future marine dredging in the Bristol Channel.	Summary: http://www.wales.gov.uk/subiplanning/content/guidance/sand-gravel-e.htm
Marine Aggregate Resource Management & Planning System	Minerals / Assembly	Feb 2002	High	- Improving knowledge base	Decision support system for marine aggregates. More work needed for it to work.	No
Applied Geological Mapping in Mid Wales	Minerals / Assembly	Ongoing (5 years to 2006)	High	- Planning Policy	Forward planning for aggregates and minerals.	Not possible to place these maps on the web.
Survey of Sea Cliffs at the Glamorgan Heritage Coast	Minerals / Assembly	2000	Low		Case specific research	Not published as case specific.
Farm Diversification & the Planning System	Planning / Assembly	Mar 2001	High	- Welsh issues - Planning Policy	The aim was it to inform PPW review.	http://www.wales.gov.uk/subiplanning/content/research/farmdiversification/fdps_exsu_e.htm

Research Project	Programme / Originator	Publication Date	Assembly Budget H / M / L	Linkage to scoping study objectives	Policy Linkage	Published to Web
Comparative Spatial Planning Methodologies Research Study	Spatial Plan / Assembly	Feb 2001	Medium	- Welsh issues	Development of the Wales Spatial Plan.	http://www.wales.gov.uk/subiplanning/content/spatial/spatialresearchstudy-e.pdf
The Application of Accessibility Methodologies to Land Use Planning	Planning / Assembly	May 2001	Medium	- Functioning of Planning System		http://www.wales.gov.uk/subiplanning/content/reports/method/index.htm
North Wales Slate Tips – A Sustainable Source of Secondary Aggregates?	Minerals / Assembly	Jun 2001	Medium	- Welsh issues - Improving knowledge base	Minerals Planning Policy Wales	http://www.wales.gov.uk/subiplanning/content/minerals/secagg-e.htm
Sustainability Appraisal of UDPs in Wales - Review of background material	Planning / Assembly	Apr 2002	Low	- Develop best practice & guidance	Provides guidance for carrying out sustainability appraisals in UDPs – to ensure sustainability is integral to UDP design.	http://www.wales.gov.uk/subiplanning/content/devplans/sa_udp-e.pdf
Sustainability Appraisal of UDPs in Wales		Sept 2002				http://www.wales.gov.uk/subiplanning/content/devplans/udp-sas-summary-e.htm
Review of Land Use Planning Indicators – Final Report	Planning / Assembly	Jun 2002	High	- Improving knowledge base	Designed to strengthen the basis of cross cutting approach (social, economic, environment & cultural) to policy development.	http://www.wales.gov.uk/subiplanning/content/landuse/review-land-use-indicators-e.pdf http://www.wales.gov.uk/subiplanning/content/research/planning-indicators-e.htm
The Rural Economy & the Planning System	Planning / Assembly	Nov 2002	High	- Welsh Issues (Rural Planning) - Planning Policy	Recommends that TANs should address integrated rural development, particularly TAN 6 – Agriculture & Rural Development.	http://www.wales.gov.uk/subiplanning/content/research/rural-econ-e.pdf
Second & Holiday Homes & Land Use Planning System Research Report	Planning / Assembly	Jun 2002	High	- Welsh Issues (Rural Planning) - Planning Policy	Implications for planning policy guidance – to be considered as part of review of TAN 2 (Planning & Affordable Housing).	http://www.wales.gov.uk/subiplanning/content/research/2-homes/contents.htm
Establishing a Methodology for Assessing Aggregates Demand & Supply	Minerals / Assembly	2004	High	- Welsh issues (sustainable development) - Functioning of Planning System	Research commissioned to support the Draft Minerals TAN.	http://www.wales.gov.uk/subiplanning/content/minerals/exec-summary-e.pdf

Research Project	Programme / Originator	Publication Date	Assembly Budget H / M / L	Linkage to scoping study objectives	Policy Linkage	Published to Web
Flood Risk Assessment for Planning in Wales	Planning / Assembly	Jan 2003	High	- Planning Policy - Functioning of Planning System	Supports TAN 15 (Development & Flood Risk) by providing a methodology for assessing flood hazard & risk in relation to land use planning in Wales.	Executive Summary http://www.wales.gov.uk/subiplanning/content/research/floodrisk-assessment-e.htm
What sort of countryside do we want?	Planning / Assembly	Aug 2004	High	- Welsh Issues (Rural Planning) - Planning Policy	Potential links for future policy - recommendations for TAN 2, 6 & 12.	http://www.wales.gov.uk/subiplanning/content/research/countryside/sum-e.htm
The potential for wind power in urban, industrial & commercial sites in Wales	Planning / Assembly	May 2003	Medium	- Planning Policy - Improving knowledge base	Tan 8 (Renewable Energy)	http://www.wales.gov.uk/subiplanning/content/research/powysenergy/cover-e.htm
Facilitating Planning for Renewable Energy in Wales: Meeting the Target	Planning / Assembly	Jul 2004	Medium	- Welsh Issues (Rural Planning) - Planning Policy	Tan 8 (Renewable Energy)	http://www.wales.gov.uk/subiplanning/content/research/arup/index-e.htm
Essential Dwellings in the Open Countryside	Planning / Assembly	Jan 2005	Medium	- Welsh Issues (Rural Planning) - Planning Policy	Could be used for TAN 6 – but not yet updated.	http://www.wales.gov.uk/subiplanning/content/research/essential-dwellings-e.pdf
Health Issues & the Planning System	Planning / Assembly	Not completed	Medium	- Welsh Issues (Rural Planning) - Planning Policy	Planning Policy Wales	No
Evaluate Feasibility of Monitoring Previously Developed Land	Planning / Assembly	Apr 2004	Medium	- Welsh issues (Sustainable Development) - Improving knowledge base	Recommends advice on PDL in PPW to be reviewed. TANs which make reference to PDL are: 1, 4, 5, 6, 14, 15 & 16.	Too large for uplifting to web site.
Low Impact Development – Planning Policy & Practice	Planning / CCW	Dec 2002	Low	- Welsh Issues (Rural Policy) - Planning Policy	Could be used to revise TAN 6 - Agriculture & Rural Development.	
Implementing Methodology for Assessing the Environmental Capacity for Primary Aggregates	Minerals / Assembly	2005	High	- Improving knowledge base	Aim: to ensure future primary aggregate supply is obtained from most acceptable locations - types of geological resource environmental capacity of areas to supply aggregates.	http://www.wales.gov.uk/subiplanning/content/research/imaeca-exec-sum-e.pdf

Research Project	Programme / Originator	Publication Date	Assembly Budget H / M / L	Linkage to scoping study objectives	Policy Linkage	Published to Web
Kenfig Pool Quarries Project	Minerals / Assembly	N/A	Medium	-	Case specific	Not published as case specific.
Coastal Monitoring	Minerals / Assembly	N/A	Low	-		No
Transport Policy	Planning / Assembly	N/A	Low	- Planning Policy - Welsh Issues	TAN 18	TAN 18 under review
National Spatial Planning Framework	Spatial Plan / Assembly	2000	Low	- Welsh issues (spatial planning)	Wales Spatial Plan	http://www.wales.gov.uk/subiplanning/content/spatial/spf.rtf
Linguistic Impact Study	Denbighshire CBC	Not complete	Low	- Welsh issues		Ongoing
Flood Risk Pilot Study	Planning / EA	Ongoing	Medium	- Planning Policy		Ongoing
Miscellaneous Payments / Contributions	Planning / Assembly	-	Individual contracts all Low	-	-	-

Annex Three

Study Consultees

Steering Group Members

Steering Group Member	Organisation
Neil Hemington	Planning Division, Welsh Assembly Government
Jonathan Fudge	Planning Division, Welsh Assembly Government
Mike Harmer	Social Justice and Regeneration Department, Welsh Assembly Government
Sue Martin	Planning Division, Welsh Assembly Government
Gareth Enticott	Environment, Planning & Countryside Department, Welsh Assembly Government
Richard Spear	Planning Division, Welsh Assembly Government

Consultees

Consultee	Organisation
Rebecca Philips	Royal Town Planning Institute (RTPI)
Neil Harris	CPlan, Cardiff University
Nick Mills	City and County of Swansea
Jamie Smith	City and County of Swansea
Lindis Cole	Land Use Consultants
Richard Cowell	CPlan, Cardiff University
Martin Hooker	Chair of the South Wales RAWP & Bridgend County Borough Council
Steve Bool	Secretary to the South Wales RAWP & Bridgend County Borough Council
Keith Davies	Countryside Council of Wales (CCW)
Simon Power	Arup
Richard Essex	Royal Institute of Chartered Surveyors (RICS)
Jeff Phillips	Planning Division, Welsh Assembly Government
Jeff Smith	Planning Division, Welsh Assembly Government
Jo Smith	Planning Division, Welsh Assembly Government
Emma Harvey	The Vale of Glamorgan Council
Natasha Lade	Planning Aid Wales
Mike Cuddy	Welsh Development Agency
Richard Thursten	OCSRO, Welsh Assembly Government
Jan Dominguez	Planning Division, Welsh Assembly Government
Natalie Gröhmann	Wales Spatial Plan Unit, Welsh Assembly Government
Peter Samuels	Environment, Planning & Countryside, Welsh Assembly Government
Havard Prosser	Environment, Planning & Countryside, Welsh Assembly Government